

Effaith Gymdeithasol ac Economaidd Arloesi yn y Celfyddydau

ERS Research and Consultancy

— Lluniwyd a pharatowyd yr adroddiad canlynol gan Dr Tim Dixon (tdixon@ers.org.uk), Gordon Allinson (gallinson@ers.org.uk), a Mair Smith (msmith@ers.org.uk) o **ERS Research and Consultancy** (www.ers.org.uk) o Nesta a Chyngor Celfyddydau Cymru.

— Mae'r **Gronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru**, yn bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Nesta. Mae'n olynydd y Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru a oedd ar gael o 2013 i 2015. Mae'r gronfa'n cynorthwyo sefydliadau celfyddydol i arbrofi gan ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn cyrraedd mwy o gynulleidfaedd neu ddatblygu eu model busnes.

Tabl cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	4
Sbotoleuadau	5
Amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau	9
Crynodeb	9
Tystiolaeth o dueddiadau mewn ymgysylltu	9
Tystiolaeth o rwystrau i ymgysylltu yn y celfyddydau	17
Goresgyn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau drwy dechnoleg ddigidol	19
Goresgyn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau drwy ddulliau eraill	21
Effaith y celfyddydau ar drechu tlodi ac anfantais	27
Crynodeb	27
Effaith cyfranogi yn y celfyddydau yng Nghymru	28
Effaith cyfranogi yn y celfyddydau yn y Deyrnas Unedig	30
Effaith cyfranogi yn y celfyddydau o amgylch y byd	36
Cynhyrchiant Economaidd Sector y Celfyddydau	39
Crynodeb	39
Allbwn cyffredinol y sector a'i gydrannau	41
Lefelau sgiliau ym marchnad lafur y celfyddydau	45
Incwm i sefydliadau'r celfyddydau	47
Buddsoddi	52
Llyfryddiaeth	57
Methodoleg yr Astudiaeth	60

1

Sut I Ddefnyddio'r Ddogfen Hon

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn bwynt cyfeirio cyflym i gynorthwyo wrth nodi sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio strategol a chynllunio prosiect. Ein bwriad yw y bydd sicrhau bod y dystiolaeth yn fwy hygyrch a bod mwy yn gwybod amdano yn ein helpu yn ein nod o feithrin diwylliant o arloesi yn sector y celfyddydau yng Nghymru. Cafodd y strwythur a'r cynnwys ei arwain gan gyfres o gwestiynau ymchwil a gododd o'r pum prosiect a ariannwyd gan y Gronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru i gynnal gwaith ymchwil a datblygu.
- 1.2 Nod sylfaenol y ddogfen yw bod yn **bwynt cyfeirio cyflym** i sefydliadau celfyddydol, ymchwilwyr a staff Cyngor Celfyddydau Cymru / Nesta sydd arnynt eisiau sylfaen dystiolaeth yn ymwneud â'r gyfres o dri chwestiwn. Ein bwriad yw y gall y darllenwr droi yma ac acw yn y ddogfen; mae pob adran, felly, yn sefyll ar ei thraed ei hun a gellir eu darllen mewn unrhyw drefn. I'r diben hwn, rydym wedi darparu crynodebau ynghyd â thablau a diagramau priodol.
- 1.3 Y mae'n wybyddus bod casgliad cynyddol o ddogfennau tystiolaeth ac adroddiadau ar gael i ymarferwyr a sefydliadau'r celfyddydau, ond mewn llawer o achosion gwyddom fod y rhain yn anhygyrch neu heb fod ar gael (e.e. drwy wal dalu neu mewn archifau). Lluniwyd y ddogfen hon fel **adolygiad dethol o'r dystiolaeth sydd ar gael**, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar yr hyn sydd ar gael yng Nghymru. O'r herwydd, dylai fod yn ffynhonnell gyfeirio hawdd ei defnyddio i unigolion a sefydliadau sydd arnynt angen tystiolaeth i gefnogi prosiectau celfyddydol arloesol.
- 1.4 Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu hefyd yn cydweddu (lle y bo'n bosibl a pherthnasol) i waith ymchwil y tu allan i Gymru. Mae'r dull cymharol hwn yn caniatáu i'r darlennydd ddewis ystadegau neu ganfyddiadau disgrifiadol allweddol i'r prosiectau yng Nghymru ac ystyried hynny mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach. Pan fo data neu ganfyddiadau ar goll neu o ansawdd is, ceisiom bwysleisio'r prinder neu'r diffyg tystiolaeth.
- 1.5 Mae Adran 2 y ddogfen yn cyflwyno tri Sbotoleuadau, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn y penodau sy'n dilyn. Mae Adrannau 3 i 5 yn disgrifio amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau ac ymdrechion i wella mynediad i wahanol grwpiau. Mae Adran 4 yn archwilio effeithiau cyfranogi yn y celfyddydau ar liniaru tlodi ac allgáu. Yn Adran 5, cyflwynir tystiolaeth o ôl troed economaidd y sector, sgiliau'r gweithlu a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllid referniw a mynediad at gyfalaf buddsoddi. Caiff rhai agweddau ariannol ar yr effaith economaidd, fel hwb i'r economi ymwelwyr a chynnydd mewn cynhyrchiant, eu trafod yn Adran 5, ac mae rhai o'r un deunyddiau yn cyflwyno tystiolaeth bellach ar orlifo ar ffurf gwell canlyniadau addysg, iechyd a chyflogadwyedd yn sgil cyfranogi yn y celfyddydau yn Adran 4.
- 1.6 Rhoddir ein methodoleg fanwl yn yr Atodiad.

Amrywiaeth Cynulleidfaoedd y Celfyddydau

Y sefyllfa yng Nghymru

2.1 Mae cynulleidfaoedd yng Nghymru yn dueddol o fod yn hŷn nag yn rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig, ac mae'r lefelau uchaf o gyfranogi i'w gweld ymysg y graddau cymdeithasol uwch â'r rhai sy'n meddu ar lefel uwch o gymwysterau. Cyfeiria'r dystiolaeth at nifer o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yng nghynulleidfaoedd y celfyddydau yng Nghymru gan gynnwys pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, pobl sydd ag anabledau a phobl o grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Yn ôl y dystiolaeth, mae rhwystrau penodol i ymgysylltu yn effeithio'n anghyfrannol ar wahanol grwpiau gan gynnwys pobl sydd ag anabledau, pobl ifanc ac, mewn ardaloedd gwledig, y rhai sydd heb fynediad at drafnidiaeth breifat. Mae rhwystrau ariannol, yn rhannol yn gysylltiedig â thrafnidiaeth, ac incwm gwario rhywun, hefyd yn ffactorau sylweddol wrth bennu gallu unigolyn i gael mynediad at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. Awgrymwyd bod rhwystrau ariannol sy'n gysylltiedig â dirywiad economaidd yn gysylltiedig â dirywiad bach mewn cyfranogiad a nodwyd yng Nghymru a ledled Ewrop yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ychwanegol, mae nifer o ffactorau seicolegol yn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau nad yw'r celfyddydau 'ar gyfer' neu 'er diddordeb' i grwpiau penodol, ynghyd ag ofn o'r hyn sy'n anhysbys a diffyg ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau cymdeithasol wrth gael profiadau newydd ac mewn gofodau anghyfarwydd. Gall yr eirfa a ddefnyddir i ddisgrifio'r fath ffurfiau ar gelfyddyd, ac oddi mewn iddynt, hefyd atgyfnerthu canfyddiadau o'r fath a dieithrio cynulleidfaoedd newydd arfaethedig.

2.2 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr a Nesta wedi gweithredu nifer o raglenni a chynnig amrywiaeth o gymorth i annog sefydliadau a phrosiectau i fynd i'r afael â nifer o'r rhwystrau hyn. Mae hyn yn cynnwys ariannu rhaglenni sy'n ymgorffori technoleg ddigidol yn rhan o'r ateb. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnig nifer o enghreifftiau o arferion da yn ogystal â gwersi pwysig a ddysgwyd wrth geisio cynyddu amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau. Er hyn, y mae'n bwysig cydnabod mai cyfyngedig fu llwyddiant profiadau ar-lein o amryw ffurfiau celf, yn arbennig pan fo angen talu, a cheir canfyddiadau nad yw'r profiadau hyn gystal â phrofiadau byw. Hefyd, awgryma'r dystiolaeth bod y rhai hynny sy'n ymwneud â chynnwys ar-lein yn dueddol o fod eisoes yn mwynhau'r celfyddydau drwy ddigwyddiadau byw ac felly efallai mai cyfyngedig yw potensial mynediad digidol i'r celfyddydau i amrywio cynulleidfaoedd. Mae'n ymddangos bod cryfderau technolegau digidol yn bodoli y tu allan i'r byd ar-lein ac yn dueddol o ganolbwyntio ar wella mynediad i'r celfyddydau a sefydliadau diwylliannol drwy ganiatáu dulliau newydd o ymgysylltu a mynd â chelf i gymunedau. Mae cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i sefydliadau celfyddydol hefyd yn cynnwys marchnata ar-lein a'r gallu i alluogi cynulleidfaoedd i ddarganfod beth sydd ar y gweill, rhannu cynnwys gydag eraill a chynllunio mynd i ddigwyddiadau.

Y dystiolaeth allweddol sydd ar gael i'r Sector

2.3 Daw mwyafrif y dystiolaeth am y sector o ganlyniadau cyhoeddus Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â sefydliadau cyffelyb yng ngweddill y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'r dystiolaeth gref sydd ar gael i'r sector yn cynnwys y canlynol:

- Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru: (2005, 2010, 2015) arolwg ar raddfa fawr o'r hyn mae celfyddydau a gweithgarwch diwylliannol yn golygu i bobl;
- Adroddiad Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru: (blynyddol) ar bresenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgarwch artistig;

- Arolwg Audience Finder: setiau data cynulleidfaoedd cenedlaethol (y Deyrnas Unedig) a rhanbarthol, gan gynnig dealltwriaeth, a chyfluoedd i gymharu a chymhwysu gwybodaeth am gynulleidfaoedd;
- Arolwg Diwylliant Digidol: (2013, 2014, 2015) arolwg a gynhelir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr ar bwysigrwydd, defnydd ac effaith technoleg ddigidol yn sector y celfyddydau a diwylliant.

Bylchau yn y dystiolaeth

- 2.4** Caiff tystiolaeth o lefelau cyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru ei chasglu a'i chyhoeddi gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae modd ei chymharu â'r hyn sy'n cael ei darparu gan gyrff cyffelyb yng ngweddill y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'r ffaith i gyfranogiad a defnydd o'r "celfyddydau digidol" gael eu cynnwys yn yr Arolwg diweddaraf o'r Celfyddydau yng Nghymru yn ychwanegiad gwerthfawr o ystyried bod hyn bellach yn ddull arall i gael mynediad at y celfyddydau. Er hyn, mae nifer o fylchau amlwg yn y dystiolaeth sydd ar gael sy'n berthnasol i amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau.
- 2.5** Er bod data cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru yn caniatáu inni ei ddadansoddi yn ôl grwpiau demograffig-gymdeithasol (ar wahân i natur wledig), mwy cyfyngedig yw'r set ddata gyflawn ar sail rhwystrau ac nid yw'n caniatáu inni gymharu ar draws grwpiau demograffig-gymdeithasol. Hefyd, prin yw'r dystiolaeth empirig o ddulliau dibynadwy i brofi neu gymharu llwyddiant cymharol ymyriadau gyda gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys diffyg data ar ddefnydd o ddigidol gan sefydliadau'r celfyddydau yng Nghymru. Byddai'r math hwn o dystiolaeth ar gael er mwyn canfod beth sy'n gweithio o ran amrywio cynulleidfaoedd, mewn pa sefyllfaoedd, ac â pha grwpiau o bobl er mwyn ystyried y posibilrwydd o efelychu a chyflwyno'n ehangach.

Effaith y Celfyddydau ar Drechu Tlodi

Y sefyllfa yng Nghymru

- 2.6** Mae ymdrech sylweddol yng Nghymru ar hyn o bryd tuag at drechu tlodi yn gyffredinol, wedi'i harwain o'r brig i lawr gan Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-16. Mae hyn wedi'i ganolbwyntio'n benodol hefyd mewn perthynas â'r celfyddydau drwy adroddiadau gan Dai Smith ar y celfyddydau mewn addysg ysgol yng Nghymru, adroddiad y Farwnes Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi yng Nghymru, a mentrau a ddaeth yn sgil hynny fel Rhaglen Cyfuno. Ymhellach, mae amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf¹ wedi cynorthwyo cymunedau lleol i weithredu 'ar lawr gwlad' er mwyn cefnogi gweithgareddau celfyddydol a phresenoldeb ymysg y rhai hynny na fyddai fel arfer yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath, neu rai sydd heb lawer o fynediad, os o gwbl.

Y dystiolaeth allweddol sydd ar gael i'r Sector

- 2.7** Daw'r dystiolaeth allweddol oddi mewn i Gymru o:
- Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi, sy'n cyflwyno amrywiaeth o effeithiau cymdeithasol yng Nghymru er bod hynny'n seiliedig i raddau helaeth ar adborth goddrychol ac ansoddol (Amgueddfa Cymru - National Museum Wales (AC-NMW), 2016);

¹ Bu datganiad diweddar y caiff rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei dirwyn i ben a bod rhaglen i'w disodli o dan ystyriaeth.

— Canllaw i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol, gan gyflwyno tystiolaeth o effeithiau ar addysg (Llywodraeth Cymru, 2013)

2.8 Yn fwy cyffredinol, darparodd rhaglen Tystiolaeth Diwylliant a Chwaraeon (CASE) fframwaith theoretig a chysyniadol ynglŷn â sut gall y celfyddydau effeithio ar amrywiaeth o ganlyniadau cymdeithasol (Taylor et al., 2015). Edrychodd amrywiaeth o astudiaethau'r London School of Economics wedyn ar berthnasoddedd mesuredig, penodol rhwng y celfyddydau a lles (e.g. Fujiwara, Kudrna, a Dolan, 2014; Fujiwara a Mackerron, 2015). Mewn un enghraifft, defnyddiodd Fujiwara (2013) ap Mappiness i brofi p'un a oedd presenoldeb neu berfformio mewn digwyddiadau celfyddydol yn effeithio ar hapusrwydd, a chanfuwyd perthynas uniongyrchol, yn arbennig yn achos presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol.

Bylchau yn y dystiolaeth

2.9 Er hyn, mae'r dystiolaeth yng Nghymru ar gam cynnar. Er enghraifft, daeth blwyddyn beilot y rhaglen yr Ardaloedd Arloesi i ben, ac mae wedi'i gwerthuso, ond yn amlwg nid yw un fwyddyn yn ddigon o amser i gynhyrchu effeithiau cymdeithasol parhaol. Ymhellach, er i adborth goddrychol a disgrifiadau o effeithiau gael eu casglu, caiff ei gydnabod na wnaed llawer o waith i ddadansoddi'r effeithiau hyn yn wrthrychol a chlir. Mae hyn er gwaethaf fod i rai prosiectau dargedau ar ffurf 'allbynnau' (dangosyddion perfformiad uniongyrchol) er enghraifft cynyddu sgiliau neu gefnogi pobl yn y gweithle. Mae angen mwy o dystiolaeth sy'n ystyried y dulliau theoretig y gall gweithgarwch celfyddydol effeithio ar bobl sy'n bresennol neu'n perfformio yn y ffurf gelf. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r theorïau a'r fframwaith i'w gwerthuso mewn astudiaethau yn y dyfodol.

Cynhyrchiant Economaidd Sector y Celfyddydau

2.10 Maer adran hon cyflwyno ystadegau disgrifiadol sy'n amlinellu ôl troed economaidd a sgiliau'r sector, yn ogystal â'r heriau sy'n gysylltiedig â chydbwysu cyllidebau a sicrhau buddsoddiad. Y mae adnoddau hefyd i sefydliadau'r celfyddydau a negeseuon pwysig i'r sector.

Y sefyllfa yng Nghymru

2.11 Ceir tystiolaeth bod economi'r celfyddydau yng Nghymru yn tyfu, er nad yw'r sector yn ddim ond 0.3 y cant o economi Cymru. Cynyddodd cyflogaeth gan 38 y cant rhwng 2009 a 2015. Er hyn, twf net ar gyfer y sector cyfan yn unig y mae'r tueddiadau'n dangos, a gallai busnesau unigol fod wedi lleihau.

2.12 Gallai'r galw gorfodol amlwg am fwy o incwm fod yn gamarweiniol a byddai'n dda i lawer o sefydliadau bwysu a mesur ac ystyried eu safle holistig gan gael diagnosis o'u sefyllfa a sut orau i ymateb (Raglen Wytwnch Portffolio Celfyddydol Cymru).

2.13 Mae ffynonellau cyhoeddus o gyllid refeniw i'r sector yn parhau i ddirywio, wrth i wariant awdurdodau lleol ostwng 13 y cant dros 2014/15-2015/16. Rhaid dad-wneud unrhyw ddiffyg gydag incwm a enillir neu incwm a gyfrannir. Y mae'n galonogol bod gwariant defnyddwyr (hynny yw, aelodau'r cyhoedd) ar hamdden wedi cynyddu 17 y cant yng Nghymru dros 2006-13.

Y dystiolaeth allweddol sydd ar gael i'r Sector

- 2.14** Y mae arbrofi iachus yn y sector, a chaiff ei dderbyn bod angen dull profi a dysgu er mwyn canfod atebion. Mae atebion arfaethedig yn aml yn gysylltiedig ag anghenion sydd wedi'u dangos, ond yr hyn sydd ar goll yw dangos newid ac achos ac effaith.
- 2.15** Mae model Talu'r Hyn a Ddewiswch yn ymateb i agenda ariannol a chynhwysiant cymdeithasol. Drwy waredu prisiau sefydlog, mae'n bosibl i rai sydd ag incwm is gael mynediad, ond gan hefyd dderbyn gwerth uwch gan rai a all gyfrannu mwy. Mewn peilot dros gyfnod o chwe mis, cynyddodd y gynulleidfa 34.5 y cant, cynyddodd yr incwm 52 y cant, cynyddodd cyfartaledd enillion tocynnau 32 y cant, a chynulleidfaoedd newydd 31 y cant.
- 2.16** Bu rôl hefyd i dechnoleg newydd. Yng Nghymru, mae Shifft, ac yn ehangach LSO Student Pulse, yn cynnig gostyngiadau i fyfyrwyr, rhoddion a buddion eraill drwy ap er mwyn ymestyn allan at gynulleidfaoedd newydd. Bu o gymorth i werthu 82 y cant o docynnau a oedd heb eu gwerthu am brisiau gostyngol.

Bylchau yn y dystiolaeth

- 2.17** O ran ystadegau swyddogol, byddai llawer o'r bylchau yn y wybodaeth yng Nghymru yn wir am unrhyw sector bach mewn unrhyw ranbarth. O ystyried cost rwystrol arolygon pwrpasol, byddai twrio'n ddyfnach i ddata sy'n bodoli eisoes fel sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, yn ffordd dda ymlaen. Dylai'r data hwn gael ei ryddhau i'r cyhoedd gan atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth yn sylweddol.
- 2.18** Mae hunangyflogaeth yn y sector a'r defnydd o wirfoddolwyr yn fylchau amlwg yn y data, ac felly hefyd ddealltwriaeth go iawn o anghenion sgiliau a'r galw am gyllid o safbwynt cyflogwyr.
- 2.19** Bydd rhagor o ddatblygiadau arloesol yn y dyfodol agos a dylai cyllidwyr fod yn awyddus i gynorthwyo'r hyn sy'n gweithio, gan geisio defnyddio dulliau sy'n gwneud cysylltiadau clir rhwng mewnbynnau ac allbynnau. Yn gryno, dangos bod modd ailadrodd pan fo eraill yn defnyddio'r syniadau newydd hyn.

3

Amrywiaeth Cynulleidfaoedd Y Celfyddydau

Crynodeb


- 3.1** Ceir tystiolaeth sylweddol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig sy'n dangos bod amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau yn parhau i fod yn gyfyngedig a bod ffactorau ffisegol a chymdeithasol yn parhau i fod yn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau. Wrth adolygu gwerthusiadau rhaglenni cyllido, ceir amrywiaeth o enghreifftiau o sut y caiff rhai o'r rhwystrau hyn eu herio a'u goresgyn. Treialwyd gwahanol dulliau mewn ymdrech i ehangu ac amrywio cynulleidfaoedd, ac er bod ymgysylltiad â chelf ddigidol ei hun yn isel, cyfeirir at nifer o enghreifftiau lle y defnyddiwyd technoleg ddigidol yn llwyddiannus i oresgyn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau, yng Nghymru a thu hwnt. Cyflwynir enghreifftiau o'r fath yn nes ymlaen yn y bennod hon, ynghyd â dulliau eraill i oresgyn rhwystrau, gan gynnwys modelau talu amgen a phrofiadau 'blasu' mewn gofodau cyhoeddus dydd i ddydd fel busnesau a lleoliadau cymunedol e.e. llyfrgell neu feddygfa deulu.
- 3.2** Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar dueddiadau yn deilio o ganlyniadau a gyhoeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â sefydliadau cyffelyb yng ngweddill y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Er mwyn deall y tueddiadau hyn, mae gofyn dibynnu'n sylweddol ar ganfyddiadau sector y celfyddydau, arolygon anacademaidd a gwerthusiadau rhaglenni a phrosiectau dderbyniodd arian cyhoeddus fel Cronfa Ymchwil a Datblygu i'r Celfyddydau, Nesta. Mae ein dealltwriaeth o dueddiadau yn sector y celfyddydau wedi'i chyfyngu gan ddiffyg data amrwd sydd ar gael i'r cyhoedd, yn benodol i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig yn fwy cyffredinol. Y mae hefyd yn anodd cymharu adroddiadau data am fod diffiniadau amrywiol i'r celfyddydau (a all ymestyn i gynnwys ymweld ag amgueddfa a darllen) a diffyg dadansoddi rhwng ffurfiau celf unigol.

Tystiolaeth o dueddiadau mewn ymgysylltu

Tueddiadau yng Nghymru

- 3.3** Mae canlyniadau arolwg presenoldeb a chyfranogiad celfyddydol diweddaraf Cyngor Celfyddydau Cymru (Tîm Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru, 2016)² yn awgrymu bod presenoldeb cyffredinol yn y celfyddydau (unwaith neu ragor y flwyddyn) yng Nghymru wedi parhau'n gymharol gyson, fel a welir yn Ffigur 3.1. Mae'r arolwg blynyddol yn dangos, ar ôl 2010, i'r gyfran sy'n mynychu ostwng bron i 5 y cant ond erbyn 2014 roedd y gyfran hon wedi dychwelyd i fod ychydig yn uwch na lefelau 2010. Diddorol yw nodi, wrth edrych ar ddata o ffynhonnell arall, sy'n ymwneud yn benodol â sefydliadau refeniw, y bu i bresenoldeb mewn gweithgareddau'r sefydliadau refeniw yng Nghymru gynyddu 22.5 y cant rhwng 2010 a 2014, ac i gyfranogiad gynyddu 15 y cant (O'Riada, 2015).
- 3.4** Mae arsylwi presenoldeb mewn rhagor nag un digwyddiad celfyddydol y flwyddyn yn rhoi inni ddealltwriaeth bellach. Yn ôl arolwg diweddaraf y Celfyddydau yng Nghymru (Beaufort Research, 2016), bu i gyfran is fynd i o leiaf un gweithgaredd celfyddydol 2 i 3 gwaith y flwyddyn neu'n llai aml yn 2015 (73 y cant), o gymharu â 2010 (76 y cant). Mae'r gostyngiad hwn yn benodol o amlwg ym mhresenoldeb rhai 16-24 oed, rhai sydd ag anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor, a rhai sydd yng ngradd gymdeithasol C2 (gweithwyr llaw medrus sydd â chyfrifoldeb am bobl eraill). Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r gwahanol lefelau hyn o gyfranogiad rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol yn yr adran ganlynol.

² Mae 14 o ffurfiau celf wedi'u nodi yn yr arolwg: a. Sinema b. Cerddorol (nid opera) c. Opera d. Bale e. Dawns gyfoes f. Dramâu g. Cerddoriaeth glasurol (cyngerdd/datganiad) h. Jazz (cyngerdd/perfformiad) i. Cerddoriaeth werin, draddodiadol neu'r byd j. Cerddoriaeth fyw arall k. Oriellau neu arddangosfeydd celf neu grefftau l. Darlleniadau, adrodd stori a digwyddiadau llenyddol eraill m. Carnifalau a chelfyddydau'r stryd n. Gwylliau celfyddydol (e.e. cerddoriaeth, dawns, drama, llenyddiaeth).



Ffigur 3.1 Tueddiadau ym mhresenoldeb y celfyddydau yng Nghymru Ffynhonnell: Tim Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru (2016)

³ Creu a gwneud gwaith celf neu animeiddiad gwreiddiol gan ddefnyddio technoleg ddigidol.

3.5 O ran cyfranogiad yn y celfyddydau digidol³, nododd yr un arolwg mai 9 y cant yn unig a gyfranogodd yn flynyddol ac 8 y cant 2 i 3 gwaith y flwyddyn neu'n amlach, gyda lefelau uwch o gyfranogiad ymysg y rhai o dan 45 oed, yn ne-orllewin Cymru a heb fod mewn Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Roedd defnyddio celf ddigidol, gan gynnwys prynu cerddoriaeth a ffilm neu ddrama deledu drwy lawrlwytho digidol, wedyn yn sylweddol uwch (30 y cant a 29 y cant yn eu trefn) na lefelau cyfranogi.

Tabl 3.1 Cymharu data cynulleidfaoedd y celfyddydau yng Nghymru a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig

	Cymru	De-orllewin Lloegr	Yr Alban	Llundain
Cyfanswm y boblogaeth	3,087,338	5,386,018	5,327,599	8,433,333
Cyfartaledd enillion tocynnau	£26.13	£19.91	£29.07	£26.46
Cyfanswm incwm	£14,398,582	£36,622,688	£2,064,692	£103,751,022
Categori oedran amlycaf y mynychwyr	65 neu hŷn	55-64	55-64	25-34
Cyfartaledd amllder mynychu'r mynychwyr	1.86	2.66	1.67	3.41
Cyfartaledd maint y parti	2.7	2.36	2.20	2.24
Ffurf gelf fwyaf poblogaidd (nifer uchaf o archebwyr unigryw) o'r 13 a ddiffiniwyd gan Ddata'r Swyddfa Docynnau	Theatr gerdd (33 y cant)	Cerddoriaeth (21.4 y cant)	Dramâu/ Drama (29.3 y cant)	Dramâu/ Drama (21.5 y cant)

Ffynhonnell: ERS Ltd gan ddefnyddio data Audience Finder

Tueddiadau yn y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol

- 3.6** O gymharu data ar gyfer Cymru a thystiolaeth ar gyfer ymgysylltu â'r celfyddydau yng Lloegr, gwelir lefel gyffredinol debyg a thuedd hirdymor gymharol sefydlog rhwng 2005 a 2015 o ran cyfran yr oedolion sy'n ymgysylltu (gan gwmpasu cyfranogiad e.e. mewn sgiliau syrcais a phaentio, yn ogystal â phresenoldeb mewn digwyddiadau e.e. perfformiadau cerddoriaeth a dramâu) (Matthews, Xu, Matusiak, a Prior, 2016).
- 3.7** Mae canlyniadau Arolwg Audience Finder yn cynnig ffordd o gymharu data ymgysylltu diwylliannol yng Nghymru ag ardaloedd eraill ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r tabl yn cymharu data ar gyfer Cymru gyda data ar gyfer de-orllewin Lloegr a'r Alban, (ar sail natur wledig debyg a lefelau isel o boblogaeth), yn ogystal â chyferbynnu hynny â Llundain.
- 3.8** Yn ôl y data, yng Nghymru y ceir y categori uchaf o oedran amlycaf o'r pedwar rhanbarth. Y mae i hyn oblygiadau o ran y math o gynulleidfaoedd y gallai fod disgwyl i sefydliadau ei dderbyn yng Nghymru yn ogystal ag awgrymu y gallai fod angen mwy o ymdrech i dargedu grwpiau oedran iau, yn arbennig o gymharu â rhanbarthau eraill. Cymru sydd hefyd yn dangos y cyfartaledd uchaf o faint y parti. Er bod pobl yn dueddol o ymgysylltu â'r celfyddydau gydag o leiaf un person arall, efallai bod cynigion fel gostyngiadau grŵp yn ddeniadol i gynulleidfaoedd Cymru.
- 3.9** Er bod cyfartaledd enillion tocynnau yn uwch nag yn ne-orllewin Lloegr a bron mor uchel â Llundain, mae cyfanswm incwm Cymru yn sylweddol is nag yn yr ardaloedd hyn, er ei fod yn dal i fod yn uwch nag yn yr Alban. Yr ysgogiad mwyaf cyffredin i ymweld â lleoliad diwylliannol yng Nghymru yw "cael adloniant". Mae Audience Finder hefyd yn rhoi dadansoddiad fesul segment diffiniedig i bob rhanbarth ar sail ffactorau demograffig-gymdeithasol, diddordebau, ysgogiad ac amllder. Mae'r offeryn cenedlaethol am ddim hefyd yn caniatáu i ganolfannau ddeall eu cynulleidfaoedd eu hunain a chymharu eu data â chanolfannau eraill.
- 3.10** Gan gymharu'n rhyngwladol, gwelwyd tystiolaeth o ostyngiad yng nghynulleidfaoedd y celfyddydau gweledol a pherfformio dros y ddau ddegawd diwethaf yn Unol Daleithiau America. Yn ôl canlyniadau arolwg a gynhaliwyd ledled poblogaeth UDA, ychydig dros 60 y cant o oedolion y wlad a fu'n bresennol mewn o leiaf un digwyddiad celfyddydol (e.e. arddangosfa, cerddoriaeth fyw, theatr, perfformiad dawn) yn ystod y 12 mis blaenorol (National Endowment for the Arts, 2015). Mae adroddiadau diweddar tebyg ar gyfranogiad yn y celfyddydau hefyd ar gael yn achos Awstralia (Australia Council for the Arts, 2014) a Seland Newydd (Arts Council of New Zealand a Toi Aotearoa, 2015). Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol rhwng presenoldeb yn y celfyddydau yng Nghymru a gwledydd eraill yn sgil gwahaniaeth yn amryw weithgareddau'r "celfyddydau" sy'n cael eu gwmpasu ganddynt. Er hyn, diddorol yw nodi i Seland Newydd yn ddiweddar (2014) gofnodi ei lefel uchaf o ymgysylltiad â'r celfyddydau ers i'r arolwg gychwyn yn 2005, gydag 85 y cant o'r boblogaeth yn mynd i o leiaf un digwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn flaenorol, a oedd yn gynydd o 5 y cant o gymharu â 2011.
- 3.11** Y mae hefyd yn berthnasol nodi i wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol oddi mewn i'r gwledydd hyn hefyd nodi gwahanol lefelau o gyfranogi, fel a drafodir yn yr adran ddilynol.

3.12


Gan ddefnyddio data'r Eurobarometer, mae modd cymharu hefyd ar ryw lefel â gwledydd eraill Ewrop, er bod hynny drwy lens "gweithgareddau diwylliannol". Mae'r canlyniadau ar gyfer 2013 yn dangos gostyngiad bach cyffredinol mewn cyfranogiad mewn digwyddiadau diwylliannol gan ddinasyddion y 27 Aelod-wladwriaeth ers yr arolwg blaenorol yn 2007 (TNS Opinion & Social ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, 2013). Er yr awgrymwyd bod rhywfaint o'r newid hwn yn gysylltiedig â'r dirwasgiad economaidd sy'n effeithio ar lawer o Ewrop, gallai ffactorau eraill fod wedi dylanwadu ar dueddiadau hefyd gan mai cost bach, os o gwbl, sy'n gysylltiedig â rhai o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys ac a brofodd ostyngiad (e.e. rhaglenni teledu a radio diwylliannol a darllen).

3.13

Ffigur 3.2: Mynegai Ewropeaidd Ymarfer Diwylliannol: TNS Opinion & Social ar gais y Comisiwn Ewropeaidd 2013. Mae'r ffigur hwn yn cymharu'r 27 Aelod-wladwriaeth drwy ddefnyddio Mynegai ymarfer diwylliannol, a ddatblygwyd er mwyn gosod yr ymatebwyr a'r gwladwriaethau yn nhrefn amllder cyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol, a mynediad at y gweithgareddau hynny⁴. Mae'r Mynegai yn rhoi i bob ymatebydd i'r arolwg sgôr yn seiliedig ar amllder presenoldeb mewn 9 o weithgareddau diwylliannol a gaiff eu defnyddio i nodi eu cyfranogiad fel "uchel iawn", "uchel", "canolig" neu "isel". Yng ngwledydd gogledd Ewrop y mae'r lefelau uchaf o ymgysylltu diwylliannol amlycaf, lle y gwelir y cyfuniad uchaf o sgoriau "uchel iawn" ac "uchel": Sweden (43 y cant), Denmarc (36 y cant) a'r Iseldiroedd (34 y cant). Mae'r Deyrnas Unedig yn dangos lefelau cymharol uchel o ymgysylltu, gyda sgoriau "uchel iawn" ac "uchel" o 26 y cant, gan ei rhoi yn 6ed ar y cyfan ar gyfer y sgôr gyfun hon.

⁴ Gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys: presenoldeb ac ymweld â pherfformiadau bale, dawns a cherddoriaeth, opera, sinema, theatr, cyngherddau, llyfrgell gyhoeddus, henebion neu safleoedd hanesyddol, amgueddfeydd ac orielau, rhaglenni teledu a radio diwylliannol, perfformiadau byw, arddangosfeydd a gwyliau, a darllen.

⁵ BE Gwlad Belg, LT Lithwania, BG Bwlgaria, LU Luxembourg, CZ Gweriniaeth Tsiec, HU Hwngari, DK Denmarc, MT Malta, DE Yr Almaen, NL Yr Iseldiroedd, EE Estonia, AT Awstria, EL Gwlad Groeg, PL Gwlad Pwyl, ES Sbaen, PT Portiwgal, FR Ffrainc, RO Romania, IE Iwerddon, SI Slofenia, IT Yr Eidal, SK Slofacia, CY Gweriniaeth Cyprus*, FI Y Ffindir, LV Latfia, SE Sweden, HR Croatia, UK Y Deyrnas Unedig.



Ffigur 3.2: Mynegai Ewropeaidd Ymarfer Diwylliannol⁵ Ffynhonnell: TNS Opinion & Social ar gais y Comisiwn Ewropeaidd 2013

Lefelau cyfranogi yn y celfyddydau gan wahanol grwpiau cymdeithasol

3.14 Mae adolygiadau o ddata arolwg y Deyrnas Unedig ac ymgynghoriadau ag ymarferwyr y celfyddydau yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn bodoli rhwng nodweddion economaidd-gymdeithasol a phresenoldeb a chyfranogi yn y celfyddydau. Yn ôl y dystiolaeth, mae dosbarth cymdeithasol, ardal breswyl (gwledig/trefol), hil ac anabledd oll yn effeithio ar y defnydd o'r celfyddydau. mewn arolwg o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau a gynhaliwyd yn 2016, meddai bron i bob un o'r sefydliadau sy'n seiliedig yn y Deyrnas Unedig fod cynyddu amrywiaeth y gynulleidfa yn brif flaenoriaeth strategol. Yng Nghymru, yr oedd yn flaenoriaeth i 93 y cant o'r sefydliadau a ymatebodd o gymharu ag 86 y cant yn Lloegr (Richens, d.d.). Nododd yr ymatebwyr fod cynulleidfaoedd eu sefydliadau yn bennaf wyn, dosbarth canol ac fel arfer yn hŷn na'r boblogaeth yn gyffredinol. Roedd rhai yn priodoli hyn yn rhannol i'r diffyg amrywiaeth yn y gweithlu a'u gwaith artistig y dwedwyd gan rai ei fod yn cyfyngu ar amrywiaeth perfformiadau ac yn diethrio'r rhai nad ydynt yn ystyried eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y celfyddydau.

“Pan fyddwch yn ei chael yn anodd goroesi, mae eich blaenoriaethau a'ch angerdd yn canolbwyntio ar chwarae i'r gynulleidfa sy'n talu! Daethom i fod yn wrth-risg ac i ni mae hyn yn golygu rhaglennu cyflwyniadau gwyn, hen a chyfoethog i gynulleidfaoedd gwyn, hen a chyfoethog.” Ymatebydd i'r arolwg

3.15 Yn ôl arolwg diweddaraf Y Celfyddydau yng Nghymru (Beaufort Research, 2016) roedd bron i chwarter y rhai yng ngraddau cymdeithasol DE heb gyfranogi mewn unrhyw weithgaredd celfyddydol yn 12 mis blaenorol o gymharu â 5 y cant yn unig o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol AB. Yn yr un modd, mae'r data ar gyfer cyfranogi mewn o leiaf un digwyddiad celfyddydol 2 neu 3 gwaith y flwyddyn neu ragor yn y 12 mis diwethaf yn dangos bod cyfranogiad yn uwch yng ngraddau cymdeithasol AB (roedd 57 y cant o'r rhai yng ngraddau cymdeithasol AB wedi cyfranogi 2-3 gwaith neu ragor o gymharu â 31 y cant yng ngraddau cymdeithasol DE). Gan gyd-fynd â'r graddau cymdeithasol, gwelwyd bod 7 y cant yn is o'r rhai yn y sampl mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cyfranogi 2 i 3 gwaith y flwyddyn neu ragor na'r rhai nad ydynt mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf.

3.16 Diddorol yw nodi i'r arolwg ddangos bod cyfrannau uwch o'r rhai yng ngraddau AB wedi mynychu bale, opera a chyngherddau cerddoriaeth glasurol, a bod cyfrannau uwch o'r rhai yng ngraddau DE wedi mynychu digwyddiadau syrcau, carnifal a phantomeim. Roedd y rhai yn y graddau economaidd-gymdeithasol is hefyd yn llai tebygol na'r rhai mewn graddau cymdeithasol uwch o fod wedi teithio y tu hwnt i'w hardal leol neu awdurdod lleol i fynd i'w digwyddiad celfyddydol diweddaraf (Beaufort Research, 2016). Mae gwahaniaethau amlwg i'w gweld hefyd yn lefel addysg, gyda 76 y cant o'r rhai heb gymwysterau heb gyfranogi mewn unrhyw ddigwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn ddiwethaf, sef y gyfran uchaf o unrhyw is-grŵp demograffig a nodwyd gan yr arolwg. Roedd 57 y cant o'r rhai â HNC, HND, gradd neu uwch wedi cyfranogi 2 i 3 gwaith neu ragor yn y flwyddyn flaenorol o gymharu â 22 y cant o'r rhai heb gymwysterau.

3.17 Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag eraill a gynhaliwyd yn rhyngwladol. Gwelwyd yng nghanfyddiadau arolwg yr Eurobarometer mai'r rhai mwyaf addysgedig, y rhai mewn swyddi o'r statws uchaf a rhai sydd braidd byth yn profi anawsterau ariannol yn gyffredinol sydd fwyaf tebygol o gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol (TNS Opinion & Social ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, 2013). Yn yr un modd, daeth Arolwg

NEA UDA 2012 i'r casgliad fod unigolion sy'n ystyried eu hunain yn "ddosbarth uwch" yn fwy tebygol o fynychu digwyddiadau celfyddydol, yn arbennig arddangosfeydd (National Endowment for the Arts, 2015).

3.18 O blith rhai sydd ag incwm aelwyd ac addysg tebyg wedyn, roedd y rhai a ystyriai eu hunain yn "ddosbarth canol" yn fwy tebygol na'r rhai a ystyriai eu hunain yn "ddosbarth gweithiol" o fynd i ddigwyddiad celfyddydol. Datgelodd yr arolwg wahaniaethau mewn ysgogiad rhwng grwpiau o'r fath, gydag oedolion dosbarth gweithiol yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad er mwyn dysgu rhywbeth newydd a chefnogi cymuned neu sefydliad.

3.19 Yn ôl arolwg Eurobarometer ar ymgyfranogiad diwylliannol, roedd pobl ifanc (15-24 oed) a myfyrwyr yn dangos lefelau uwch o ymgyfranogiad a mwy o amrywiaeth o weithgareddau na grwpiau oedran eraill. Awgrymwyd yn sgil hynny y gallai fod mai'r grŵp oedran hwn sydd fwyaf ymatebol i ymgais i hybu ymgyfylltiad. Mae ffactorau eraill wedyn, fel statws perthynas a dibynyddion, hefyd yn ffactorau dylanwadol pwysig i wahanol grwpiau oedran. Yn ôl adroddiad ar bresenoldeb mewn perfformiadau a dangosiadau i deuluoedd⁶, mae teuluoedd yn troi i mewn i'r celfyddydau yn ôl eu hawydd (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015a) wrth i brynwyr tocynnau teulu brynu tocynnau i gyfanswm o gyfartaledd o 2.8 o berfformiadau teulu rhwng 2012 a 2016, a 36 y cant yn unig yn mynd i fwy nag un digwyddiad.

3.20 Nid oes tystiolaeth ar gael yn hawdd ar dueddiadau hirdymor cyfranogi yn cyfryngau ymysg grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, yn arbennig amrywiadau rhwng grwpiau, ond y mae Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru yn rhoi rhywfaint o ystadegau pennaf diweddar (Beaufort Research, 2016). Yn ôl canlyniadau'r arolwg, yn achos mwyafrif y gweithgareddau celfyddydol a restrir, roedd cyfran y grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys dwyrain Ewrop) a gymerai ran o leiaf yn cydfynd, os nad yn uwch na'r gyfran o'r boblogaeth gyffredinol (roedd 79 y cant wedi bod i o leiaf un digwyddiad celfyddydol 2 i 3 gwaith y flwyddyn neu ragor o gymharu â 73 y cant o'r sampl cyfan). Roedd yr eithriadau yn cynnwys y celfyddydau gweledol a chrefftau, lle'r oedd tua 4 y cant o'r cyfranogwyr o'r grwpiau hyn⁷. Hefyd, llai nag un ym mhob 20 o'r bobl sy'n mynd i sioeau cerdd, dramâu a phantomeimau a oedd o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gyda chyfran uwch wedi'u cynrychioli ymhlith y rhai sy'n mynd i ddigwyddiadau llenyddol a cherddoriaeth werin, draddodiadol neu'r byd (lle'r oedd un ym mhob deg o'r mynychwyr o'r grwpiau hyn). Mae Arolwg Taking Part yn cynnig trosolwg o dueddiadau tymor hwy yn Lloegr ac yn dangos bod unigolion o blith grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu tangynrychioli yng nghynulleidfaoedd y celfyddydau (Cyngor Celfyddydau Lloegr, 2015b) ond nid yw'r data yn ddigonol i archwilio'r gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig a allai fod yn cuddio amrywiadau mewn lefelau ymgyfylltu ar draws grwpiau gwahanol.

3.21 Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu bod pobl sydd ag anableddau wedi'u tangynrychioli yng nghynulleidfaoedd y Celfyddydau yng Nghymru. 50 y cant yn unig o'r rhai sy'n ystyried bod ganddynt anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor a fu i o leiaf un digwyddiad celfyddydol 2 neu 3 gwaith y flwyddyn neu ragor yn y flwyddyn flaenorol o gymharu ag 80 y cant o'r rhai sydd heb anabledd neu salwch cyfyngus hirdymor. Nodwyd y nodwedd hon o dangynrychioli yn 2011, mewn adroddiad ar sector y celfyddydau a diwylliant mewn perthynas â chyfranogi, a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddaeth i'r casgliad bod lle sylweddol i wella o ran sicrhau bod lleoliadau a pherfformiadau celfyddydol a diwylliannol yn fwy hygyrch, yn arbennig felly i bobl sydd ag anawsterau clywed (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011).

6

Yn cynnwys theatr plant ac ieuentid, pantomeim a ffilmiau i deuluoedd

7

Sicrhawyd sampl gadarn o aelodau'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dwyrain Ewrop drwy gyfweiliadau 'hwb' ychwanegol a gynhaliwyd gyda'r grŵp hwn.

- 3.22 Mewn ymateb i hyn, sefydlwyd nifer o gynlluniau yng Nghymru sydd â'r nod o annog cyfranogiad ymhlith pobl sydd ag anableddau e.e. Hynt (fel a drafodir yn nes ymlaen). Y mae'n werth nodi nad yw'r achos hwn o dangynrychioli yn unigryw i Gymru. Mae gan bobl sydd ag anabledd yn Awstralia hefyd lefelau llawer is o bresenoldeb yn y celfyddydau, gyda 59 y cant yn unig yn mynd i o leiaf un digwyddiad celfyddydol, o gymharu â 74 y cant o bobl heb anabledd (Australia Council for the Arts, 2014).
- 3.23 Nid oedd modd dod i hyd i unrhyw ddata i gymharu cyfranogiad celfyddydau rhwng ardaloedd gwledig a threfol yng Nghymru. Yn Lloegr, mae data diweddar yn awgrymu bod gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ar draws grwpiau demograffig-gymdeithasol, gyfraddau uwch o ymgysylltu'n rheolaidd â'r celfyddydau na rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol (Cyngor Celfyddydau Lloegr, 2015a). Er hyn, yn ôl erthygl fer yn Arts Professional a edrych ar ddata gan Audience Finder (sy'n cwmpasu'r Deyrnas Unedig), o blith y rhai sy'n mynychu'r celfyddydau, prin yw'r gwahaniaeth rhwng archebwyr o ardaloedd gwledig a rhai o ardaloedd trefol o ran yr amllder presenoldeb, ac eto roedd archebwyr gwledig yn fwy tebygol o fod yn deyrngar i un ganolfan yn hytrach na mynd i amryw leoliadau (Sharrock, Palmer, Murphy, a Trinder, n.d.). Credir bod hyn yn seiliedig ar ba mor agos yw'r canolfannau ac i ba raddau y mae dewis a chyffleodedd ar gael mewn ardaloedd gwledig.

Y duedd i fynychu ymhlith gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol

- 3.24 Ar sail arolwg Taking Part, mae dadansoddiad DCMS ar gyfer Lloegr yn rhoi syniad i ba raddau y mae gwahanol grwpiau yn ymweld ag orielau neu amgueddfeydd (Buraimo, Jones, a Millward, 2011). Mae'r astudiaeth hon, i gychwyn, yn ystyried newidyn deuaidd presenoldeb / dim presenoldeb ac wedyn amllder presenoldeb. Gan ddefnyddio dadansoddiad atchwel, gall yr awduron gynnig dealltwriaeth o'r duedd i fynychu. Rhinwedd defnyddio dadansoddiad atchwel yw ei fod yn bwrw ymaith effeithiau newidynnau eraill ac yn edrych yn benodol ar effaith pob newidyn er mwyn ei dadansoddi. Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r canlyniadau, gan bwysleisio'n benodol y rhai hynny sy'n ystadegol arwyddocaol, a thynnwn sylw hefyd at rai canlyniadau, er syndod, nad ydynt yn ystadegol arwyddocaol. Nid yw'n bosibl dweud p'un a fyddai'r canlyniadau hyn yn wir yng Nghymru hefyd, ond y mae'n fwy na thebygol y byddent am fod rhai o'r canlyniadau mor drawiadol fel eu bod i'w gweld yn yr ystadegau disgrifiadol ar gyfer Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru (42 y cant yn unig oedd heb fod yn bresennol yn y celfyddydau ymysg Dosbarth Cymdeithasol AB, o gymharu â 68 y cant ymysg DE a 41 y cant o'r rhai ag addysg gradd, o gymharu â 76 y cant o'r rhai heb gymwysterau).
- 3.25 Mae rhai o'r canlyniadau i'w disgwyl, gyda gwahaniaethau sylweddol yn achos addysg, grŵp economaidd-gymdeithasol ac oedran cynnar o ran y rhai sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau, ond mae'n syndod nad oes gwahaniaethau sylweddol ar sail incwm. Mae arolygon y celfyddydau yn aml yn dangos bod dynion yn y lleiafrif, ond mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu nad yw'r canlyniadau yn ystadegol arwyddocaol, er bod amllder mynychu yn ystadegol arwyddocaol iawn. Roedd addysg uwch yn ystadegol arwyddocaol: roedd unigolion â gradd 31 y cant yn fwy tebygol o fynychu na rhai â phum TGAU a rhai â rhywfaint o addysg uwch 16 y cant yn fwy tebygol. Roedd yn syndod nad oedd incwm yn ystadegol arwyddocaol o gwbl, fel newidynnau sgalâr, ac nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng degraddau incwm y mynegai amddifadedd.

Tabl 3.2 Tuedd mynychu ymysg gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol

Categori Economaidd-Gymdeithasol	Presenoldeb (effaith ymylol)	Amllder (Cyfernod)
Benyw	0.0399	0.1318***
Llai na phum TGAU	-0.0540	-0.0396
Safon Uwch	0.0745	-0.0711
Prentisiaethau crefft	0.0132	-0.0223
Addysg uwch arall is na gradd	0.1581***	-0.1453*
Addysg uwch	0.3126***	-0.3175***
Cymwysterau eraill anhysbys	-0.2022**	0.1180
Log naturiol incwm	0.0301	0.0185
Cyflogwr	-0.0299	0.0510
Rheoli is	-0.0709	0.1673**
Galwedigaethau canolradd	-0.1142	-0.0086
Cyflogwyr bach a gweithwyr cyfrif eu hunain	-0.1824**	0.2039**
Goruchwylwyr is	-0.2197***	0.1933*
Lled-reolaidd	-0.3550***	0.0134
Rheolaidd	-0.4374**	0.0631
Heb weithio erioed neu ddi-waith hirdymor	-0.1805	-0.1101
Di-waith hirdymor	0.0133	0.0078
Rhan amser	0.1958***	0.1385
Asiaidd	-0.3874***	0.3721***
Du	-0.3880***	0.1519
Wrth dyfu i fyny: Darllen llyfrau er pleser	0.1349***	-0.0477
Wrth dyfu i fyny: Mynd i amgueddfeydd neu orielau	0.2154***	-0.1940***
Wrth dyfu i fyny: Ysgrifennu storïau neu gerddi	0.1261***	-0.1154**
Wrth dyfu i fyny: Mynd i safleoedd hanesyddol	0.2590***	-0.0408

* P<.1; ** P<0.05; *** p<0.01; Ffynhonnell: ERS Ltd gan ddefnyddio data o Arolwg Taking Part

3.26

Defnyddiwyd cyflogaeth yn brocsi am ddosbarth cymdeithasol a gwelwyd bod y rhai mewn swyddi rheolaidd 43 y cant yn llai tebygol o fynychu na rhai mewn swyddi rheoli uwch, ac roedd rhai mewn swyddi lled-reolaidd 36 y cant yn llai tebygol. Ond y mae'r amser hamdden sydd ar gael yn ffactor, gydag effeithiau ymylol cadarnhaol i grwpiau sydd â mwy o amser (di-waith hirdymor, gofalu am y cartref/teulu), yn arbennig yn achos gweithwyr rhan amser a oedd 22 y cant yn fwy tebygol o fynychu. Mae'r gyfres olaf o newidynnau yn ymwneud ag ymgysyllti â'r celfyddydau mewn plentyndod, o ran presenoldeb a chyfranogiad, ac roedd y cyfan yn ystadegol arwyddocaol, ond gydag effeithiau cryfach yn achos ymweld ag amgueddfeydd (22 y cant yn fwy tebygol) neu safleoedd hanesyddol (26 y cant yn fwy tebygol).

- 3.27 Noda'r awduron mai disgrifio'r duedd i fynychu'n unig a wna'r canlyniadau, ac nid ydynt yn esbonio'r ymddygiad a pham y caiff dewisiadau eu gwneud. Ond cynigir rhai esboniadau yn ymwneud ag i) amser hamdden sydd ar gael fel sydd i'w weld mewn patrymau presenoldeb yn y gweithlu; ii) llythrennedd diwylliannol yn deillio o addysg; iii) amlygiad cynnar i'r celfyddydau yn arwain at ymgysylltu yn nes ymlaen. Mae tystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn archwilio un o'r rhagdybiaethau hyn gan edrych ar y syniad bod premiwm ar amser i ddosbarthiadau cymdeithasol AB, gyda 43 y cant yn nodi mai 'anodd yw dod o hyd i'r amser', o gymharu â 30 y cant yn unig o'r rhai DE. I gychwyn, mae'n ymddangos bod hyn yn drysu'r dystiolaeth, lle mae dosbarthiadau AB yn fwy tebygol o fynychu, ond y mae'n amlwg bod ganddynt ffactorau gwrthio a thynnu sy'n cydweithio wrth esbonio presenoldeb.
- 3.28 Mae'r ddamcaniaeth am lythrennedd diwylliannol yn dal dŵr, gydag 11 y cant yn unig o rai AB yn awgrymu bod diffyg presenoldeb o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r celfyddydau ar eu cyfer hwy, o gymharu ag 19 y cant o rai DE. Er bod y dadansoddiad atchwel yn dangos i'r gwrthwyneb, mae data Cyngor Celfyddydau Cymru yn awgrymu bod incwm yn ffactor, gydag 18 y cant o'r rhai AB nad ydynt yn mynychu yn nodi ei fod yn costio gormod, o gymharu â 29 y cant o'r rhai DE. Wedi'i rhoi gan yr ymatebwyr eu hunain y mae'r holl dystiolaeth hon gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y paragraff olaf, ac felly nid yw'n bosibl cael dealltwriaeth glir o'r ysgogiad am roi ymatebion o'r fath. Mae angen tystiolaeth bellach er mwyn deall sut mae'r farn a roddir yn dylanwadu ar y gwir ymddygiad.

Tystiolaeth o rwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau

Mynediad Ffisegol, Teithio a Natur Wledig

- 3.29 Yn ôl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyfranogiad yn y Celfyddydau (Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2013) ac adolygiad cynharach o hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru (Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011), mae ble mae'r unigolyn yn byw a'i fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn ffactorau allweddol yn y gallu i gael mynediad at brofiadau diwylliannol. Nodwyd bod natur wledig a thrafnidiaeth, yn arbennig i ganolfannau, yn rhwystrau mawr i ymgysylltu â'r celfyddydau, yn gysylltiedig â chau sefydliadau celfyddydol lleol, costau cynyddol tanwydd, lleihad mewn trafnidiaeth gyhoeddus leol a'r ffaith ei bod yn gyfyngedig gyda'r nos. Nodwyd bod y rhwystrau hyn yn arbennig o gyffredin i bobl hŷn, pobl ifanc a phobl sydd ag anabledd dysgu na allant deithio ar fws, na allant fforddio mynd i ganolfannau prif ffrwd neu sy'n pryderu ynglŷn â theithio wedi iddi dywyllu. Awgrymwyd hefyd bod gostyngiadau i gyllidebau hefyd yn arwain at drefnwyr digwyddiadau yn gwneud toriadau i hygyrchedd.
- 3.30 Mae'r arferion da a nodwyd yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas â gwaredu'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth a thrafnidiaeth yn cynnwys:
- cynlluniau cymhorthdal cyfyngedig,
 - defnyddio technoleg ddigidol,
 - rhannu arddangosfeydd,
 - ymgysylltu â gweithgareddau sy'n seiliedig yn y gymuned,
 - ymgysylltu â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus wrth gynllunio digwyddiadau.

3.31 Yn 2014, nodwyd bod canfod atebion i rwystrau o ran trafndiaeth i safleoedd a digwyddiadau diwylliannol yn argymhelliad i ehangu mynediad a gwaredu allgáu cymdeithasol yn adroddiad y Farwnes Kay Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi (Andrews, 2014). Pwysleisiodd yr adroddiad y gall natur wledig Cymru olygu bod cael mynediad i leoliadau bron yn amhosib heb gar a hefyd yn ddrud iawn. Cafodd ei argymhell bod grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu ac y caiff blaenoriaeth ei rhoi i ganfod ateb er mwyn atal profiadau diwylliannol rhag parhau i fod yn fraint.

Canfyddiadau

3.32 Mae canfyddiadau o'r celfyddydau a chynulleidfaoedd nodweddiadol y celfyddydau hefyd yn amlwg yn chwarae rôl mewn lefelau o ddefnydd a chyfranogiad. Yn ôl gwaith ymchwil gan Gyngor Celfyddydau Cymru ynghyd â thystiolaeth anecdotiaidd gan ganolfannau, mae canfyddiadau nad yw'r celfyddydau 'ar ein cyfer ni' neu 'o ddi-ddordeb nac yn berthnasol' yn fwy o rwystr i hygyrchedd na chostau neu ddaearyddiaeth (Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011). Cafodd ei gydnabod bod hyn yn gyffredin yn benodol ymysg ardaloedd mwy difreintiedig Cymru fel cymoedd de Cymru. Gan ategu hyn, gwelwyd mewn arolwg rhyngwladol o weithwyr proffesiynol y celfyddydau bod 51 y cant o'r ymatebwyr (y gyfran uchaf) yn nodi bod 'canfyddiadau bod eich sefydliad yn berthnasol i'ch cynulleidfa sefydledig yn unig' yn un o gyfres o rwystrau i gael gwell amrywiaeth (Richens, d.d.).

3.33 Cafodd rwystrau seicolegol i ymweld â sefydliadau celfyddydol hefyd eu nodi mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwylliant a Thlodi a gyfeiriai at 'ofn yr anwybod' fel un rwystr o'r fath (Andrews, 2014). Roedd yr argymhellion a wnaed gan yr adroddiad mewn perthynas â hyn yn canolbwyntio ar wneud sefydliadau yn fwy addas i blant a deniadol i deuluoedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod y gall yr eirfa a ddefnyddir i ddisgrifio gwahanol ffurfiau diwylliannol neu gelfyddydol atgyfnerthu canfyddiadau a pheri i unigolion beidio â bod eisiau ymgysylltu gan deimlo nad yw ar eu cyfer hwy (Andrews, 2014). Mae'n debygol bod canfyddiad pobl o eiriau fel celfyddyd 'aruchel' neu 'gain' am fod yn wahanol iawn i 'grefftau' neu gelfyddydau 'cymunedol' neu 'lawr gwlad', ac, mewn rhaglen ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, disgrifiodd rhai o'r cyhoedd deimlad o allgáu yn sgil defnydd rheolaidd o'r gair 'gosodiad' ('installation') (Consilium Research and Consultancy, 2016).

3.34 Yn ôl amryw waith ymchwil ehangach, barnwyd bod gofodau celfyddydol a diwylliannol yn aml yn gysylltiedig â disgwyliadau cymdeithasol, ymddygiad a rheolau anysgrifenedig penodol a all ddychryn rhai unigolion a'u hatal rhag mynychu digwyddiadau celfyddydol. Er enghraifft, mae adroddiad Diwylliant a Thlodi yn nodi sut gall sefydliadau deimlo'n "*waharddedig ac yn codi ofn*" (Andrews, 2014). Awgrymwyd bod teimlo'n gyfforddus mewn lleoliadau o'r fath yn aml yn gysylltiedig â set o sgiliau sydd wedi'u dysgu (Morton et al 2004, *a ddyfynnwyd* yn Consilium Research and Consultancy 2016).

3.35 Yn ôl arolwg yn yr Unol Daleithiau, i ychydig dros un ym mhob pump o'r rhai a oedd eisiau mynd i ddigwyddiad celfyddydol ond a benderfynodd beidio, rwystr i fynd oedd peidio â chael rhywun yn gwmni (National Endowment for the Arts, 2015). Gwelwyd bod hyn yn rwystr i bobl ifanc yn Lloegr hefyd, ac i'r rhain roedd mynd gyda ffrindiau ac eistedd gyda'i gilydd yn bwysig wrth fynd i'r theatr (Sam Culture Ltd, 2012).

3.36 Mewn ymateb i alwad am dystiolaeth yn 2010, gwnaed amryw awgrymiadau i oresgyn 'rhwystr canfyddiad' a chefnogi newid diwylliannol mewn canfyddiadau o'r celfyddydau (Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011). Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyftwyno'r celfyddydau a phrofiadau diwylliannol fel pethau 'cŵl', 'gweithgareddau teuluol', ac yn gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hunanhyder;
- mynd i'r afael â sylw'r cyfryngau i'r celfyddydau, gan herio'n benodol y canfyddiad mai rhywbeth i'r 'elit dethol' ydyw;
- mentrau wedi'u targedu i gynyddu amrywiaeth sefydliadau a'u gwaith;
- hyfforddiant staff, yn benodol i gynorthwyo i ddatblygu marchnata a chyfathrebu sy'n gynhwysol a chroesawgar i holl aelodau'r cymunedau.

Rhwystrau Ariannol

3.37 Bu i ymgylgoreion Grŵp Gorchwyl a Gorffen bwysleisio bod costau gweithgareddau yn rhwystrau i gyfranogi a themlent fod y rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig hefyd yn debygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan ostyngiadau cyllideb yn sgil eu tebygrwydd uwch o fod yn ddibynnol ar ddarpariaeth â chymhorthdal (Beaufort Research, 2016). Mynegodd lleoliadau celfyddydol a diwylliannol y gred bod incwm gwario rhywun yn ffactor sylweddol wrth bennu eu gallu i gael mynediad i weithgareddau celfyddydol a diwylliannol, gan gyfeirio nid yn unig at brisiau tocynnau ond hefyd costau cysylltiedig trafndiaeth, cynhaliaeth a gofal plant (Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2011).

Goresgyn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau drwy dechnoleg ddigidol

⁷¹

<http://artsdigitalrnd.org.uk/projects/>

3.38 Gan arwain y ffordd wrth oresgyn rhwystrau i'r celfyddydau, bu i'r Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol i'r Celfyddydau ym Mhrydain ariannu rhyw 69 o brosiectau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Mae manylion yr holl brosiectau ar gael ar-lein.⁷¹

Yng Nghymru

3.39 Nodwyd bod i dechnoleg ddigidol a symudol hefyd y potensial i amrywio cynulleidfaoedd drwy ymgysylltu â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Chwaraeodd Nesta rôl allweddol wrth gynorthwyo nifer o brosiectau ledled y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, yng Nghymru, bu i'r Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol i'r Celfyddydau, roi cymorth i UCAN, sef cydweithfwr celfyddydau perfformio a chreadigol, i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i ymgysylltu i bobl â nam ar eu golwg. Datblygodd y prosiect ap meddalwedd symudol, "UCAN GO", i ddarparu map llafar (ac felly meddyliol) o ganolfannau celfyddydol peilot i helpu i lywio eu gofodau cyhoeddus cymhleth yn annibynnol.

⁸
Technoleg adborth cyffyrddiadol sy'n seiliedig ar synnwyr cyffwrdd sy'n creu grymoedd, dirgryniadau a symudiadau i'r defnyddiwr eu synhwyro.

Yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol

- 3.40** Yn yr un modd, mae'r Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol yn Lloegr wedi ariannu nifer o brosiectau sydd â'r nod o gynyddu ymgysylltiad ymhlith cynulleidfaoedd a pherfformwyr dall neu rannol ddall. Mae prosiect Extant yn defnyddio technolegau digidol ar ffurf dyfeisiau llaw cyffyrddiadol⁸ i alluogi pobl i ryngweithio'n gorfforol â'r theatr a chreu profiadau i'w rhannu. Dechreuodd y prosiect drwy ddarparu dehongliad o'r llyfr "Flatland" drwy berfformiadau synhwyraidd yn seiliedig ar gyffyrddiad ac ychydig iawn, os o gwbl, o ysgogiadau gweledol.
- 3.41** Bu i'r Gronfa Ymchwil a Datblygu i'r Celfyddydau, Nesta, yn Lloegr hefyd gynorthwyo nifer o brosiectau a oedd â'r nod o alluogi cynulleidfaoedd newydd ac anhraddodiadol ymgysylltu'n ddigymell â'r sector celfyddydol a diwylliannol. Bu i'r Gronfa gynorthwyo Sing London i gyflawni prosiect "Talking Statues" sy'n caniatáu i bobl ryngweithio â cherfluniau dethol yng Llundain a Manceinion drwy ddefnyddio technoleg Cyfathrebu Maes Agos (NFC) sy'n cysylltu â ffonau clyfar. Y syniad oedd bywiogi gofodau cyhoeddus er mwyn ehangu ymgysylltiad.
- 3.42** Enghraifft arall yw Cinegi Arts&Film sy'n galluogi unrhyw leoliad (e.e. neuadd eglwys, tafarn neu glwb) i fod yn "sinema". Gyda chyllid gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a chymorth y British Film Institute, mae platfform Cinegi yn galluogi lleoliadau o'r fath i gynnal dangosiadau cyhoeddus o recordiadau dethol o theatr, opera, bale a cherddoriaeth, gan gynnwys gwaith y National Theatre a Shakespeare's Globe, ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n talu. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae technoleg ddigidol yn cynnig cyfleoedd y tu hwnt i'r byd ar-lein i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a gwella mynediad i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.
- 3.43** Er bod technoleg ddigidol wedi'i nodi'n ehangach fel ffordd i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd drwy sicrhau bod cynnwys celfyddydol a diwylliannol ar gael fel profiad digidol, prin yw'r dystiolaeth i ddangos ei llwyddiant o ran amrywio cynulleidfaoedd. Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr hefyd yn cydnabod bod canfyddiad nad oes gan brofiadau ar-lein elfen gymdeithasol iddynt, ac nad ydyntystal â gweld neu glywed profiad byw (MTM London, 2010). O ganlyniad, parodrwydd isel sydd i dalu am gael profiadau celfyddydol ar-lein (ar wahân i gerddoriaeth) a phrin yw'r enghreifftiau llwyddiannus o bobl yn talu am brofiadau o'r fath hyd yma. Yn ogystal, awgrymwyd mai cyfyngedig yw potensial dulliau o'r fath i amrywio cynulleidfaoedd mewn perfformiadau byw, yn sgil canfyddiadau bod y bobl sy'n ymgysylltu â chynnwys celfyddydol ar-lein eisoes yn dueddol o fwynhau ac ymgysylltu â'r celfyddydau drwy ddigwyddiadau byw.
- 3.44** Mae'r Arolwg Diwylliant Digidol yn darparu data gwerthfawr ar ddefnydd strategol a gweithrediadol y sector yn Lloegr o ddigidol o bron i 1,000 o sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn Lloegr rhwng 2013 a 2015 (Nesta, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a Chyngor Celfyddydau Lloegr, 2015). Yn ôl canlyniadau'r arolwg diweddaraf, er bod 72 y cant ohonynt yn nodi bod technoleg ddigidol yn cael effaith gadarnhaol fawr ar eu gallu i gyflawni eu cenhadaeth, ceir tystiolaeth bod cyflymder y newid wedi arafu: mae nifer o'r gweithgareddau bellach yn llai cyffredin a disgynnodd lefel yr effaith mewn ardaloedd penodol. Mae hyn yn cynnwys y gyfran sydd o'r farn bod digidol wedi cael effaith gadarnhaol fawr ar ymgysylltu â'u cynulleidfa. O ddadansoddi ymatebion ansoddol, mae'r adroddiad yn cynnig nifer o resymau sy'n esbonio'r canlyniadau. Nodir bod diffyg cyllid i ddigidol yn rhwystr i ddyheadau sefydliadol, ac felly hefyd diffyg arweinyddiaeth oddi mewn i sefydliadau. Y mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bod rhai sefydliadau, o fod wedi rhoi cynnig ar weithgareddau fel cyllido torfol a ffrydio byw, wedi penderfynu peidio â pharhau ar sail enillion cyfyngedig o gymharu â'r costau.

- 3.45** Er hyn, mae'r arolwg yn dangos bod bron i dri chwarter (72 y cant) y sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn Lloegr bellach yn ystyried bod digidol yn bwysig i farchnata. Mae digidol yn cynnig cyfleoedd i alluogi pobl (a chynulleidfaoedd newydd o bosib) ddarganfod beth sydd ymlaen, rhannu cynnwys gydag eraill a chynllunio mynd yno a chyfranogi ar-lein. Caiff hyn ei gydnabod yn fframwaith Cyngor Celfyddydau Lloegr o fanteision ymgysylltu ar-lein (MTM London, 2010).
- 3.46** Mewn adroddiad gan Eurobarometer a gyhoeddwyd yn 2013, dadansoddwyd amrywiaeth o ddefnyddiau uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r we at ddibenion celfyddydol a diwylliannol ledled Ewrop, ac awgrymwyd bod gan y we y potensial i drawsnewid y byd diwylliannol (TNS Opinion & Social ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, 2013). Mae marchnata digidol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd na fyddid o bosib yn eu cyrraedd fel arall, a chaiff ei gydnabod bod y cyfryngau cymdeithasol, Facebook yn benodol, bellach yn offeryn pwysig i bobl ddod o hyd i wybodaeth am y celfyddydau a diwylliant (MTM London, 2010). Mewn arolwg yn 2015 o sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn Lloegr, nododd 90 y cant bod digidol yn bwysig i farchnata (Nesta et al., 2015). Mae rhannu cynnwys rhwng ffrindiau yn ogystal â chan rai y tu allan i gylchoedd cymdeithasol uniongyrchol yn cynnig cyfleoedd i gynulleidfaoedd mawr, a newydd o bosib, ymgysylltu â chynnwys celfyddydol a marchnata digwyddiadau. Mae partneriaethau marchnata gyda brandiau a gwefannau y tu allan i sector y celfyddydau hefyd yn cynnig cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd na fyddai fel arall, o bosib, yn ymwneud â'r celfyddydau.

Goresgyn rhwystrau i ymgysylltu â'r celfyddydau drwy ddulliau eraill

Modelau Talu Amgen

- 3.47** Mae i nifer o brosiectau a chynlluniau y nod o brofi a goresgyn (i ryw raddau) y dybiaeth bod pris yn rhwystr go iawn i gyfranogi. Bu rhai'n targedu grwpiau penodol e.e. pobl ag anableddau neu bobl ifanc, a bu eraill yn gweithredu ar lefel ehangach. Cynllun cenedlaethol yng Nghymru yw/oedd Hynt a ddechreuodd yn 2014 i fynd ati'n benodol i dargedu pobl sydd arnynt angen cefnogaeth cynorthwydd neu ofalydd i fynd i'r theatr. Mae'r cynllun yn cynnig ail docyn am ddim i gynorthwydd personol neu ofalydd i'r rhai sy'n gymwys (wedi'u hasesu ar gyfradd Lwfans Byw i'r Anabl) ac sydd â cherdyn Hynt, mewn canolfannau ledled Cymru sy'n rhan o'r cynllun. Erbyn 2016, roedd 39 o theatrau a chanolfannau celfyddydol yn rhan o'r cynllun, ac roedd cardiau wedi'u rhoi i ragor na 7,000 o bobl (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2016). Nod y cynllun oedd adeiladu ar gynlluniau mynediad blaenorol a ddatblygwyd gan theatrau a chanolfannau celfyddydol unigol drwy gynnig mwy o gysondeb ac un system ganolog, syml, unigol, gan waredu'r ansicrwydd â'r cymhlethdod sydd mewn amrywiaeth ehangach o gynlluniau llai o faint a llai cydlynol. Yn ôl data a gasglwyd o ganolfannau dethol, defnyddiwyd eu cerdyn gan o leiaf draean o'r rhai sydd â cherdyn dros gyfnod o 18 mis. Mae'r data'n dangos i'r rhai sydd â cherdyn fynychu digwyddiadau celfyddydol ac adloniant yn amlach na chynulleidfaoedd yn gyffredinol, er i 54 y cant fynd i un digwyddiad yn unig yn ystod y 18 mis.

3.48 Rhwng 2009 a 2011, bu 200 o theatrau, canolfannau'r celfyddydau a neuaddau pentref yn Lloegr yn cymryd rhan mewn cynllun i weld a oes modd cynyddu presenoldeb ymysg rhai dan 26 oed pe câi pris tocyn ei waredu. Drwy'r cynllun cenedlaethol, *A Night Less Ordinary*, amcangyfrifir i 80,000 o blant a phobl ifanc ymweld â theatrau a oedd yn rhan o'r cynllun bum gwaith ar gyfartaledd, sef cyfanswm o 400,000 o weithiau (Sam Culture Ltd, 2012). Oddi mewn i'r cyfansymiau hyn, roedd 8.9 y cant o'r bobl ifanc a gymerodd ran erioed wedi bod i'r theatr o'r blaen, ac meddai 36.6 y cant o rai a ymatebodd i arolwg naill ai eu bod yn annhebygol y byddent wedi mynd i'r theatr, neu'n sicr na fyddent wedi mynd, oni bai bod y tocynnau am ddim. Er i'r bobl ifanc a holwyd ddweud mai'r gost oedd y rheswm mwyaf sylweddol nad oeddynt yn mynd i'r theatr, roedd nifer o ffactorau eraill yn dal i fodoli ar gyfer y grŵp oedran hwn, fel a drafodir yn yr adroddiad gwerthuso. Gwers bwysig a ddysgwyd oedd nad yw pobl ifanc o anghenraid yn gweld gwerth yn y ffaith bod mynediad am ddim, a bod pa mor atyniadol yw'r cynnig hefyd yn allweddol bwysig. Canfyddiad o bwys yw mai rhan o'r rheswm pam fod cost tocyn yn rhwystr yw'r risg o wario arian ar rywbeth nad ydynt yn gwybod beth ydyw. Fel hyn, gwelwyd bod tocynnau am bris isel neu am ddim yn llwyddiannus wrth annog pobl i fynd yn amlach neu roi cynnig ar ffurfiau celf newydd neu leoliad newydd.

9

www.artspromotional.co.uk/magazine/286/article/risks-worth-taking

3.49 Fel rhan o'i menter ei hun, cyflwynodd ARC Stockton fodel prisio "Talu'r Hyn a Ddewiswch" am gyfnod prawf o chwe mis ar draws eu rhaglen gyfan o theatr, dawnys a'r gair llafar. Roedd y model yn galluogi cwsmeriaid i archebu tocyn heb wneud unrhyw daliad a phenderfynu wedyn ar swm i'w dalu ar sail yr hyn y teimlent oedd gwerth y sioe, ar ôl y perfformiad. Y nod oedd gwaredu'r risg i'r cwsmer o dalu am rywbeth na fyddai, o bosibl, yn ei fwynhau. Canfyddiad ARC o fodel "Talu'r hyn a ddewiswch" oedd mai dyma'r ffordd unigol fwyaf effeithiol o gynyddu cynulleidfa oedd i waith newydd, wrth i gynulleidfaoedd gynyddu 34.5 y cant, cynnydd incwm o 52 y cant, cynnydd cyfartaledd enillion tocynnau o 32 y cant a chynnydd cynulleidfaoedd sy'n newydd i ARC o 31.25 y cant (ARC, 2016). Yn sgil hyn, estynnwyd y cynllun y tu hwnt i'r cyfnod prawf cychwynnol o 6 mis. Fel rhan o gynllun tebyg, treialodd West Yorkshire Playhouse gynllun "Talu'r Hyn a Fedrwch" am berfformiad rhagflas, gan ofyn i gynulleidfaoedd dalu ba bynnag bris yr oeddynt yn barod i'w dalu cyn mynychu'r sioe. Yn ôl adolygiad o'r cynllun bu'n arbrawf llwyddiannus, a chalonogol oedd y ffaith i 100 y cant o'r gynulleidfa ddweud y byddent yn dychwelyd i weld sioe arall. Ceir manylion pellach ar-lein⁹.

Mynd â Chymunedau at y Celfyddydau a'r Celfyddydau at Gymunedau

3.50 Yn adroddiad Kay Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi (Andrews, 2014), rhoddir sawl enghraifft o fodelau sydd ar y gweill i fynd i'r afael â rhwystrau hygyrchedd yn ymwneud â thrafnidiaeth a chynorthwyo cymunedau i gyrraedd canolfannau a digwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cyllid grant a gynigir i ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau eraill er mwyn mynd i ganolfannau.

- 3.51** Enghraifft arall yw RawFfest, gŵyl gelfyddydol newydd i ieuencid yng Nghymru a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fel rhan o'r cynllun hwn, cynigwyd rhaglen breswyl i bobl ifanc, wedi'i chyllido'n rhannol gan grant, ond wedi'i chynorthwyo hefyd gan nawdd gan fusnesau ac ymgyrch cyllido torfol. Roedd hyn yn galluogi'r ŵyl i dalu costau trafndiaeth, llety a thocynnau i grwpiau o bobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn galluogi pobl ifanc ddod i'r digwyddiad na fyddent fel arall yn gallu fforddio gwneud. Er mai cyfyngedig i ryw raddau fu llwyddiant yr ymgyrch cyllido torfol gyntaf (ni chyrrhaeddwyd y targed gwreiddiol am amryw resymau), y mae hyn yn ddull gwahanol o ganfod cyllid y gellid ei archwilio ymhellach. Y mae hefyd yn dangos sut y cafodd grwpiau penodol eu targedu a'u cynorthwyo i gael mynediad i'r celfyddydau, gan oresgyn rhwystrau trafndiaeth ac ariannol.
- 3.52** Dull arall yw mynd â'r celfyddydau yn uniongyrchol at y cymunedau eu hunain. Gan ddefnyddio gofodau anhraddodiadol (e.e. siopau, tafarndai, clybiau cymdeithasol a busnesau). A gall mynd â pherfformiadau i ofodau cyhoeddus sy'n 'gelfyddydol niwtral' waredu rhwystrau ar sail teithio, arian a'r amgylchedd anghyfarwydd sy'n gysylltiedig â chanolfannau celfyddydol nodweddiadol. Gall defnyddio siopau gwag fel amgueddfeydd dros dro, neu ofodau artistiaid, hefyd wella morâl busnes neu gymuned, ac mae'r Rhwydwaith Siopau Gwag yn cyftwyno achos cryf o blaid ymriadau celfyddydol mewn gofodau o'r fath (Andrews, 2014). Yn ychwanegol, mae targedu allgymorth mewn lleoliadau y mae pobl yn ymweld â nhw yn eu bywyd bob dydd (e.e. canolfan waith, llyfrgell, meddygfa deulu) hefyd yn mynd â chelf at amrywiaeth eang o bobl na chawsant, o bosib, gyswllt blaenorol â'r celfyddydau. Gall creu cyfleoedd galw heibio a sesiynau 'blasu' hefyd alluogi lefel hyblyg o ymgysylltiad heb yr angen am unrhyw ymrwymiad, gan liniaru rhai o'r ofnau sy'n gysylltiedig â ffurfiau celf mwy traddodiadol.
- 3.53** Mae gwerthusiadau rhaglenni a gwblhawyd yn ddiweddar gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, fel Strategic Touring Programme (Annabel Jackson Associates, 2015) a Creative People and Places (CPP) (Robinson, 2016) yn cynnig amrywiaeth o enghreifftiau arloesol o sut gall gofodau a fformatau anghonfensiynol gael eu defnyddio i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd yn y celfyddydau. Bydd gwerthusiad o raglen Creu Cymunedau Cyfoes Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd ar y gweill, hefyd yn cynnig dealltwriaeth bellach. Mewn adolygiad o raglen CPP yn 2016, gall gweithio lle mae pobl eisoes yn ymgasglu weithio'n dda, ac roedd y prosiectau'n cynnwys perfformiadau cyhoeddus, gosodiadau digidol, cyngherddau am ddim a theithiau tywys (Robinson, 2016). Yn ôl yr adolygiad, roedd y ffaith bod y lleoliadau yn lleol a chyfarwydd yn gwneud mwy o wahaniaeth na chynnal y digwyddiadau am ddim neu wedi'u talu amdanynt. Roedd y gwersi allweddol eraill a ddysgwyd yn cynnwys mabwysiadu deunyddiau ac iaith i dargedu cynulleidfaoedd priodol (dwedir bod iaith ragoriaeth yn anefnyddiol) a chynnwys cymunedau mewn penderfyniadau er mwyn gwella canfyddiadau o berthnasedd a chyswllt lleol.
- 3.54** Er hyn, mae'r defnydd o leoliadau anghonfensiynol a gofodau cymunedol hefyd yn arwain at nifer o heriau. Yn ôl gwerthusiad o'r Strategic Touring Programme, roedd lleoliadau o'r fath, gan gynnwys gofodau awyr agored, yn codi heriau ychwanegol o ran iechyd a diogelwch, trefniadau technegol, llinellau golwg, acwsteg a chael caniatâd i ddigwyddiadau, a hynny'n ddigynsail (Annabel Jackson Associates, 2015).

Ymgysylltu drwy Gydweithio â Busnesau

Yng Nghymru

3.55 Yn ychwanegol at fynd ati'n rhagweithiol i fynd â chelf i gymunedau, mae cydweithio rhwng gweithwyr celf proffesiynol a busnesau hefyd wedi ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd na fyddai, efallai, wedi dod ar draws y celfyddydau, neu wedi dewis ymwneud â'r celfyddydau eu hunain. Yng Nghymru, rôl benodol Celfyddydau a Busnes Cymru yw hwyluso'r math hwn o bartneriaeth, ac mae partneriaethau rhwng artistiaid a busnesau hefyd wedi'u cefnogi gan raglen Creu Cymunedau Cyfoes Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n annog cydweithio ar draws sectorau gan ganolbwyntio ar adfywio wedi'i arwain gan y celfyddydau. Comisiynwyd gwerthusiad o raglen Creu Cymunedau Cyfoes ym mis Mawrth 2016 a chaiff yr adroddiad ei gyhoeddi tuag adeg llunio'r adroddiad hwn. Nodir na chynhyrchwyd llawer o dystiolaeth hyd yma, er i sesiwn cwestiwn ac ateb ddiweddar rhwng Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a Chyngor Celfyddydau Cymru lunio dystiolaeth o'r dull o ystyried effaith (Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017).

Yn Lloegr

3.56 Bu prosiect Creative Scene (rhaglen CPP yn North Kirklees, Gorllewin Swydd Efrog), Artist@Work, yn canolbwyntio'n benodol ar hwyluso lletya artistiaid mewn busnesau lleol a gwelwyd bod y broses nid yn unig yn denu cynulleidfaoedd newydd i ymwneud â'r celfyddydau, ond ei bod hefyd yn arwain at amrywiaeth eang o fanteision i'r artistiaid a'r busnesau. Er enghraifft, drwy breswyladau artistiaid mewn marchnad leol, bu siopwyr a masnachwyr yn helpu i adeiladu amgueddfa dros dro gan ddefnyddio cynnyrch y gellid eu prynu yn y farchnad. Drwy gynnwys cwsmeriaid mewn gweithgarwch creadigol, cawsant y cyfle i hybu eu hunain a digwyddiadau celfyddydol eraill tra'n cynyddu'r amser y treuliai'r siopwyr yno, sy'n gysylltiedig â gwario mwy.

3.57 Enghraifft arall drwy CPP o'r celfyddydau yn ymgysylltu â phobl drwy fusnes yw preswylad artist diweddar yn ffatri fisgedi Fox lle y cynhaliwyd sggyrsiau gyda'r gweithwyr am eu hatgofion am y ffatri. Cafodd y rhain eu cynrychioli'n artistig wedyn ar y tu allan i'r adeilad. Rhoddai'r prosiect gyfle i ymgysylltu â'r celfyddydau ar lefel dorfol, yn ogystal â chasglu adborth gan gyflogeion, codi proffil gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i staff Fox a gwella'r canfyddiadau mewnol ac allanol o Fox fel cyflogwr.

3.58 Drwy raglen CPP, cafodd bwyty ei gynorthwyo i elwa o breswylad artist, wrth i artist digidol greu gwawdluniau o'r cwsmeriaid a'u hanimeiddio'n fyw yn y bwyty. Dangoswyd yr animeiddiadau ar sgriniau o amgylch y bwyty i greu oriel, ac roedd cyfle i'r cwsmeriaid dderbyn y portread drwy e-bost. Rhoddai hyn yr ysgogiad iddynt ddatgelu eu manylion cyswllt a chytuno i dderbyn gohebiaeth y gellid ei defnyddio i hybu'r busnes a digwyddiadau celf Creative Scene yn y dyfodol.

Allgymorth Cymunedol a Chynnwys y Gymuned

- 3.59 Defnyddiodd nifer o brosiectau CPP fodel o ddatblygu llawr gwlad gyda'r nod o ymgysylltu'n agos â chymunedau lleol a'u targedu, gan gynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau. Un prosiect o'r fath yw Appetite, rhaglen dair blynedd yn Stoke-on-Trent a gynigai "Fwydlen Flasu" o amrywiaeth eang o brofiadau celfyddydol er mwyn ymgysylltu â chymunedau lleol a'u hysbrydoli – cymunedau y nodwyd bod ganddynt lefelau isel o ymwneud â'r celfyddydau. Yn ôl y prosiect, cawsant fod eu rôl "Adeiladwyr Archwaeth", a oedd yn broceru â grwpiau cymunedol, yn allweddol i ymgysylltu â chymunedau lleol drwy'r berthynas a'r ymddiriedaeth a gafodd eu meithrin rhyngddynt â phobl na fyddai, efallai, wedi ymwneud â'r celfyddydau (Cyngor Celfyddydau Lloegr, 2013). Roedd eu rôl yn cynnwys sefydlu Get Talking Network i gynnal sgwrs gyda phobl â'u cynnwys mewn penderfyniadau a phroses o ymchwil weithredol i gyfarwyddo gwaith cynllunio yn y dyfodol. Ystyriwyd bod digwyddiadau cymunedol anffurfiol ac am ddim yn tawelu meddwl pobl ac yn eu hannog i gyfranogi.
- 3.60 Bu rhaglen arall CPP, Right Up Our Street yn Doncaster, yn gweithio gyda grŵp bach ond amrywiol o bobl i ddatblygu tîm cymunedol a rhwydwaith o gyfleoedd a gyfunai'r celfyddydau a chymdeithasu. Y nod oedd herio canfyddiadau nad yw'r celfyddydau "ar ein cyfer ni" a galluogi i unigolion fod yn eiriolwyr i'r celfyddydau yn eu cymunedau. Elfen benodol o lwyddiannus fu datblygu prosiectau drwy gydweithio â phobl a grwpiau lleol.

4

Effaith Y Celfyddydau Ar Drechu Tlodi Ac Anfantais

- 4.1 Mae gweithgareddau celfyddydol yn effeithio ar drechu tlodi ac anfantais mewn llawer o ffyrdd ar lefel ronynnog, ond yn aml drwy brosesau economaidd-gymdeithasol tebyg. Mae hyn yn cynnwys yr elfennau sy'n 'gorlifo' i'r gymdeithas yn sgil cyfranogi a rhyngweithio â'r celfyddydau, er nad yn cynhyrchu celf. Yn fwy penodol, mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel mynd i leoliad/perfformiad, hynny yw profi neu ddefnyddio celf, yn hytrach nag ysgrifennu cerddi / chwarae cerddoriaeth eich hun, hynny yw nid perfformio na chreu celf. Mewn achosion eraill, mae'r effeithiau yn deillio o weithgareddau wedi'u targedu, fel arfer gyda chyllid wedi'i neilltuo, fel rhaglenni dysgu a chyfranogi. Mae'r bennod hon yn ystyried tystiolaeth o'r effeithiau hyn yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Crynodeb

- 4.2 Yng Nghymru, cafodd trechu tlodi ei osod yn flaenoriaeth mewn polisiau, ac mae sawl dogfen allweddol wedi arwain y ffordd at ddarpariaeth gelfyddydol yn effeithio ar dlodi. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Lywodraethu: Symud Cymru Ymlaen 2016-21 (Llywodraeth Cymru, 2016), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ("Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi," 2012); a rhaglen Cyfuno: Trechu Tlodi drwy Ddiwylliant (Llywodraeth Cymru), a adeiladai ar adolygiad y Farwnes Andrews, (2014), Diwylliant a Thlodi. Mae'r rhain yn cynnwys yr amryw nodau canlynol:

- **Rhaglen ar gyfer Cymru 2016-21:** "Gweithio gyda chymunedau i ddiogelu cyfnewterau lleol sy'n dwyn pobl ynghyd, gan gynnwys tafarndai, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, canolfannau celfyddydol a chanolfannau hamdden."
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."
- **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-16:** "Byddwn yn adolygu'r model ar gyfer cefnogi mentrau cymdeithasol, gan ystyried sut y gall y sector hwn ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gweithgareddau diwylliannol er mwyn meithrin gallu a sgiliau, a rhoi hwb ymarferol i'r economi drwy wella rhagolygon cyflogaeth y bobl sydd heb waith a'r bobl sy'n economaidd anweithgar."
- **Cyfuno: Trechu Tlodi drwy Ddiwylliant (2014):** "Rydym am rymuso ac annog pobl i chwarae rhan weithredol ym maes y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth."

- 4.3 Er hyn, ceir cytundeb oddi mewn i'r dystiolaeth a luniwyd bod diffyg o ran dadansoddiad manwl o'r effeithiau hyn yn bresennol, yn arbennig yng nghyd-destun Cymru (e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015b; Amgueddfa Cymru - National Museum Wales (AC-NMW) / Llywodraeth Cymru, 2016). Hyd yn oed ar lefel y Deyrnas Unedig, y mae'r ddealltwriaeth ganlynol wedi hen ennill ei phlwyf:

"...difficulty of evaluating arts projects, particularly their long-term impacts, and the variation of impacts on multiple stake-holders, has been highlighted both by critics within the field of academia... and in policy documents" (Lees & Melhuish, 2015).

- 4.4 Pwysig yw nodi bod y dystiolaeth a gasglwyd, felly, yn disgyn i ddau gategori: data gwrthrychol 'caled' sydd fel arfer yn ymwneud â'r arsylwadwy, sydd yn aml yn beth prin, a meddyliau a safbwyntiau mwy goddrychol ynglŷn ag effeithiau ehangach arloesi yn y celfyddydau ar dlodi, a cheir rhywfaint yn fwy o dystiolaeth o hyn. Mae'r bennod hon felly yn cyfuno'r ddau fath hwn o ddata, er bod mwyafrif y dystiolaeth yng nghategori'r goddrychol.
- 4.5 Yn ogystal â thystiolaeth o Gymru, mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys data o'r Deyrnas Unedig a data rhyngwladol, fel yr adolygiad diweddar o effeithiau cymdeithasol Diwylliant a Chwaraeon DMCS, gan ddefnyddio rhaglen Tystiolaeth Diwylliant a Chwaraeon (CASE) (Taylor, Davies, Wells, Gilbertson, Tayleur, et al., 2015). Mae hyn yn darparu fframwaith cysyniadol i effeithiau'r celfyddydau ar gyfranogwyr a mynychwyr, ac mae llawer ohono'n berthnasol i'r adrannau canlynol. Caiff hyn ei archwilio mewn mwy o fanylder yn Adran: CASE.

Effaith Cyfranogi yn y Celfyddydau yng Nghymru

- 4.6 Er i flaenoriaeth gael ei rhoi i drechu tlodi drwy gelf yng Nghymru, am mai yn ddiweddar y symudodd Llywodraeth Cymru tuag at drechu tlodi, amser byr yn unig a fu i raglenni gael eu gweithredu ac i ganlyniadau/effeithiau ddigwydd. Mae llawer o'r dystiolaeth yn y maes hwn yng Nghymru felly yn canolbwyntio ar werthusiadau cam cynnar a chyfiawnhad or dull polisi ei hun.

Rhaglen Cyfuno

- 4.7 Fel rhan o gyfnod cychwynnol menter 'Cyfuno: Trechu Tlodi drwy Ddiwylliant', crëwyd chwe 'Ardal Arloesi' mewn rhaglen o waith i ganfod ffyrdd i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol mewn cymunedau. Y nod yn benodol yw targedu'r bobl hynny na fyddai fel arfer yn ymwneud â gweithgareddau diwylliannol o'r fath. Cafodd y dull gweithredu ei nodi yn ymateb Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014a) i adroddiad y Farwnes Andrews (Andrews, 2014).
- 4.8 Darparodd adroddiad gwerthuso blwyddyn beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi (2016) waith ymchwil eang a manwl ar ganlyniadau mewn perthynas â threchu tlodi. Yng nghyd-destun cyrhaeddiad addysgol, darparodd y Rhaglen Arloesi (Amgueddfa Cymru - National Museum Wales (AC-NMW) / Llywodraeth Cymru, 2016) dystiolaeth anecdotaidd a awgrymai fod llawer o ddisgyblion ysgol a gymerodd ran wedi dangos gwelliannau ar draws nifer o sgiliau allweddol sy'n sylfaen i'r cwricwlwm; gan gynnwys iaith, llythrennedd a rhifedd, cyfathrebu, defnyddio technoleg gwybodaeth, gweithio gydag eraill, gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain, a datrys problemau."
- 4.9 Er hynny, pwysleisiwyd na allai'r data a gasglwyd farnu graddau'r canlyniadau hyn na chadarnhau achosiaeth. Hefyd, nododd yr awduron y gallai ffactorau eraill y tu allan i'r rhaglen fod yn cydberthyn i rai o'r effeithiau a nodwyd. Mae hyn yn dangos yn glir bod angen rhoi methodolegau astudiaeth gadarn yn eu lle y gellir eu defnyddio i ddod i gasgliadau am berthynas achosol mewn prosiectau a rhaglenni, yn ddelfrydol gan ddefnyddio haparbrawf reoledig neu wrthffeithiol.

- 4.10 Hefyd, datgelodd gwerthusiad yr Ardaloedd Arloesi gysylltiadau penodol rhwng effeithiau cyflogadwyedd a chyfranogiad. Roedd hyn i'w weld yn y cyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol a darparu adborth ar y broses hon, ac awgrymai'r canfyddiadau fod cynnydd yn yr hyder o ran mynd ati i ddysgu. Er enghraifft, gwelwyd bod enghreifftiau o ddatblygu sgiliau 'beirniadol' sy'n hanfodol i ddatblygu perthnasoedd gweithio effeithiol a gwaith tîm ymysg nifer o'r cyfranogwyr, gan awgrymu y cawsant eu galluogi gan y cwrs i ddatblygu eu sgiliau rhyngberonol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith tîm, datblygu cydberthynas ac empathi tuag at gyfranogwyr eraill, negodi, gwneud penderfyniadau, rheoli amser a chyflawni tasg ar y cyd.
- 4.11 Caiff ei nodi yng ngwerthusiad Ardaloedd Arloesi nad oedd newidiadau iechyd a lles mor hawdd i'w hasesu gan fod effeithiau hirdymor nad oedd yn debygol o gael eu nodi yn ystod blwyddyn gyntaf y peilot. Yn hytrach, canolbwyntiai rhaglen yr Ardaloedd Arloesi ar ganlyniadau mwy uniongyrchol fel y sgiliau meddal a nodwyd uchod. Yn fwy cyffredinol, gwelwyd bod sefydliadau diwylliannol yn aml yn pwysleisio bod gweithgareddau heb eu llawn werthfawrogi o ran eu gallu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi. Ystyriwyd bod hyn o ganlyniad i raglenni blaenorol yn canolbwyntio ar ganlyniadau 'caled' fel cymwysterau achrededig neu gyfogaeth fel rhan o'r Rhaglen, a chaiff y safbwynt hwn ei gefnogi yng nghasgliadau gwerthusiad proses Cymunedau yn Gyntaf (Ipsos MORI a Wavehill Consulting, 2015).
- 4.12 Eithriad nodedig i hyn fu prosiectau a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n aml yn cynnwys targedau ar ganlyniadau meddal penodol, yn ogystal â thargedau caled. Yng ngwerthusiad rhaglen Cyrraedd y Nod (Aumeyr, 2013), pwysleisiwyd bod canlyniadau mwy meddal yn bwysig, yn arbennig gan nad oedd diffyg data monitro gwrthrychol yn caniatáu ar gyfer dadansoddi effeithiau yn feintiol.

Elfennau Eraill o Dystiolaeth o Gymru

- 4.13 Darparodd Cyngor Celfyddydau Cymru adborth sy'n sylfaen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2015b), a bwysleisiai bod angen gwerthuso a chasglu tystiolaeth o ganlyniadau er mwyn dangos effeithiau mwy hirdymor y gweithgareddau a gynhelir. Roedd hefyd yn cynnig tystiolaeth benodol o sut mae gweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ategu 7 Nod y Ddeddf, gan gynnwys y canlynol sy'n berthnasol i drechu tlodi:

A Healthier Wales

- Mae Gŵyl Gwanwyn, a gyllidir gan Gyngor y Celfyddydau, yn hyrwyddo gweithgarwch y celfyddydau gan bobl hŷn ac i bobl hŷn ar draws 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru
- Mae rhaglen Creadigrwydd yn Seiliedig ar y Person, Cwm a Bro, a gyllidir gan Gyngor y Celfyddydau, wedi'i mabwysiadu mewn amrywiaeth eang o leoliadau gofal iechyd a llesiant, ac mae rhagor na 300 o weithwyr gofal proffesiynol yn elwa o hyfforddiant y sefydliad
- Rhaglen o weithgareddau celfyddydol ac iechyd meddwl yw Menu 4 Life, i gael eu cyflenwi mewn dau Glwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghwm Ebwy Fach. Y mae'r rhaglen bellach yn rhan greiddiol o Gynllun Gweithredu Cymunedau Iachach

Cymru sy'n fwy Cydradd


- Gwariodd Cyngor y Celfyddydau mwy na £7.1m yn 2014/15 mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

- 4.14** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno Grant Amddifadedd Disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2014), a ddefnyddiwyd i gynorthwyo gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae'r canllaw hwn yn rhoi tystiolaeth o'r effaith y gall profiadau celfyddydol a diwylliannol gael ar bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig. Y mae'n cyflwyno tystiolaeth (e.e. Estyn, 2012) y gall gweithgareddau o'r fath liniaru neu leihau effeithiau amddifadedd ar ddysgwyr ifanc mewn ysgolion, a gellir ei ystyried yn ddangosydd ar gyfer ysgol lwyddiannus. Mae'r canlyniadau cadarnhaol sydd wedi'u nodi yn cynnwys: *"gwell cyrhaeddiad mewn pwnc penodol neu gynorthwyo i ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm, fel mewn llythrennedd neu rifedd...gwelliannau mewn ymddygiad, cynnydd ym mhresenoldeb dysgwyr neu welliannau yn eu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu."* Y mae hefyd yn pwysleisio bod angen dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel bod modd dangos effeithiau'r prosiectau/ymyriadau a gaiff eu cynnal.
- 4.15** Gan fynd yn ôl yn bellach, bu i adroddiad Dai Smith (2013) ac adroddiad y Farwnes Andrews' (2014) wedyn osod y sylfaen ar gyfer y symudiad presennol tuag at drechu tlodi drwy'r celfyddydau. Er i'r adroddiadau hyn gyffwrdd ar yr angen am brosiectau sy'n cael effaith i gael eu cynnal fel a drafodwyd yn flaenorol yn y bennod hon, y mae hefyd iddynt gwmpas strategol llawer ehangach. Y maent felly yn fwy sylfaenol i gefndir polisi y dystiolaeth a gyflwynir mewn perthynas â Chymru a dylid eu darllen yn y cyd-destun hwn.

Effaith Cyfranogi yn y Celfyddydau yn y Deyrnas Unedig


Fframwaith Cysyniadol ar gyfer Effeithiau Cymdeithasol

- 4.16** Bu i'r adolygiad diweddar o effeithiau cymdeithasol Diwylliant a Chwaraeon gan DMCS, gan ddefnyddio rhaglen Tystiolaeth Diwylliant a Chwaraeon (CASE) (Taylor, Davies, Wells, Gilbertson, Tayleur, et al., 2015), ddarparu fframwaith cysyniadol ar gyfer effeithiau'r celfyddydau ar gyfranogwyr a mynychwyr, ac mae llawer ohono'n berthnasol yn yr adrannau canlynol. Caiff hyn ei ddangos yn Ffigur 4.1, ar y dudalen nesaf, sy'n cyflwyno cyswllt rhwng cyfranogi/presenoldeb yn y celfyddydau, ysbrydoliaeth/cyswllt, mwy o sgiliau ac ymgysylltiad, lleihad mewn ffactorau risg yn arbennig i rai mewn amddifadedd, a chanlyniadau/effeithiau canolradd tymor hwy.
- 4.17** Mae CASE yn rhaglen o waith ar raddfa fawr ar draws y Deyrnas Unedig sy'n ceisio casglu tystiolaeth o sut gall cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol greu effeithiau cymdeithasol. Darparodd Taylor et al. (2015) adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth ar effeithiau cymdeithasol (cadarnhaol, a negyddol mewn rhai achosion) ar draws meysydd:
- Chwaraeon
 - Y Celfyddydau
 - Treftadaeth
 - Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau
- 4.18** O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg hanfodol o dystiolaeth eilaidd mewn perthynas ag effeithiau'r celfyddydau yn y Deyrnas Unedig, yn arbennig am y caiff tystiolaeth ei dadansoddi ymhellach oddi mewn i'r celfyddydau, i'r categorïau canlynol:
- ...Y Celfyddydau ac Iechyd
 - ...Y Celfyddydau a Lles
 - ...Y Celfyddydau a Throsedd
 - ...Y Celfyddydau a Chyfalaf Cymdeithasol
 - ...Y Celfyddydau ac Addysg
 - ...Y Celfyddydau ac Effeithiau Lluosog




Ffigur 4.1: Effeithiau Cymdeithasol y Celfyddydau (Taylor, Davies, Wells, Gilbertson, Tayleur, et al., 2015)

- 4.19 Fel a welir yn Ffigur 4.1, caiff cyswllt cysyniadol a rhesymegol ei ddatgelu mewn tystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau'r celfyddydau. Fel a nodwyd yn y cyftwyniad, gall cyfranogi naill ai fod drwy ddiddordeb naturiol neu drwy brosiect/rhaglen penodol wedi'i ariannu. Mae hyn yn creu ysbrydoliaeth sy'n arwain yr unigolyn at amrywiaeth o ganlyniadau personol uniongyrchol. Yn ei dro, mae hyn yn cynorthwyo i leihau ffactorau risg (personol, cymdeithasol a theuluol) o dlodi ac allgáu diwylliannol, gan arwain at ganlyniadau uniongyrchol i'r person (e.e. gwybyddol, emosiynol, ymddygiad) a'u rhwydwaith cymdeithasol uniongyrchol. Mae hyn yn pen draw yn arwain at ganlyniadau cymdeithasol, fel effeithiau iechyd/lles, gostyngiad mewn troseddau, yn ogystal ag effeithiau addysgol a chyfalaf cymdeithasol, a gaiff sgil-ffeithiau wedyn ar ffurf arbedion i'r trysorlys.
- 4.20 Mae amrywiaeth o effeithiau addysgol wedi'u nodi o astudiaeth CASE, ond eto fel tystiolaeth eilaidd yn hytrach na data cynradd. Nodwyd nifer o astudiaethau sy'n cefnogi'r gydberthynas rhwng diwylliant a chanlyniadau ac effeithiau mewn lleoliadau addysgol (Taylor, Davies, Wells, Gilbertson, Tayleur, et al., 2015). Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau meddal (e.e. cynyddu hyder) ac effeithiau mwy caled (hwb i gyrhaeddiad addysgol).
- 4.21 Cyftwynodd Taylor et al. (2015) y fframwaith ar gyfer effeithiau addysgol a ddangosir yn Ffigur 4.2. Mae hyn yn cyftwyno dau lwybr at effeithiau addysgol, drwy ddatblygiad (rhyngweithiol) cymdeithasol (y llwybr chwith yn y diagram) a thrwy ddatblygiad (seicolegol) personol (ar y dde), er y caiff ei nodi y gall 'pellter a deithiwyd' yn seicolegol hefyd gael effaith ar gyrhaeddiad addysgol mewn perthynas ag ennill cyfalaf cymdeithasol a bod â chanfyddiad o'ch hun oddi mewn i normau cymdeithasol.



Ffigur 4.2: Effeithiau addysgol y celfyddydau (Taylor, Davies, Wells, Gilbertson, Tayleur, et al., 2015)

- 4.22 Caiff fframweithiau pellach eu cyflwyno gan Taylor et al. (2015) ar gyfer effeithiau iechyd a lles, fel a ddangosir yn Ffigur 4.3a (drosodd, ar gyfer iechyd: chwith) a 4.3b (lles: dde). Mae hyn yn cyflwyno dau lwybr at effeithiau addysgol, drwy ddatblygiad (rhyngweithiol) cymdeithasol (y llwybr chwith ar y diagram) a thrwy ddatblygiad (seicolegol) personol (ar y dde).
- 4.23 Diddorol yw nodi bod y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer manteision lles oll yn ymwneud yn benodol â rhaglenni digwyddiadau diwylliannol, nid diddordeb cyffredinol. Mae i'r rhain effeithiau cymdeithasol neu unigol (person-benodol) sy'n cynyddu hyder a chanlyniadau 'meddal' eraill, sydd yn eu tro ag iddynt fanteision iechyd.
- 4.24 Yn achos lles, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos y gall effaith fod yn ddibynnol ar lefel o fynediad i'r celfyddydau. Yn yr un modd, gall canlyniadau cymdeithasol a phersonol ar gyfer 'iechyd' wedyn arwain at fwy o hunan-barch, sydd yn ei dro yn cynorthwyo cyfraddau boddhad mewn bywyd, ac arwain at fwy o ymwybyddiaeth gymdeithasol.



Ffigur 4.3a (chwith): Effeithiau'r Celfyddydau ar Iechyd; Ffigur 4.3b (dde) Effeithiau'r Celfyddydau ar Les (Taylor, Davies, Wells, Gilbertson, Tayleur, et al., 2015)

4.25 Mae'r fframweithiau cysyniadol hyn yn ddefnyddiol yn benodol wrth ystyried rhesymeg sut gall ymyriad a gaiff ei ddewis effeithio ar ganlyniadau cymdeithasol penodol. I'r diben hwn, gallant helpu i ffurfio 'model rhesymeg', yn seiliedig ar 'theori newid', lle mae'r theori newid yw un neu ragor o'r llwybrau siart llif yn y fframweithiau cysyniadol yn Ffigurau 4.1-4.3. Fel sydd wedi'i bwysleisio mewn adroddiadau a thrwy gydol y Bennod hon, mae diffyg dealltwriaeth glir ynglŷn â sut i greu model rhesymeg cadarn y gellir ei brofi ac sydd â dangosyddion penodol. Gallai defnyddio'r dull trosfwaol presennol fynd gryn dipyn o'r ffordd at ddatrys hynny. Caiff cysyniad y model rhesymeg ei archwilio ymhellach ar ddiwedd y bennod hon.

Lles Goddrychol

4.26 Mae mesur lles yn wrthrychol yn syniad anodd ynddo'i hun, ond ers y 1930au mae economegwyr wedi derbyn y syniad o roi gwerth i nwyddau ar wahân i nwyddau'r farchnad drwy'r syniad o ddefnyddioldeb. Bu ymchwilwyr economeg yn y London School of Economics and Political Sciences (LSE), dan arweiniad Daniel Fujiwara, yn ceisio dealltwriaeth gadarnach o effeithiau economaidd-gymdeithasol 'caled' y celfyddydau.

4.27 Er nad yw hynny'n llwyr yn rhan o'r diffiniad presennol o'r 'celfyddyddau', darparwyd dull arloesol o fesur effaith amgueddfeydd ar les gan brosiect Happy Museums. Dadansoddodd Fujiwara & Mackerron (2015) ddata o ap (Mappiness) sy'n cofnodi hapusrwydd y defnyddiwr a'i synnwyr o faint y mae wedi ymlacio ar hap-adegau drwy gydol y dydd a'r wythnos, a byddai'r ap yn holi beth oedd y defnyddiwr yn gwneud ar y pryd. Mae'r ap yn cofnodi lleoliad (ar sail System Gwybodaeth Ddaearyddol), ymateb goddrychol, gweithgarwch, ac yng nghwmni pwy ydoedd. Yr oedd felly'n bosibl creu model ystadegol o wahanol hwyliau goddrychol yn ôl lleoliad, gan reoli ar gyfer ffactorau eraill sy'n cefnogi lles.

4.28 Roedd yr astudiaeth hefyd yn ystyried p'un a oedd y person yn perfformio neu'n bresennol mewn digwyddiadau ffurfiau celf penodol. Canfuwyd bod pob gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol yn gysylltiedig yn gadarnhaol â themlo'n hapus, ac yn fwyaf felly gweithgarwch mynd i'r theatr/dawns/cyngerdd.

4.29 Mae dadansoddiad o arolwg Understanding Society yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth o gyfraniad y celfyddydau i les, ymysg llu o newidynnau esboniadol eraill (incwm, iechyd, rhyw, statws priodasol, cyflogaeth, oedran ac ati). Hefyd, mae modd dangos bod perthynas rhwng incwm a lles, a chan ddefnyddio'r set ddata hon y mae modd gweld sut mae'r defnydd o wahanol weithgareddau yn cyflwyno lefel gyfwerth o incwm. Y mae'r astudiaeth benodol hon yn werthfawr yn y modd y mae'n efelychu amodau labordy, gan reoli ar gyfer y ffactorau eraill hyn ac ystyried effeithiau cyfranogi yn y celfyddydau yn unig.

4.30 Gan ddefnyddio model atchwel ar ddata amrywiaeth o arolygon, dangosodd Fujiwara et al (2014) bod perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng y defnydd o gelfyddydau a lles, ond nid cyfranogi yn y celfyddydau. Mae hyn yn golygu, po orau yr ystyriai'r ymatebwyr eu lles eu hunain, y mwyaf yr oeddynt yn cyfranogi yn y celfyddydau, ond nid oedd y berthynas hon yn bresennol pan fyddai pobl a oedd neu nad oeddynt yn perfformio yn y celfyddydau yn nodi eu hapusrwydd. Mae gan y model gyfernod arwyddocaol o 0.043 ar gyfer cynulleidfaoedd y celfyddydau, ond lefel (anarwyddocaol) o 0.03 ar gyfer cyfranogi yn y celfyddydau. Efallai bod y gwahaniaeth hwn yn y canfyddiadau yn bodoli yn sgil y gwahaniaeth seicolegol cynhenid sy'n angenrheidiol wrth berfformio yn y celfyddydau, a allai arwain i berfformwyr (yn gyffredinol) beidio ag elwa o'u celfyddyd yn yr un modd â'r defnyddwyr.

- 4.31 Nid oedd yr effeithiau yn gyffredinol ar draws yr holl ffurfiau celf: oddi mewn i gynulleidfa oedd y celfyddydau, cerddoriaeth a dramâu oedd yr unig rai a ddangosodd berthynas ystadegol arwyddocaol, ac nid oedd amrywiadau o'r fath i'w gweld yn achos ffilmiau, arddangosfeydd na dawnns. Ymhellach, oddi mewn i berfformiadau'r celfyddydau, roedd perthynas gadarnhaol rhwng dawnns a chrefft a lles, ond roedd perthynas negyddol rhwng perfformio cerddoriaeth a lles, gan ddangos bod pobl sy'n perfformio mwy o gerddoriaeth yn ystyried eu hunain yn is o ran lles na rhai sy'n chwarae llai. Mae'n debygol mai dyma'r rheswm nad oedd cydberthynas ystadegol arwyddocaol yn gyffredinol rhwng perfformio'r celfyddydau a lles, gan fod y canlyniad ar gyfer perfformio cerddoriaeth yn tynnu'r ystadegyn cyffredinol i'r cyfeiriad arall. Yn ddelfrydol, pe byddai ymyriad, y mae modd ei brofi, yn cael ei gynnal i gynorthwyo pobl i berfformio'r celfyddydau, gellid cymryd graddau lles fel man cychwyn a gorffen i'r ymyriad, yn achos y grŵp sampl sy'n gwneud yr ymyriad, grŵp y gofynnir iddynt fynychu'r celfyddydau ond nid perfformio, a 'grŵp rheolydd' y gofynnir iddynt osgoi'r ddau beth yn benodol. Gallai hyn wedyn roi nifer o wahanol ffurfiau celf i'r cyfranogwyr eu perfformio neu fynd iddynt er mwyn deall y gwahaniaethau achosol rhwng gwahanol ffurfiau celf, ac yn gyffredinol.
- 4.32 Canfyddiad olaf, a diddorol, sy'n deillio o'r gwaith ymchwil oedd bod y model yn dangos bod cynulleidfa oedd y celfyddydau yn gyfwerth â £90 y mis (£935 y flwyddyn) ar eu hennill na phetaent heb fynychu'r celfyddydau. Dyma'r swm ariannol cyfwerth y byddai gofyn i rywun gael er mwyn cynyddu eu lles i'r un graddau ag a geir drwy fynychu'r celfyddydau. Cafwyd tystiolaeth hyd yn oed yn gryfach mewn gwaith blaenorol (Fujiwara, 2013) o enillion cyfwerth ariannol yn sgil mynychu amgueddfeydd a'r celfyddydau, yn ogystal ag enillion llai arwyddocaol yn achos perfformio.
- 4.33 4.33 Ceir astudiaeth a edrychodd ar y dull hwn yn ehangach mewn perthynas â'r celfyddydau, canolfannau diwylliannol a'r economi mewn lleoliadau o ddwysedd diwylliannol uchel yn Lloegr (Bakhshi et al., 2014). Gwelwyd bod cydberthynas negyddol rhwng clystyrau diwylliannol ac incwm, gan awgrymu bod y rhai yn yr economi creadigol yn llai tebygol o ennill cymaint â'r rhai nad ydynt yn yr economi creadigol. Er hyn, wrth gyfri am ryngweithio rhwng clystyrau diwylliannol a'r economi creadigol ehangach, roedd rhywfaint o dystiolaeth o'r canlynol:

“that creative workers in cities with high levels of cultural clustering enjoy a wage premium, which suggests that not-for-profit arts and cultural sectors may be generating knowledge spillovers into the commercial creative economy.”

- 4.34 Astudiaeth arall a ddangosodd berthynas benodol rhwng lles/hapusrwydd a'r celfyddydau oedd Culture, Sport and Wellbeing: An analysis of the Taking Part Survey (DMCS, 2014). Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddadansoddiad atchwel, a datgelwyd cydberthynas uniongyrchol, ystadegol ystyrion, rhwng hapusrwydd (a nodwyd drwy arolwg) a mynychu'r celfyddydau. Mae hyn yn cynnig cefnogaeth bellach i fframwaith CASE y cyfeiriwyd ato eisoes uchod.

Elfennau Eraill o Dystiolaeth o'r Deyrnas Unedig

- 4.35 Ledled y Deyrnas Unedig, bu amrywiaeth o astudiaethau hefyd yn ystyried effeithiau'r celfyddydau mewn cyd-destunau diwylliannol ehangach. Y mae dull y model rhesymeg yn amlwg yn nealltwriaeth gychwynnol Arts Impact Fund (Nesta, 2016). Mae dull y Model Rhesymeg yn sefydlu 'theori newid' sy'n gwneud y cyswllt rhesymegol rhwng y cyd-destun a'r sail resymegol i fuddsoddi, sy'n cyfiawnhau'r mewnbynnau (ariannol ac eraill) i'r prosiect sydd wedyn yn ariannu'r gweithgareddau a wneir. Mae gweithgareddau hynny yn cynhyrchu allbynnau uniongyrchol, yn ogystal â chanlyniadau sy'n ganlyniad rhesymegol i'r allbynnau, ac effeithiau tymor hwy neu ar raddfa fwy.
- 4.36 Mater pwysig yw bod i'r allbynnau, y canlyniadau a'r effeithiau oll dargedau wedi'u diffinio'n glir fel bod modd mesur llwyddiant yn eu herbyn. Caiff y dull hwn ei ddefnyddio'n helaeth ac mae'n arfer orau gan lywodraeth y Deyrnas Unedig wrth werthuso effeithiau buddsoddiadau cyhoeddus mewn prosiectau a rhaglenni (Trysorlys ei Mawrhydi, 2003; 2011). Mewn adolygiad diweddar o arolwg Taking Part DCMS (DCMS, 2016), gwelwyd bod angen gwneud mwy er mwyn sefydlu cysylltiadau achosol ag effaith, gan gynnwys sefydlu dulliau fel fframwaith model rhesymeg yn seiliedig ar theori newid, ac meddai Cyngor Celfyddydau Lloegr (ACE) hefyd bod angen gwneud mwy o waith i ffurfioli'r ffyrdd y gall y celfyddydau ychwanegu gwerth i gymdeithas.
- 4.37 Daw cefnogaeth bellach i ddull y model rhesymeg yn y celfyddydau drwy Arts Impact Fund Insights o'r flwyddyn gyntaf (Nesta, 2016, t9):

“Robust theories of change and logic models around specific social outcomes remain unusual in the arts and culture sector compared with other social sector organisations. A generally low standard of evidence for the social impact produced by the sector is a barrier to keeping track of outputs and outcomes, the efficacy of particular interventions and the communication of impact. At the same time, some organisations have highly sophisticated approaches to capturing social impact data - typically these are the larger organisations with dedicated programme staff in place. Funders could have a convening role to share examples of best practice with those organisations that have less capacity; alternatively, organisations could consider how to sell their expertise to others through training programmes.”

“There is a need for more standardised metrics of artistic impacts that can fit into existing frameworks for measuring social and financial returns (thereby attracting social investment into the arts).”

Effaith Cyfranogi yn y Celfyddydau o Amgylch y Byd

- 4.38 Casglodd Cynulliad Gogledd Iwerddon dystiolaeth o effeithiau mynychu'r celfyddydau ymysg y rhai sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol neu sydd o gymunedau a gaiff eu diffinio yn ddosbarth gweithiol (Cynulliad Gogledd Iwerddon, 2016). Wrth ystyried enghreiffiau rhyngwladol ar draws yr UE, ceir astudiaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar Wlad Belg (Vermeersch a Vandenbroucke, 2014). Cyflwynir tystiolaeth ganddynt y caiff cyfranogi yn y celfyddydau effeithiau arbennig o arwyddocaol ar blant tlawd, gan helpu i weithio'n erbyn arwahanrwydd cymdeithasol a chreu synnwyr o berthyn. Ystyrid mai'r cymysgu gyda phlant eraill o wahanol gefndiroedd oedd y mecanwaith achosol, gan gyfrannu at arloesi cymdeithasol (tystiolaeth wedi'i darparu gan Daly, 2012).
- 4.39 Mewn gwaith diweddar gan Crossick a Kaszynska, (2016) ar gyfer Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, dangoswyd y gwahaniaethau sy'n deillio o ddulliau gwahanol o ddeall effeithiau'r celfyddydau yn rhyngwladol. Cyfeirir yn fanwl at rifyn arbennig o gyfnodolyn Cultural Trends sy'n canolbwyntio ar fesur gwerth diwylliannol, a daethpwyd i'r canfyddiad hwn:

Differences of emphasis and of substance are clear: the economic emphasis of Canada's Culture Statistics Program derives from its being based on satellite accounting data, and the focus on identity, social cohesion and diversity in the Cultural Indicators for New Zealand Project reflects a preoccupation with community outcomes, whereas Australia's Vital Signs was intended to accommodate social as well as economic impacts before being halted by political developments.

- 4.40 Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd wrth ddadansoddi a deall effeithiau cymdeithasol y celfyddydau yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, a thramor i ryw raddau, y mae'n glir bod llawer o waith angen ei wneud.

5

Cynhyrchiant Economaidd Sector Y Celfyddydau

Crynodeb

- 5.1** Mae sector y Celfyddydau yn amrywiol ac mae gwahanol ffurfiau celf yn wynebu gwahanol heriau o ran yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig i'r gynulleidfa, a allai fod am ddim neu drwy docynnau, a gwahanol anghenion o ran cyfalaf wrth drefnu perfformiadau ac ati. Mae'r heriau a wynebir ac atebion perthnasol felly yn amrywio'n fawr, gyda rhai ohonynt yn gyffredin ac eraill yn fwy perthnasol i ffurfiau celf penodol.
- 5.2** Mae diffinio'r Celfyddydau a deall ffiniau'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn sector y Celfyddydau yn bwysig. Y broblem sy'n codi drosodd a thro wrth astudio unrhyw sector yw nad yw sector organig y byd go iawn yn arbennig o addas i ddiffiniadau ystadegol swyddogol y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC). Wrth ystyried y Celfyddydau, y mae dryswch neu gyd-asio rhwng diffiniadau'r Celfyddydau, Diwylliant a'r diwydiannau Creadigol. Mae gan y diwydiannau creadigol ddiffiniad wedi'i gytuno ar gyfer y sector, a ddefnyddir i lunio adroddiadau ystadegol rheolaidd, ac yn y Papur Gwyn diweddar ar Ddiwylliant, gwnaed yn ofynnol i DCMS lunio tystiolaeth debyg ar gyfer sector Diwylliant.¹⁰ Hanfod y mater hwn yw bod diffiniadau yn sail i'r ddaol a heb eglurder gall termau gael eu defnyddio'n rhy llac neu'n gyfnewidiol, a phwysig yw defnyddio diffiniadau wedi'u cytuno yn gyson.
- 5.3** Mae sector y Celfyddydau ei hun yn fach yng Nghymru, gan gynrychioli 0.3 y cant o'r economi yn unig. 3,375 sydd wedi'u cyflogi yn y sector, ac mae ganddo drostiant o £123m. Er hyn, mae'r sector hefyd yn creu cyfoeth pellach drwy brynu nwyddau o sectorau eraill a gwariant aelwydydd, gyda chyfanswm o ôl troed o 8,032 o swyddi a throsiant o £234m ar ôl ystyried effeithiau lluosydd.
- 5.4** Mae'n ymddangos bod sector y Celfyddydau yn ei gyfanrwydd yn ffynnu, gyda thwf cryf mewn incwm a gwerth ychwanegol gros (GVA), ac ar gyfraddau uwch na gweddill yr economi.
- 5.5** Er hyn, nid yw'r twf hwn yn gyffredinol, ac mae'n debygol bod llawer o sefydliadau yng Nghymru yn cyfyngu, yn defnyddio arian wrth gefn neu'n dibynnu ar gyfalaf gweithio er mwyn llenwi'r bwlch, neu'n lleihau eu costau a'r gwasanaeth a gynigant.
- 5.6** Mae cynyddu gallu'r sector i ymdopi, felly, yn flaenoriaeth, gan ganfod cydbwysedd newydd mewn ffrydiau incwm a sefydlogi incwm. Ceir llawer o enghreifftiau o arferion gorau, sy'n helpu sefydliadau i ganfod pa ymyriad sy'n briodol (Rhaglen Wytwnch Portffolio Celfyddydol Cymru), yn ogystal â sefydliadau'n rhannu eu harferion gorau eu hunain (Talu'r Hyn a Ddewiswch). Cynnig atebion perthnasol i rai rhannau o'r sector yn unig a wna rhai o'r atebion hyn, fel optimeiddio gwerthiant tocynnau neu optimeiddio asedau.
- 5.7** Y mae arwyddion bod y sector yng Nghymru, mewn rhai ffyrdd, wedi'i gynorthwyo'n well nag yn Lloegr, gydag awdurdodau lleol yn darparu cyllid o £7.60 y pen yng Nghymru, o gymharu â £2.16 yn unig yn Lloegr yn 2015/16¹¹.
- 5.8** Mae angen buddsoddi yn y sector at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys mentrau newydd, prosiectau newydd, prosesau newydd, adeiladau newydd, ymchwil a datblygu a chyfalaf gweithio. Yn aml, bydd sefydliadau'r celfyddydau yn methu â diwallu anghenion buddsoddi, a bydd angen cymorth allanol arnynt, drwy grantiau yn bennaf, gan nad oes gan y rhan fwyaf y modd i ad-dalu benthyciadau. Cynigir yr her i gyllidwyr grant p'un a ydynt yn brynwyr neu'n adeiladwyr, a'r syniad sydd y tu ôl i'r cwestiwn yw y dylai arferion cyllido gael eu cydbwysu o'r newydd er mwyn cynnwys cyllidebau wedi'u neilltuo ar gyfer buddsoddi.

¹⁰

Nesta (2016) Cultural Policy In The Time Of The Creative Industries

¹¹

Arolwg o Bartneriaethau a Buddsoddi Celfyddydol Awdurdodau Lleol Cymru 2015

12

www.artspromotional.
co.uk/magazine/article/
training-future-workforce

- 5.9** Er bod y sector yn dibynnu ar gymorthdaliadau, y mae'n werth cofio ei fod yn cyfrannu gwerth i weddill yr economi drwy effaith lluosydd a gorlifo, fel gwariant ymwelwyr. Mae gwariant yn y gadwyn gyflenwi ac mewn aelwydydd yn y Celfyddydau yng Nghymru yn ychwanegu £0.99 yn ychwanegol mewn gwerth ychwanegol gros (GVA) am bob £1 yn sector y Celfyddydau. Ceir elfennau eraill o orlifo yn nhermau enillion posibl i gynhyrchiant, arloesedd ac economi ymwelwyr. Mae gweithlu'r Celfyddydau yn cael eu talu'n dda ac mae ganddynt addysg dda o gymharu â gweddill yr economi, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu y caiff eu hanghenion hyfforddiant eu diwallu'n well hefyd. Er hyn, mae'r cynnig hyfforddiant wedi'i feirniadu, gan ddweud y caiff ei arwain ormod gan y cyflenwyr a'i fod oddi ar y silff, yn hytrach na bod yn bwrpasol ac ymatebol i alw cyflogwyr (a gweithwyr hunangyflogedig).¹²
- 5.10** I ymchwilyr, mae bylchau nodedig yn y wybodaeth yn gyffredinol yn y sector, ac mae bylchau penodol yn nhermau dealltwriaeth o'r galw am hyfforddiant a'r galw am gyllid. Yn ymarferol, eir i'r afael â hyn drwy brofi syniadau i ganfod yr hyn sy'n gweithio orau, ond mae bylchau yn y cymorth o hyd, ac ar y cyfan ni wyddom p'un a yw'r bylchau yn cau neu'n cynyddu. Hefyd, prin yw'r data swyddogol sydd ar gael ar y Celfyddydau yng Nghymru, ac mae llawer o hyn o ganlyniad i gloddio set ddata fawr at ddiben rhyfeddol o benodol (0.3 y cant yn unig o economi Cymru yw'r Celfyddydau). Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ddata cyfoethog am sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru a gynorthwyir ganddynt a byddai rhyddhau'r wybodaeth hon ar ffurf amrwd yn helpu i ateb llawer o gwestiynau ymchwilyr. Er hyn, y safon aur o ran data'r sector fyddai arolwg pwrpasol o'r holl sefydliadau celfyddydol, gan fod data sefydliadau a gynorthwyir wrth natur am fod yn gyfyngedig.

Cyflwyniad

- 5.11** Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y themâu sy'n gysylltiedig â maes rhedeg busnesau yn sector y celfyddydau, gan gynnwys maint y cyfraniad economaidd (4.1), y gofynion sgiliau sy'n newid (4.2), wynebu heriau yn ymwneud â sicrhau incwm refeniw (4.3) a'r cyflenwad a'r galw am gyllid (4.4). Mae llawer o'r adran hon yn edrych ar dystiolaeth cyfres amser ONS ar gyfer y Deyrnas Unedig, gyda thablau ar gyfer rhanbarthau ystadegol gan gynnwys Cymru a dadansoddiad yn ôl sector, gan gynnwys y Celfyddydau (SIC 90). Mae'r rhain yn darparu dull cyson dros amser er mwyn ystyried tueddiadau yn eu herbyn, ond amcangyfrifon ar sail arolygon yn unig a geir ohonynt. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos adrannau economi busnes a sgiliau, lle mae modd i ddata a gesglir ar yr economi cyfan gael ei gymharu â pherfformiad yn y Celfyddydau. Ym meysydd cyllid refeniw a chyllid buddsoddi, mae'n rhaid dibynnu ar ddata Cyngor y Celfyddydau, ond mae hyn yn ddibynadwy iawn er nad yw'n cynnwys sefydliadau celfyddydol sydd heb eu cynorthwyo. Mae ffynonellau perthnasol o ddata yn cynnwys:
- Arolwg Blynyddol i Fusnesau (ABS) – yn darparu amcangyfrifon o Gyflogaeth, Trosiant a Gwerth Ychwanegol Gros yn y Deyrnas Unedig.
 - Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth y DU (BRES) – yn cynnig gwell amcangyfrif o gyflogaeth ym Mhrydain.
 - Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) – yn rhoi amcangyfrifon o oriau a weithir a chyfraddau cyflogau.
 - Arolwg Sgiliau Cyflogwyr (ESS) – yn holi cyflogwyr ar sgiliau eu gweithlu, bylchau sgiliau, swyddi gwag ar sail prinder sgiliau ac ati.
 - Amcangyfrifon Poblogaeth Busnesau (BPE) – yn rhoi dadansoddiad bandiau maint ac amcangyfrifon o'r niferoedd sy'n hunangyflogedig.

- Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) – arolwg aelwydydd sy'n cynnwys cwestiynau Arolwg o'r Llafurlu ac yn ystyried lefelau sgiliau
- Arolwg Gwariant Teuluoedd (FSS) – arolwg aelwydydd sy'n edrych ar wariant teuluoedd, gan gynnwys defnydd o ddiwylliant
- Set ddata lawn Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr – cyflwyniadau data amrwd y Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol

13

Weithiau mae'r arsylwadau mor brin fel y caiff y data ei gadw'n gudd, a lle y mae ar gael mae i'r amcangyfrifon gyfyngau hyder mawr.

5.12 Crynodeb cyffredinol fyddai mai prin yw'r sylfaen dystiolaeth ystadegol ar gyfer Cymru, o ran economi busnes a'r proffil sgiliau. Yn ystadegau swyddogol yr ONS, y rheswm am hyn yw mai prin iawn yw'r arsylwadau sydd i ddadelfennu yn ôl rhanbarthau a sectorau penodol¹³. Er bod i arolygon fel ABS ragor na 60,000 o arsylwadau, annibynadwy fyddai'r amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd bach a sectorau bach fel y Celfyddydau. Mae data ar berfformiad ariannol y sector ar gael ar ffurf cyflwyniad blynyddol Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Lloegr, ond nid oes data tebyg ar gael yn gyhoeddus gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Allbwn cyffredinol y sector a'i gydrannau

5.13 Mae modd edrych ar gyfraniad y Celfyddydau i economi Cymru o safbwynt cyfraniad y sefydliadau eu hunain, a gaiff ei fesur yn nhermau cyflogaeth, trosiant a gwerth ychwanegol gros. Serch hynny, byddai canolbwyntio ar y tri budd economaidd uniongyrchol hyn yn unig yn anwybyddu'r ffaith bod sefydliadau'r Celfyddydau hefyd yn cyfrannu at weddill yr economi, gan greu buddion anuniongyrchol drwy eu pryniadau a buddion ysgogedig drwy wariant aelwydydd.

5.14 Mae'r Arolwg Blynyddol i Fusnesau (ABS) yn ffynhonnell safonol unigol i wneud sylwadau ar dueddiadau yn y Deyrnas Unedig ar sail Trosiant a Gwerth Ychwanegol Gros, ac mae'n bwynt cychwyn arferol i asesu maint unrhyw sector. Mae'r ABS yn darparu cyfres amser o 2008, gan gynnig ciplun o'r sefyllfa cyn y dirwasgiad er mwyn inni gymharu lefelau presennol yn ei erbyn. Mae'r cyflwyniad cychwynnol hwn o economi busnes sy'n deillio o'r ABS yn cynrychioli'r buddion economaidd uniongyrchol a ddaw o'r busnes ei hun, a dyma a drafodir yn gyntaf. Wedi hynny, trafodir cyfanswm y cyfraniad economaidd ar ôl ychwanegu effeithiau lluosydd ac effeithiau eraill sy'n gorlifo, yn arbennig rhai sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr.

5.15 Problem gychwynnol mewn unrhyw astudiaeth o'r fath yw nad yw ôl troed y Celfyddydau wedi'i ddarlunio'n daclus mewn dosbarthiadau ystadegol swyddogol, a bod gorgyffwrdd o ran y diwydiannau creadigol a diwylliannol. Yn gyffredinol, yr egwyddorion o ran beth i'w gynnwys yw bod y gweithgaredd yn gymwys i dderbyn cymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i fod yn ymwneud â themâu ymchwil Adranau 3 a 4 o ran cynnal celf neu gynhyrchu celf i'w defnyddio gan gynulleidfaoedd¹⁴. Caiff gweithgareddau craidd y Celfyddydau felly eu rhoi gan ddau ddigid SIC 90, sy'n cynnwys: Y Celfyddydau Perfformio (90.01); Gweithgareddau Cymorth (90.02), Creu Artistig (90.03), a Gweithredu Cyfleusterau Celfyddydol (90.04). Mae'r diffiniad felly yn disgrifio gweithgareddau'r Celfyddydau, ond nid y diwydiannau diwylliannol na chreadigol. O ran cynnwys y diwydiannau creadigol, ein dull yw cydnabod y synergeddau â'r diwydiannau creadigol o ran ymwneud â'r sector gan gynnwys masnachu a rhannu datblygiad sgiliau.

14

Mae rhai astudiaethau hefyd yn cynnwys Cyhoeddi Llyfrau (58.11) a Recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth (59.2) ond byddem yn ystyried bod y rhain y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon. Yn yr un modd, mae canolfannau cysylltiedig eraill (Llyfrgelloedd ac Archifau (91.01), Gweithgareddau Amgueddfa (91.02), a Gweithredu Safleoedd Hanesyddol (91.03)) hefyd y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon.

- 5.16** Ar lefel atomig endidau unigol, her arall yw p'un a yw gweithgaredd y Celfyddydau wedi'i wahanu oddi wrth weithgareddau masnachol eraill (caffi ar y safte, cyfleusterau cynadledda ac ati) o ran cwmni celfyddydol sydd wedi cofrestru fel elusen ynghyd â chwmni masnachu ar wahân. Caiff allbwn llawer o sefydliadau celfyddydol felly eu tanbriso yn systematig.
- 5.17** Cafeat pellach yw bod data ar gael yn bennaf ar sail cyflogwyr a'u cyflogeion, ond gan gydnabod bod llawer o swyddi yn y sector yn rhai hunangyflogedig a nifer sylweddol o wirfoddolwyr.
- 5.18** Although ABS is a survey designed for the whole UK economy, with a very large dataset of 62,000 it ceases to be reliable below 2 digit SIC divisions in regions, and even at this level there are large confidence intervals. In 2014, Welsh data was available for Creative, arts and entertainment activities, but for GVA this resulted in an estimate of £25m± £18.4m.
- 5.19** Er y broblem hon wrth ddehongli data, y mae'n amlwg bod y sector wedi tyfu yng Nghymru, wrth i'r trosiant ddyblu o £63m i £123m rhwng 2008 a 2014.
- 5.20** Mae cyflogaeth yn sector y Celfyddydau yng Nghymru wedi cynyddu 38 y cant dros 2009-15, o gymharu ag 17 y cant ar draws gweddill Prydain. Dros yr un cyfnod hwn, 4 y cant yn unig fu twf cyflogaeth yng ngweddill yr economi. Mae cyflogaeth yn y sector hefyd yn gymharol isel, gan gyfrif am gyn lleied â 0.3 y cant o'r swyddi yng Nghymru. Ffactor arall sy'n nodweddu'r sector yw bod ynddi gyfran uwch o swyddi rhan amser, gyda 39.3 y cant o'r gweithlu yn gweithio'n rhan amser yn 2009, gan godi i 42.7 y cant yn 2015.

Tabl 5.1 Cyflogaeth ym musnesau'r Celfyddydau yng Nghymru

	2009	2015	y cant Newid 2009-15
Y celfyddydau perfformio	1,000	1,250	25 per cent
Gweithgareddau cymorth i'r celfyddydau perfformio	40	225	463 per cent
Creu artistig	500	900	80 per cent
Gweithredu cyfleusterau'r celfyddydau	900	1,000	11 per cent
Cyfanswm y Celfyddydau	2,440	3,375	38 y cant

Ffynhonnell: Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth ONS (2009-15), Dadansoddiad ERS

- 5.21** Darlun gwahanol iawn a geir wrth edrych ar dystiolaeth Portffolio Celfyddydol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd hefyd yn darparu data ar wirfoddolwyr. Yn arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru 2013/14, mae'r cyflwyniadau yn awgrymu mai gwirfoddolwyr yw 22 y cant o gyfanswm y gweithlu, gyda thwf o fwy na 25 y cant yn y gweithlu gwirfoddol. Ceir yr awgrym bod gwirfoddolwyr yn disodli staff â thâl, gyda 3 y cant yn llai o staff â thâl dros yr un cyfnod. Os yw hyn yn duedd, y mae'n nodedig o wahanol i ddata ABS ar gyfer y sector, a gallai fod yn ddim mwy na smotyn bach dros dro yn y darlun a geir yn sgil cymharu dau arolwg dilynol, ac y byddai edrych ar gyfres amser hwy yn datgelu'r tueddiadau mwy hirdymor. Byddai modd ymchwilio'n benodol hefyd i ba swyddi yr oedd y gwirfoddolwyr yn eu cymryd a ph'un a oeddynt yn llenwi swyddi a wnaed cynt gan gyflogeion. Er hyn, daeth yn stori yn y newyddion a adroddai'r feithiau, ond efallai mai achos o godi bwganod ydyw heb roi'r data mewn cyd-destun.

Cyd-destun adfer yn dilyn dirwasgiad yn y Deyrnas Unedig

5.22 Mae data llawer cyfoethocach ar gael ar gyfer y Deyrnas Unedig, yn ymwneud â nifer y sefydliadau, incwm a'r gwerth ychwanegol gros. Mae hyn yn cynnig naratif clir i'r sector, a effeithiwyd gan y dirwasgiad, ond sydd wedi adfer ers hynny a bellach yn perfformio'n llawer gwell na'r lefelau cyn y dirwasgiad. Roedd prif ffigurau'r sector yn dangos twf o 2 y cant mewn sefydliadau o gymharu â'r lefelau cyn y dirwasgiad, ond gwelwyd cynnydd o 34 y cant mewn incwm a chynnydd o 58 y cant mewn gwerth ychwanegol gros. Tyfodd cyflogaeth yn y Celfyddydau ym Mhrydain 17 y cant, o gymharu â 38 y cant yng Nghymru. Mae llawer i'r sector yn ei gyfanrwydd fod yn gadarnhaol yn ei gylch, felly, ac os yw cyflogaeth yng Nghymru yn gynrychioliadol o berfformiad fel arall, mae'n ymddangos bod y sector yn ei gyfanrwydd yng Nghymru yn ffynnu.

Tabl 5.2 Perfformiad sector y Celfyddydau yn y DU (2008-15)

	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	y cant Newid 2008-15
Sefydliadau	28,550	28,483	28,129	28,371	28,652	28,429	28,379	29,932	2 y cant
Incwm (£m)	7,403	6,446	6,329	7,085	7,457	8,367	7,933	9,911	34 y cant
Gwerth ychwanegol gros (£m)	3,305	3,348	3,039	3,633	3,796	4,072	3,985	5,214	58 y cant

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol i Fusnesau yr ONS (2008-15), Dadansoddiad ERS

5.23 Mater pwysig yw i'r sector hefyd ffynnu o gymharu â gweddill yr economi. Yn achos gweddill yr economi, un o'r prif storïau fu'r twf yn nifer busnesau llai, fel bod stoc busnesau wedi cynyddu 12 y cant dros 2008-15, a dim ond 2 y cant yn rhagor o fusnesau celfyddydol sydd.

5.24 Er nad yw nifer y sefydliadau wedi tyfu'n sylweddol, tyfodd incwm enwol y sector yn sylweddol rhwng 2008 a 2015. Yn 2015, incwm busnesau celfyddydol oedd £9.9bn, sy'n gynnydd enwol o 34 y cant ers 2008. Yn amlwg, mae'r cynnydd yn llai mewn termau real, ond dros yr un amser, cynnydd o 15 y cant yn unig a welwyd mewn trosiant ar draws sectorau ac eithrio gwasanaethau ariannol. Er hyn, fe wnaeth y dirwasgiad effeithio ar y sector, gydag incwm 2008 heb gael ei gyflawni tan 2012 ac mae cyfanswm yr incwm wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd wedi hynny.

5.25 Mae'r gwerth ychwanegol gros (GVA) yn cynrychioli'r gwerth economaidd a grewyd gan y sector ei hun ac yn dangos iddo gynyddu 58 y cant dros 2008-15, o gymharu â 28 y cant yn unig yng ngweddill yr economi, ac eithrio gwasanaethau ariannol. Mae modd arsylwi ar fater arall drwy edrych ar drosiant a gwerth ychwanegol gros gyda'i gilydd i gyfrifo maint y gwerth ychwanegol gros a grewyd am bob £1 o drosiant. Mae hyn yn dangos bod y sector yn gryfach o ran creu gwerth ychwanegol gros mwy uniongyrchol oddi mewn i sefydliadau. Yn 2008, roedd 44.6c am bob £1 o drosiant, ond erbyn 2015 roedd hyn wedi cynyddu i 42.6c am bob £1.

Effeithiau anuniongyrchol ac ysgogedig

- 5.26** Yn ychwanegol at effeithiau economaidd uniongyrchol y masnachu a wneir gan fusnesau celfyddydol, y mae buddion pellach yn gysylltiedig â gwariant anuniongyrchol ac ysgogedig y busnesau hyn. Mae buddion anuniongyrchol yn ymwneud â gweithgarwch prynu'r sefydliadau a'r graddau y mae eu pryniadau yn helpu i gynorthwyo busnesau eraill. Mae buddion ysgogedig, wedyn, yn rhoi hwb pellach i'r economi drwy wariant gan gyflogaeth. Cael eu hamcangyfrif bob amser a wnaiff y lluosyddion hyn ar gyfer y sector, ac nid eu cynhyrchu fel cyfres o ystadegau swyddogol, a daw rhywfaint o'r dystiolaeth orau ar gyfer y sector o adroddiadau'r CEBR.
- 5.27** Y lluosydd ar gyfer allbwn (yn debyg i'r lluosydd ar gyfer trosiant, ond nid yr un peth) yng Nghymru oedd 1.90, gyda £0.90 o fuddion anuniongyrchol ac ysgogedig am bob punt. Y lluosydd ar gyfer gwerth ychwanegol gros oedd £1.99, gyda £0.99 o fuddion anuniongyrchol ac ysgogedig am bob punt. Y lluosydd ar gyfer cyflogaeth oedd £2.38, gyda £1.38 o fuddion anuniongyrchol ac ysgogedig am bob punt. Y neges bwysig fan hyn yw y dylid ystyried gwerth economaidd y sector yn yr ystyr eang hwn o sut mae'r celfyddydau yn cysylltu â rhannau eraill o'r economi ac yn darparu buddion ychwanegol y tu hwnt i'w heffeithiau uniongyrchol.
- 5.28** Mae rhanbarthau Lloegr fel Dwyrain Lloegr a'r Gogledd-orllewin yn llwyddo i gadw mwy o'u gwariant yn y rhanbarth, gan awgrymu bod ganddynt economi sy'n fwy hunangynhwysol. Gallai hyn fod ar sail y cyflenwyr sydd ar gael, yn hytrach na diffyg ethos o 'brynu'n lleol'. Sut bynnag, byddai economi'r Celfyddydau yng Nghymru yn cael ei gryfhau gan amrywiaeth ehangach o gyflenwyr a'r arfer o brynu'n lleol, gan wella'r lluosydd.

Gorlifo Economaidd

- 5.29** Yn ychwanegol at rai o'r buddion cymdeithasol a drafodwyd yn Adran 3 (addysg, iechyd, cyflogadwyedd) a briodolwyd i'r celfyddydau, y mae hefyd yn bosib trafod effeithiau economaidd sy'n haws eu mesur. Cynigodd CEBR (2013)¹⁵ dri chyfraniad posibl: cynyddu cynhyrchiant y gweithlu; synergeddau cryf wrth i'r Celfyddydau gynorthwyo diwydiannau creadigol eraill; a buddion i'r economi ymwelwyr. Yn reddfod, mae modd derbyn cyfraniad ym mhob un o'r meysydd hyn a gellir gwneud rhai cysylltiadau diriaethol. Serch hynny, nid oes mesur dibynadwy o enillion cynhyrchiant na synergeddau a'r diwydiannau creadigol wedi'u dangos, tra bo effeithiau ymwelwyr yn cael eu mesur yn rheolaidd ar draws y sector.
- 5.30** Mae llawer o'r ddadl ynglŷn ag enillion i greadigrwydd yn ymwneud ag addysg gelfyddydol a phartneriaeth ag ysgolion, lle y gwneir cysylltiadau dyfnach â chyfranogwyr nag â chynulleidfaoedd cyffredinol. Mae'r syniad o ddatblygu gweithlu sydd â gwell meddwl creadigol gymaint yn bwysicach yn yr economi gwybodaeth newydd. Y mae wedi'i ddangos bod galluedd gwybyddol uwch yn 10 oed yn talu premiwm ar gyflogau yn 30, 34 a 38 oed¹⁶. O ran addysg gelfyddydol, caiff hyn ei ddangos gan enillion ar addysg uwch, wrth i raddedigion ennill premiwm o 35 y cant yn fwy na rhai heb radd¹⁷. Dangoswyd achosiaeth i ryw raddau, ond nid yw'n bosibl amcangyfrif y gwerth ar gyfer economi'r celfyddydau yn gywir.

15

Centre for Economics and Business Research. (2013). The Contribution of the Arts and Culture to the National Economy, (Mai), 114. Codwyd o'r fan hon: www.artscouncil.org.uk/media/uploads/pdf/CEBR_economic_report_web_version_0513.pdf

16

Crawford, C. and Cribb, J. (2013), 'Reading and maths skills at age 10 and earnings later in life: a brief analysis using the British Cohort Study', Centre for Analysis of Youth Transitions Impact Study: REPO3.

17

Arolwg o'r Llafurlu, ONS, (2012), Graduates in the Labour Market Report a dadansoddiad CEBR.

5.31 Yn naturiol, mae cysylltiadau rhwng y celfyddydau a chreadigrwydd a chaiff y rhain eu mesur gan CEBR, ond mae'r rhain eisoes wedi'i mesur mewn termau economaidd llwyr gan y lluosyddion. Yr awgrym o ran synergeddau â'r sector creadigol yw bod gorlifo'n digwydd, gan helpu i sbarduno ymarfer yn y sector creadigol drwy arloesedd wedi'i ysbrydoli gan y celfyddydau. Gall dylanwadau'r celfyddydau yn y fan hon gael eu priodoli'n glir, ond anoddach yw eu mesur.

5.32 Mae'r achos dros gyfraniad i'r economi ymwelwyr yn llawer cryfach o ran y gallu i fesur effeithiau a'r amledd y caiff hyn ei wneud, i sefydliadau unigol a sector y celfyddydau yn gyfan. Yn sail i'r effeithiau hyn y mae tybiaethau a gaiff eu gwneud o ymatebion i arolygon sy'n awgrymu i dwristiaid nodi mai mynd i atyniadau celfyddydol neu ddiwylliannol oedd y prif reswm dros eu hymweliad, neu fod hyn yn rhan bwysig o'u taith gan gynyddu hyd yr ymweliad. Mae'r gwaith dadansoddi yn dwyn ynghyd y nifer o ymwelwyr ychwanegol a gwyd o dwristiaeth a'u gwariant ar gyfartaledd, ac yn cyfrif hyn a lluosydd tuag at y sector.

5.33 Amcangyfrif o faint yr economi ymwelwyr o ganlyniad i'r celfyddydau¹⁸ oedd £860m yn 2011, gan godi i bron i £1bn, ar sail tystiolaeth 2013. Mae CEBR yn nodi mai Llundain sy'n derbyn llawer o'r budd hwn, ond mae'r twf hwnnw i'w weld y tu allan i'r brifddinas hefyd. Nid oes ymarferiad tebyg wedi'i gynnal ar gyfer Cymru, ond mae'r data i wneud hynny yn bodoli.

Cynnal eich Dadansoddiad o'ch Effaith Economaidd eich hun

5.34 Er ei fod yn galw am lawer o adnoddau, y mae'n bosibl i sefydliadau wneud eu Dadansoddiad o Effaith Economaidd eu hunain. Yn ei ffurf symlaf, mae'n golygu cymryd data perfformiad ariannol y sefydliad a gosod procsiau, gan ddefnyddio data eilaidd, ond gallai hyn hefyd gynnwys cyfrifiadau sy'n cymryd mwy o amser, i gyfrifo lluosyddion wedi'i llunio ar gyfer y sefydliad ei hun. Mae rhai canllawiau ar gael i helpu sefydliadau wneud hyn eu hunain¹⁹.

Lefelau sgiliau ym marchnad lafur y celfyddydau

5.35 Mae rhywfaint o werth mewn archwilio ffurf y farchnad lafur yn y Celfyddydau ymhellach cyn ystyried sgiliau a datblygu sgiliau. Yn anffodus, nid yw'r rhan fwyaf o'r data hwn ar gael ar gyfer Cymru, ac yn hytrach rhaid ffurfio dealltwriaeth ar sail arolwg mwy cyffredinol o'r Celfyddydau, ar sail gweddill economi'r Deyrnas Unedig. Y darlun eang fan hyn yw gweithlu sydd wedi'i addysgu i lefel uchel ac sy'n cael ei dalu'n dda, ond gan weithio'n bennaf yn hunangyflogedig neu mewn busnesau llai.

5.36 Mae amcangyfrifon poblogaeth BIS²⁰ yn dangos bod y sector wedi'i nodweddu gan gyfran uchel iawn o hunangyflogaeth, gyda 94.2 y cant o fusnesau'r celfyddydau yn y Deyrnas Unedig heb gyflogaeth, o gymharu â 75.9 y cant yng ngweddill yr economi. Caiff y cyferbyniad hwn ei fynegi'n glir ar ffurf cyfran yr unigolion sy'n gweithio yn y sector, lle mae 74.4 y cant yn gweithio i'w hunain, o gymharu ag 17.3 y cant yn unig yng ngweddill yr economi. Y goblygiadau o ran hyfforddiant yw bod y gweithlu yn bennaf yn gyfrifol am ei ddatblygiad sgiliau ei hun, yn hytrach na'i fod yn cael ei ysgogi gan gyflogwr.

5.37 Hefyd, nid oes cyflogwyr mawr yn y sector, o gymharu â 40 y cant yng ngweddill yr economi. Yn hytrach, mae cyflogaeth yn y sector wedi'i nodweddu gan weithio mewn busnesau bach a chanolig, yn arbennig micro-fusnesau, y gwyddom eu bod yn wynebu heriau wrth gael mynediad at hyfforddiant allanol ac yn dueddol o danfuddsoddi yn y maes hwn.

¹⁸ England, A. C. (2015). Contribution-of-the-arts-and-culture-sector-to-the-national-economy-CEBR-July-2015.pdf. Contribution of the Arts and Culture Industry to the National Economy, (July). Retrieved from www.artscouncil.org.uk/media/uploads/Contribution-of-the-arts-and-culture-sector-to-the-national-economy-CEBR-July-2015.pdf

¹⁹ www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/Measuring_the_economic_benefits_of_arts_and_culture.pdf

²⁰ Yng Nghymru, mae hyn ar gael ar gyfer sector eang y Celfyddydau, Hamdden a Diwylliant yn unig (SIC 90-96)

5.38 Er ei bod yn gweithio llai, mae'r gweithlu'n dueddol o ennill mwy, gyda chyfartaledd cyflogau blynyddol yn £32,029, o gymharu â £28,296 yng ngweddill yr economi (ASHE, 2015). Mae rhan o'r esboniad am yr enillion uwch yn gysylltiedig â phreimiwm graddedigion. Mae gan weithlu'r celfyddydau sgiliau uwch na gweddill y gweithlu ac mae ar yr un lefel ag eraill yn y sector creadigol. Yn ôl data yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, er mai 32 y cant yn unig o'r gweithlu cyfan sydd â gradd, mae gan 57 y cant o'r staff sy'n gweithio mewn amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd gymhwyster gradd, a 61 y cant o gyflogion cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol.

Datblygu sgiliau

5.39 Yn amlwg, mae gan weithlu'r celfyddydau lefel uchel o addysg, ond mae'r cymwysterau addysg uwch hyn yn aml yn gymwysterau lefel mynediad i lawer o swyddi, ac mae datblygu'r gweithlu wedi hynny yn her i gyflogwyr. Yn y pen draw, nid yw'r cyflenwad a'r galw yn cyd-fynd yn llwyr, gyda galw am hyfforddiant arbenigol, ond hyfforddiant generig, oddi ar y silff, a gaiff ei gynniog.

5.40 Mae tystiolaeth DCMS²¹ yn rhoi dadansoddiad inni o Arolwg Sgiliau Cyflogwyr (ESS) ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn y Deyrnas Unedig, sy'n awgrymu bod yr hyfforddiant a dderbynnir yn uchel mewn rhai rhannau o'r sector a bod y bylchau sgiliau yn is nag yn rhannau eraill o'r economi. Meddai fod busnesau yn y Diwydiannau Creadigol ychydig yn llai tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant mewnol neu allanol yn y 12 mis diwethaf, o gymharu â sefydliadau y tu allan i'r Diwydiannau Creadigol (63.4 y cant o gymharu â 65.9 y cant). Roedd hyn yn amrywio ar draws y sector, gydag 85 y cant o amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf, o gymharu â 24 y cant o fusnesu crefft. Ond y mae yn bell o fod yn sicr bod yr hyfforddiant hwn wedi'i dargedu ac yn berthnasol, er bod yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn dweud i fusnesau yn y sector nodi llai o broblemau o ran cyflogion yn ymgymryd â'u gwaith, gyda 12.0 y cant yn nodi bwlch sgiliau o gymharu â 15.6 y cant o fusnesau y tu allan i'r Diwydiannau Creadigol. Yn y pen draw, gallai'r sector wynebu heriau o ran canfod hyfforddiant priodol, ond mae'n ymddangos nad yw'n wynebu anfanteision cymharol o gymharu â gweddill yr economi.

5.41 Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yw'r Cyngor Sgiliau Sector sy'n gyfrifol am y sector ac mae'n cwmpasu ôl troed llawer mwy y diwydiannau creadigol yn gyfan. Fel corff sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr, y maent yn feirniadol o'r sefyllfa bresennol ac maent eisiau mwy o ddarpariaeth wedi'i harwain gan alw:

“Our sector does not use qualifications or accredited training to up-skill its workforce, but much of the funding available to employers, via initiatives such as Train to Gain, is linked to qualifications. CCSkills wants to change this. Our NSA is trying to solve a number of problems: the over-supply of further and higher education courses for performers and artists, with little provision that meets real skills gaps and employment needs; the lack of industry wide influence on higher and further education provision; and the lack of industry endorsed professional development frameworks across the sector.” ²²

21

DCMS (2015) Creative Industries: Focus on Employment. The employer skills survey provides publicly released data that is too generic (SIC 90-96) and consequently secondary sources are used instead in the rest of this section.

22

www.artspromotional.co.uk/magazine/article/training-future-workforce

23

ccskills.org.uk/supporters/
advice-research/article/
building-a-creative-nation-
putting-skills-to-work

- 5.42 Drwy waith newydd gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, datblygwyd prentisiaethau newydd i'r sector, i gynnig pwyntiau mynediad gwahanol, ar wahân i'r llwybr graddedig²³. Mae ffyrddau pwysig eraill o weithgarwch yn cynnwys: datblygiad proffesiynol, rheoli ac arwain, amrywiaeth, cyngor gyrfaoedd, addysg creadigrwydd mewn ysgolion, diwygio cymwysterau a sgiliau entrepreneuriaidd a'r angen am wybodaeth barhaus am y farchnad lafur, yn arbennig mewn perthynas â'r galw am sgiliau.
- 5.43 Mae'r pwynt olaf hwn yn berthnasol i sector y Celfyddydau yn benodol, lle byddai gwybodaeth am y farchnad lafur o safbwynt y galw yn ddefnyddiol, ac mewn ffurf wedi'i dadelfennu ar gyfer y Celfyddydau, yn hytrach nag ar gyfer y sector Creadigol trosfwaol, er mwyn gallu datblygu hyfforddiant sy'n berthnasol i'r sector.

Incwm i sefydliadau'r celfyddydau

- 5.44 Mae'r sector fel arfer yn dosbarthu ffynonellau incwm i dri chategori gwahanol: Incwm a Enillir, Incwm a Gyfrannir a Grantiau. Er bod y dadansoddiad yn 5.1 yn dangos cyfanswm incwm yn unig, y mae'n bosib edrych ar ffurftenni Cyngor y Celfyddydau ac elfennau eraill o ddata i wneud sylwadau ar gyfraniad cymharol y gwahanol ffynonellau incwm. Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r newidiadau dros amser ar gyfer elfennau incwm, gan gynnwys rhywfaint o ddadansoddiad yn ôl ffurfiau celf.
- 5.45 Caiff data Cyngor Celfyddydau Cymru ei gasglu gan y sefydliadau cyfranogol, ond nid yw ar gael yn yr un ffurf hygyrch â data Cyngor Celfyddydau Lloegr. Byddai gosod y canlyniadau ar ffurf tabl mewn taenlen fel y gwna Cyngor Celfyddydau Lloegr, gan ddangos y colofnau o ddata ar gyfer pob cwestiwn ac ymatebion unigol gan bob Sefydliad Portffolio Cenedlaethol / Sefydliadau Refeniw mewn rhesi, yn caniatáu i ymchwilyr ac ymarferwyr sydd â diddordeb gwneud hynny i wneud eu dadansoddiad eu hunain. Tuedd yn y gymuned ymchwil yw cynnig rhyngwynebau pen blaen cymharol ddrud i ddata a thrawsdablau wedi'u rhaglennu ymlaen llaw, ond mae hyn yn cyfyngu ar fynediad ac yn cyfyngu ar allu i dreiddio i'r data. Gwell i'r celfyddydau yng Nghymru fyddai rhyddhau'r data amrwd mewn perthynas â chyfranogwyr Portffolio Celfyddydol Cymru.
- 5.46 Un fantais dadansoddi microdata yw'r gallu i weld cydrannau newid, i ddangos darlun manylach o'r sector, sy'n dangos cyfartaledd twf, ond sy'n cuddio cyfyngiad ar gyfer cyfran sylweddol o'r sector. Yn gyffredinol, roedd gan y 700 o sefydliadau a gynorthwyir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr incwm o £1.7bn yn 2014/15, sy'n dwf o £25m (1.5 y cant) ar y flwyddyn flaenorol. Ar y lefel hon, mae'r canlyniadau felly yn galonogol, ond 56 y cant o'r sefydliadau a gynorthwyir yn unig a welodd gynnydd yn eu hincwm. I'r rhai hyn a welodd gynnydd mewn incwm, roedd yr incwm ychwanegol yn gynnydd o £101m, sy'n 13 y cant o gynnydd. I'r rhai â welodd ostyngiad yn eu hincwm, cawsant £76m yn llai nag yn 2013/14, sy'n 8 y cant o ostyngiad. Wrth adrodd ar berfformiad, gallai adrodd y math hwn o ddadansoddi hefyd fod yn ddefnyddiol, ochr yn ochr â'r prif ffigurau, er mwyn dangos bod rhai sefydliadau yn wynebu heriau.

Dadansoddi yn ôl ffurfiau celf


- 5.47 Fel yn yr adran flaenorol, data ar gyfer Lloegr yn unig sydd ar gael yn hawdd yn ôl ffurfiau celf; gallai'r dadansoddiadau canlynol gael eu gwneud ar gyfer Cymru petai data Cyngor Celfyddydau Cymru ar gael. Mae sector y Celfyddydau yn cynnwys amrywiaeth eang o fusnesau. Mae rhai ar ben masnachol y sbectrwm (e.e. rhai theatrau) ac yn gallu talu'r costau'n llawn drwy incwm gan eu cynulleidfaoedd, ac mae eraill yn gweithredu mewn cyfrwng lle y disgwylir nwydd am ddim gan y gynulleidfa (e.e. oriel gelf) ac mae angen rhywfaint o gymhorthdal.

- 5.48** Daw'r data cyfoethocaf ar y sector o sefydliadau a gynorthwyr gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, sy'n cyflwyno cyfres amser safonol, a chyda 99 y cant yn ymateb a chyllid rheolaidd, y mae mwy neu lai'n arolwg panel. Y mae'n anochel bod dibynnu ar hyn yn golygu bod rhai o'r darparwyr mwy masnachol heb eu cynnwys, gan greu darlun anghywir o'r sector, sy'n awgrymu mwy o ddibyniaeth na'r sefyllfa go iawn. Er hyn, mae canlyniadau'r astudiaeth gymharol fawr hon yn cyfateb i ganfyddiadau eraill ynglŷn â chyfanswm incwm a'r gwahanol ffynonellau incwm.
- 5.49** Yn y sector, caiff manylion eu cyflwyno yn gyffredinol ar gyfer rhai o'r prif gyllidwyr ac wedyn y gyfran o'r incwm a enillir o werthiant gwasanaethau, ac incwm a gyfrannir a ddaw o ganlyniad i roddion (unigolion a chorfforaethau) lle na chafodd gwasanaeth ei ddarparu.
- 5.50** Mae data gan Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr yn dangos i gyfanswm yr incwm, ar draws y tair blynedd rhwng 2012/13 a 2014/15 gynyddu 2.9 y cant yn unig, a bod yr incwm a enillir wedi cynyddu 5.2 y cant. Roedd yr incwm a gyfrannir hefyd wedi cynyddu 8.2 y cant gan awgrymu ymateb da gan y cyhoedd i wneud yn iawn am yr hyn fyddai fel arall yn ddiffyg. Roedd arian cyhoeddus wedi lleihau yn gyffredinol, gyda chymorthdal awdurdodau lleol yn gostwng 12.8 y cant a chymorthdaliadau cyhoeddus eraill yn gostwng 7.1 y cant. Mae toriadau o'r llywodraeth ganolog wedi effeithio ar y rhan fwyaf o gyllidebau i gefnogi cyflenwi yn y rheng flaen.
- 5.51** Mae data Cyngor Celfyddydau Lloegr hefyd yn rhoi manylion y gwahanol gyfrannau incwm yn ôl math o ffurfiau celf. Ar draws yr holl ffurfiau celf, roedd cyfartaledd lefel yr incwm a enillir yn fwy na 50 y cant ac roedd yn agos iawn i 50 y cant yn achos pob ffurf ar gelf, ac eithrio rhai o'r grŵp amrywiol (13 y cant) a'r celfyddydau gweledol (34 y cant). Mae'r cydbwysedd incwm yn cael ei geisio o ffynonellau eraill, ac mae cymorthdal awdurdodau lleol yn amrywio o 1.0 y cant yn unig (heb ffurfiau celf penodol) i 8.9 y cant (y celfyddydau gweledol), ac incwm a gyfrannir yn amrywio o 9.0 y cant (Dawns) i 16.8 y cant (Theatr) a chyllid arall yn gyffredinol is, o 0.5 y cant (Theatr) i 16.6 y cant (heb ffurfiau celf penodol). Wrth gwrs, mae cyfraniad Cyngor Celfyddydau Lloegr rywfaint yn uwch na'r sefyllfa go iawn yn y dadansoddiad hwn, ond dyma sy'n talu'r gwahaniaeth, gyda chyfraniadau rhwng 23.6 y cant (Theatr) a 58.3 y cant (heb ffurfiau celf penodol).

Incwm a enillir

- 5.52** Mae incwm a enillir yn cynnwys trafodion untro yn gysylltiedig â thocynnau, pryniadau gan ddefnyddwyr, a gwerthu i fusnesau, ynghyd â rhai contractau gwasanaeth, yn arbennig at ddiben addysg. Fel uchod, mae'r dadansoddiad canlynol yn defnyddio data Lloegr, ac o gael mynediad at setiau data Cyngor Celfyddydau Cymru gallai hyn gael ei wneud ar gyfer Cymru.
- 5.53** Rhwng 2013/14 a 2014/15, roedd yr incwm a enillir wedi codi 3.5 y cant ar draws Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr. Unwaith eto, fel yn achos y prif ffigurau, nid oedd hyn yn wir yn gyffredinol, gan mai 56 y cant yn unig a welodd gynydd. Unwaith eto, wrth dreiddio i lawr i'r cydrannau newid, gwelir bod y rhai a dyfodd wedi cynyddu gan £77m (13 y cant), a bod incwm y rhai a gyfyngodd wedi gostwng £45m (-15 y cant).

- 5.54** Ffordd arall i ystyried incwm a enillir o safbwynt defnyddwyr yn unig yw symud oddi wrth arolygon y cyllidwyr eu hunain ac ystyried y swm mae aelwydydd yn gwario ar y celfyddydau. Mae Arolwg Gwariant Teuluoedd yr ONS yn adnodd safonol i archwilio gwariant aelwydydd, ond y mae'n defnyddio categori ychydig yn fwy, sef hamdden a diwylliant, gan gynnwys math tebyg o wariant hamdden dewisol, ond ar fasged ychydig yn wahanol o nwyddau.
- 5.55** Gwelwyd gostyngiad nodedig mewn gwariant ar hamdden a diwylliant yn dilyn y dirwasgiad (2008-10), gan adfer i lefelau uwch na'r lefelau cyn y dirwasgiad mewn termau real erbyn 2011, ac mae hynny wedi parhau. Mae'r gwariant aelwydydd enwol yng Nghymru ar hamdden a diwylliant yn dangos cynnydd o £52.60 i £61.50, sef cynnydd o 17 y cant, gan dyfu'n gyflymach na chyfartaledd Lloegr, sy'n parhau i fod yn uwch ar £64.30, ond a dyfodd 10 y cant yn unig dros yr un cyfnod, ac sy'n uwch na Llundain, er syndod, ar £60.50.



Ffigur 5.1 Gwariant wythnosol ar hamdden a diwylliant, 2006-13 (prisiau 2013) [Arolwg Gwariant Teuluoedd y DU, ONS]

Grantiau

- 5.56** Gan gyllidwyr y ceir y data cyfoethocaf ar grantiau, er mai adrodd ar 'enillwyr' yn unig a wna hyn, yn hytrach nag ymgeiswyr aftwyddiannus. Er hyn, mae data Cyngor Celfyddydau Lloegr ac awdurdodau lleol yn drylwyr iawn ac yn rhoi darlun o'r adnoddau sydd ar gael i'r sector yn Lloegr.
- 5.57** Caiff arolwg rheolaidd ei gynnal o awdurdodau lleol ar ffurf Arolwg Buddsoddi a Phartneriaeth Celfyddydol Awdurdodau Lleol Arts Development UK / Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r canfyddiadau yn 2015/16 yn dangos rhywfaint o ddargyfeirio rhwng Cymru a Lloegr. Nid yn unig y maent yn cyllido a ffurfio eu hecosystem celfyddydol lleol yn sylweddol, ond maent yn aml hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â weithrediadau canolfannau a gwasanaethau yn yr ardal lleol. Yr her gyffredinol i awdurdodau lleol yw nad yw hyn yn wasanaeth statudol lle maent yn wynebu'r her o gyrraedd targedau ac felly mae'r gwasanaeth mewn rhai achosion wedi dod i ben, gan ryddhau'r adnoddau ar gyfer yr adrannau hynny sy'n gorfod darparu gwasanaethau statudol (e.e. trafniadaeth, gofal cymdeithasol ac ati). Ym mis Awst 2015, roedd 136 o awdurdodau yn Lloegr (39 y cant) heb swyddog penodol i'r celfyddydau na gwasanaeth celfyddydol uniongyrchol, a dim ond dau wasanaeth yng Nghymru (9 y cant), gan awgrymu mwy o wytnwch o ran cynnal gwasanaeth yn wyneb caledi.

- 5.58** Y ffordd orau o ddehongli newidiadau mewn cyllidebau yw ar sail gwariant y pen ar y celfyddydau. Yn Lloegr, bach iawn fu'r newid, o £2.17 yn 2014/15, i £2.16 yn 2015/16. Ond yng Nghymru, mae'r newidiadau cymharol yn fwy llym, gyda chwymp o 13 y cant o £8.74 yn 2014/15 i £7.60 yn 2015/16. Gan ystyried yr un panel o ddeg awdurdod yng Nghymru a ymatebodd i arolygon yn 2013/14-2015-16, mae'r gyllideb ar gyfartaledd wedi gostwng 32 y cant, o gyfartaledd o £780,000 i £530,000.
- 5.59** Staffio a chostau gweithredu canolfannau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngorau sy'n cyfrif am lawer o'r costau hyn. Cynyddodd gwariant ar ganolfannau a reolir yn uniongyrchol o 37 y cant i 45 y cant, efallai am fod eu canolfannau eu hunain yn ei chael yn anoddach dod o hyd i gyllid o fannau eraill. Roedd i hyn oblygiadau o ran adnoddau i ganolfannau eraill, gan olygu bod cyfran is o'r gyllideb lai yn mynd i Gyngor Celfyddydau Lloegr / Portffolio Celfyddydol Cymru (18.6 y cant i 15.7 y cant) a sefydliadau eraill (10 y cant i 5.1 y cant). Gwelwyd gostyngiad hefyd o 6.3 y cant i 2.8 y cant yng nghyllidebau'r Celfyddydau Cymunedol.

Cyllid prosiectau a chyllid amgen

- 5.60** Yn ychwanegol at sicrhau referniw parhaus i gynnal gwasanaethau craidd, mae sefydliadau'r Celfyddydau hefyd yn ymwneud â phrosiectau eraill sydd wedi'u cyfyngu o ran amser, y gallai fod angen eu cynorthwyo'n ariannol. Bydd rhywfaint o'r gweithgarwch dewisol wedi'i gyfeirio'n benodol at gyflawni canlyniadau addysgol, iechyd neu eraill, ond cânt eu hariannu fel arfer gan grant ychwanegol a fydd wedi'i neilltuo at y diben hwn.
- 5.61** Mae bondiau effaith gymdeithasol yn faes newydd o bolisi lle y caiff cyllid ei ddarparu yn amodol ar gyflawni canlyniadau cymdeithasol. Ni fu llawer o brofi ar hyn yn y celfyddydau, er inni yn Adran 4 nodi rai gwelliannau mewn canlyniadau a ddeilliai o ymyriadau celfyddydol ac yn y pen draw gallai hyn ddatblygu i fod yn ddull o gyllido rhai agweddau ar y celfyddydau, er mai drwy waith prosiect fyddai hynny yn hytrach na chyllid craidd.
- 5.62** Caiff Cronfa Her i'r Celfyddydau yng Nghymru ei lansio cyn hir, sy'n adeiladu ar Fond Lles Cymru CGGC. Cynllun cyllido ar sail canlyniadau fyddai hwn, a byddai'n cynnig cyfleoedd newydd i'r sector ddarparu ffynhonnell referniw arloesol ac archwilio'r cysylltiadau rhwng gwell canlyniadau cymdeithasol a chyfranogi yn y celfyddydau.

Effeithiau oddi mewn i'r sector

- 5.63** Pan fo cynnal y celfyddydau yn wynebu heriau ariannol, gall eu rôl yn y gadwyn gyflenwi hefyd gael ei ystyried yn nhermau sut gallant barhau i weithio gydag artistiaid yn yr adegau hyn. Mae gwell data'n bodoli ar gyfer canolfannau na chyflogeion unigol sy'n gweithio yn y sector ac mae cymhlethdodau ynghlwm wrth ddehongli data yn absenoldeb pwyntiau cyfeirio sefydlog a chyfres amser.
- 5.64** Un ffynhonnell o dystiolaeth yw data lleol ein hadroddiad blynyddol, Economic Impact of Newcastle Gateshead Cultural Venues. Wrth gyfrifo'r effaith economaidd, gofynnir am amrywiaeth eang o ddata gan yr aelodau sy'n cynnwys gwerth contractau gydag artistiaid a thechnegwyr. Bu'r un canolfannau yn aelodau ar draws yr amser hwn, felly mae hyn yn dangos y newidiadau yn eu hymddygiad prynu. Mewn termau enwol, gwelwyd cynnydd bach mewn incwm dros y cyfnod hwn, ond yn bwysicach i artistiaid, mae eu cyfran hwy wedi cynyddu, gan olygu bod gwerth yn cael ei drosglwyddo drwy'r gadwyn gyflenwi.

Tabl 5.3 Gwariant yn y gadwyn gyflenwi ar artistiaid

	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Gwariant ar artistiaid	£8,529,224	£7,901,712	£7,442,482	£9,674,266	£8,204,132	£11,251,872	£10,889,272
Incwm	£60,936,756	£62,841,240	£53,589,166	£57,513,341	£55,880,551	£60,669,221	£62,249,067
Cyfran yr artistiaid (y cant)	14.0 y cant	12.6 y cant	13.9 y cant	16.8 y cant	14.7 y cant	18.5 y cant	17.5 y cant

Source: ONS Annual Business Survey (2008-15), ERS Analysis

Cynyddu ac amrywio ffynonellau incwm

²⁴
www.missionmodelsmoney.org.uk/sites/default/files/28029099-Case-Story-Part-1-How-a-group-of-organisations-can-grow-income-streams-MMM-2010_3.pdf

- 5.65** Mae cyngor gan Missions Models Money²⁴ yn cyflwyno pum syniad ar sut gall ymddygiad sefydliadol gael ei newid i amrywio neu gynyddu llif arian. Gall y rhain a syniadau eraill fod rywfaent yn anghynhwysol, gan nad ydynt yn addas i'r rhan fwyaf o sefydliadau sydd heb lawer o dir ac adeiladau neu eiddo deallusol.
- 5.66** Mae'r adran fer ar incwm a gyfrannir yn dangos na wnaeth 19 y cant o Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr gofnodi unrhyw fath o roddion, ni wnaeth 23 y cant ohonynt dderbyn unrhyw roddion gan Ymddiriedolaethau ac ni dderbyniodd 51 y cant unrhyw arian drwy nawdd. Mae unrhyw arian a geisir drwy ddyngarwch yn galw am amser ac ymdrech, sy'n bosibl mewn sefydliad mwy sydd ag adnoddau wedi'u neilltuo. Nid oes gan sefydliadau llai yr adnoddau na'r arbenigedd i gael gafael ar gyllid o'r fath, gan arwain at y syniad o ymdrech ar y cyd a chydgrynhoi adnoddau ar draws aelodau.
- 5.67** Mae arbenigedd marchnata ac eiddo deallusol yn ffyrdd eraill i ennill incwm. Os yw sefydliadau yn berchen ar waith wedi'i gomisiynu, gallant fanteisio ar yr ased hwn drwy drwyddedu, er y gall hyn fod yn anodd yn ymarferol.
- 5.68** Er peth amser, bu datblygu cynigion newydd i gwsmeriaid ar ffurf caffis a siopau yn strategaeth lwyddiannus i lawer o sefydliadau, a gallai fod ychydig o gyfleoedd i fanteisio ymhellach yn hyn o beth.
- 5.69** Gall caffael portffolio o eiddo buddsoddi ddarparu ffynhonnell incwm wahanol, ond mae hyn yn anodd am ei fod yn galw am warged digonol, ac mae hefyd yn arwain at broblemau newydd o ran mwy o waith cynnal chadw, yswiriant, dod o hyd i denantiaid a rheoli'r eiddo.
- 5.70** Mae cydweithio hefyd yn bosibl er mwyn archwilio ffrydiau incwm newydd. Gall hyn fod oddi mewn i'r sector neu mewn sectorau eraill, fel partneriaethau ag addysg wrth ddatblygu a chyflenwi cyrsiau newydd, sy'n darparu incwm ychwanegol i'r ddau barti.
- 5.71** Mae perfformiadau â thocynnau yn cynnig sawl cyfle gwahanol i ennill mwy, yn bennaf drwy werthu niferoedd uwch o docynnau a thynnu mwy o werth o werthiant. Dwy enghraifft dda yw ARC Stockton ac LSO Student Pulse.

- 5.72** Un syniad ar gyfer tocynnau yw mabwysiadu model Talu'r Hyn a Ddewiswch, sy'n ymateb i agenda ariannol a chynhwysiant cymdeithasol. Drwy waredu prisiau sefydlog, mae'n bosibl i rai ar incwm is gael mynediad, a gall hefyd ddenu mwy o werth gan y rhai a all gyfrannu mwy. Mewn ymarferiad a gynhaliwyd gan ARC Stockton, gwelwyd bod cynulleidfaoedd wedi cynyddu 34.5 y cant, incwm gan 52 y cant, cyfartaledd enillion tocynnau gan 32 y cant a chynulleidfaoedd newydd gan 31 y cant, a chafodd y prawf chwe mis ei ymestyn.
- 5.73** Mae Shifft yng Nghymru (ac LSO Student Pulse yn Lloegr) yn cynnig gostyngiadau i fyfyrwyr, rhoddion a buddion eraill er mwyn rhoi diagnosis o'u problemau a chyfluo eu hatebion arfaethedig i gyllidwyr. Mae hyn yn rhagdybio bod gan y sefydliadau y gallu rheoli i ymgymryd â'r fath ymarferiad eisoes. Y mae hefyd yn rhagdybio bod y cymorth a gynigir yn diwallu anghenion yr ymgeisydd. Ymateb i alw yw dull mentrau fel Rhaglen Wytwnwch Portffolio Celfyddydol Cymru o weithredu, drwy ganiatáu i'r sefydliad archwilio sut orau i'w helpu, a allai fod ar ffurf cyngor yn hytrach na chymorth ariannol.
- 5.74** Un sylw olaf yw bod llawer o'r dirwedd gynorthwyo yn galw am wybodaeth sydd bron yn berffaith am y sefydliadau er mwyn rhoi diagnosis o'u problemau a chyfluo eu hatebion arfaethedig i gyllidwyr. Mae hyn yn rhagdybio bod gan y sefydliadau y gallu rheoli i ymgymryd â'r fath ymarferiad eisoes. Y mae hefyd yn rhagdybio bod y cymorth a gynigir yn diwallu anghenion yr ymgeisydd. Ymateb i alw yw dull mentrau fel Rhaglen Wytwnwch Portffolio Celfyddydol Cymru o weithredu, drwy ganiatáu i'r sefydliad archwilio sut orau i'w helpu, a allai fod ar ffurf cyngor yn hytrach na chymorth ariannol.
- 5.75** Er bod pob un o'r syniadau hyn yn gweithio tuag at agenda o wella incwm, gall cyngor yn y maes hwn fod â ffocws sy'n rhy dynn, gan fethu â sylwi ar ganlyniadau anfwriadol sydd i fabwysiadu unrhyw rai o'r syniadau. Gall mabwysiadu gweithgarwch newydd a ffrydiau incwm ychwanegol achosi i sefydliadau'r celfyddydau gymryd cam i ffwrdd o'u cenhadaeth, wrth i'w diben creiddiol gael ei beryglu drwy ddilyn agenda creu incwm. Yn hyn o beth, gall fod yn gywir i reolwyr ac ymddiriedolwyr sefydliadau fod yn wylidwrus ynghylch effeithiau dilyn agenda o amrywio incwm a allai eu dadsefydlogi.

Buddsoddi

- 5.76** Tra bod yr adran flaenorol yn ymdrin â mater rheolaidd sicrhau referniw flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r adran hon yn ystyried yr angen am fuddsoddi'n ariannol yn y sector, a heriau codi arian sy'n gysylltiedig â hynny.
- 5.77** Mae natur hanfodol y sector, o fod yn ddibynnol iawn ar gymorthdaliadau am referniw, i'w gweld hefyd yn y galw am gyllid. Ac oherwydd y cyfyngiadau o ran referniw, gall fod anawsterau ar sail elw isel ac felly prinder arian wrth gefn a methiant i ailfuddsoddi gwargedau a'r angen am gyllid allanol. Mae anawsterau hefyd o ran llythrennedd ariannol, yn ogystal â materion llywodraethu ac agwedd ymddiriedolwyr.
- 5.78** Er mai pan fydd sefydliadau'n methu â chefnogi gweithgarwch o'u harian eu hunain yn unig y mae angen cyllid allanol, y mae tystiolaeth nad oes gan sefydliadau celfyddydol gronfeydd sylweddol wrth gefn a'u bod yn wynebu heriau llif arian sy'n golygu mai cyllid allanol yw'r unig opsiwn.

- 5.79 Yn gyffredinol, mae gwybodaeth am y cyflenwad a'r galw am gyllid i'r celfyddydau yn gymharol gyfyngedig, a phrin yw'r ymchwil i'r farchnad gyllid ar gyfer y sector. Caiff y sylfaen dystiolaeth wan ei hadlewyrchu yn agwedd strategaethau'r sector, sy'n cyflwyno cynigion a chynlluniau peilot i helpu i brofi a datblygu ffurfiau newydd o gyllid i sefydlu sylfaen o dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.
- 5.80 Rhannol yn unig yw ein hadolygiad o lenyddiaeth a rhaglenni cymorth, ond yr awgrym yw bod rhai o'r cronfeydd hyn yn arbennig o benodol (e.e. y Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol i'r Celfyddydau). Er ei bod yn ymddangos bod canlyniadau da i gynlluniau o'r fath, nid ydynt yn mynd i'r afael â buddsoddiadau mwy cyffredinol a nodweddiadol y mae pob busnes yn eu hwynebu. Ac i'r graddau bod bylchau mewn mynediad at gyllid, efallai ei fod yn ymwneud â materion llai diddorol fel cyfalaf gweithio ac adnewyddu ffabrig yr adeiladau, ac efallai bod bwlch arbennig mewn perthynas â chyllid i gychwyn busnesau newydd.
- 5.81 Mae'r sylfaen dystiolaeth wan hefyd yn golygu mai anodd yw mesur y galw am gyllid sydd heb ei ateb, ond yn sicr mae rhywfaint o fethiant yn y farchnad ac mae angen ymyriad pellach gan gyllidwyr cyhoeddus. Gallai rhywfaint o hyn fod ar ffurf modelau cyllido newydd, fel cyllido torfol cyfatebol neu Fondiau Effaith y Celfyddydau, sy'n cyfateb i fondiau effaith gymdeithasol.
- 5.82 Yn olaf, mae gwaith i'w wneud gyda busnesau'r celfyddydau eu hunain. Yn ôl gwaith ymchwil gan Mission Models Money, nid yw sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn dueddol o feddwl yn nhermau buddsoddi neu ddeinameg ariannol eu sefydliadau. Mae rhai o'r galwadau hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ryddhau cyfalaf gweithio, cyfalaf datblygu a darpariaeth ar gyfer y sefyllfa waethaf bosib o ddod â'r sefydliad i ben.

I beth y caiff cyllid ei ddefnyddio?

- 5.83 Man cychwyn defnyddiol yw ystyried y galw nodweddiadol sydd gan sefydliadau celfyddydol am gyllid, ac i beth y mae arnynt angen cyllid, yn hytrach na dechrau gyda chyflenwad cyllid.
- 5.84 Mae Art Impact Fund Nesta / Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi llwyddo i helpu nifer fach o sefydliadau'r Celfyddydau ar draws amrywiaeth o leoliadau a chanddynt amryw anghenion cyllid. Mae'r enghreifftiau hyn yn creu darlun i ddangos yr amrywiaeth eang o ddibenion y gallai cyllid gael ei ddefnyddio ar eu cyfer:
- Adnewyddu theatr a chyflwyno systemau gwresogi ynni adnewyddadwy
 - Cyllid pontio ar gyfer prosiect cyfalaf mewn canolfan newydd.
 - Cyfteuster credyd 24-mis i'w ddefnyddio i brynu eiddo.
 - Adnewyddu gofod oriel yn ogystal â diweddarau a newid defnydd gofodau manwerthu ac arlwyro er mwyn creu refereniw.
 - Costau gosod cyfarpar fel rhan o fenter lletygarwch masnachol sy'n berchen yn llwyr i elusen theatr
 - Cyfalaf gweithio cychwynnol i fenter trwyddedu eiddo deallusol fasnachol sy'n berchen yn llwyr i elusen oriel.
 - Cyfalaf datblygu ar gyfer canolfan gelfyddydol aml-ddiben sy'n gwmni deillio awdurdod lleol.
 - Adnewyddu eiddo i greu lleoliad ar gyfer rhaglen addysg newydd.
 - Cyfalaf gweithio cychwynnol i fenter cynhyrchu cynnwys digidol sy'n berchen yn llwyr i elusen theatr.

25

Mae Nesta yn cynnig nifer o gynlluniau ymchwil a datblygu, ac mae rhai ohonynt wedi'u targedu'n benodol at fusnesau celfyddydol yng Nghymru. Y Gronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru

5.85 Mae cronfeydd ymchwil a datblygu ar gael i'r sector hefyd²⁵ ac mae hyn wedi'i gyfiawnhau gan ei fod yn faes mawr o fethiant y farchnad, gan ei fod wrth natur yn cynnwys risg, gyda chanlyniadau ac enillion ansicr. Y mae cefnogi arbrofion yn golygu rhywfaint o fethiant, ond y mae'r llwyddiannau yn symud y sector yn ei flaen drwy dreialu syniadau arloesol na fyddai wedi eu hystyried fel arall.

5.86 Mae Capital Matters yn nodi bod angen mwy o ddata penodol er mwyn datblygu dealltwriaeth o amgylchiadau penodol yn ymwneud â gwahanol gamau yn eu cylchred oes, fel cychwyn neu dyfu, a gwahanol fathau o weithgareddau fel teithio neu addysg a hyfforddiant.

Cyfyngiadau yn nhirwedd fuddsoddi'r celfyddydau

26

Nesta (2014)
The New Art of Finance

5.87 Mae rhai o'r materion ym maes buddsoddi yn y celfyddydau yn ymwneud â chyfansoddiad y sefydliadau celfyddydol eu hunain. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar wneud elw ariannol, refeiwi cyfyngedig, cadw symiau gormodol o arian wrth gefn fel elusen, gwaharddiadau ar gael benthyc, a'r angen i greu menter newydd er mwyn galluogi buddsoddiad gan drydydd parti. Ond caiff ei gydnabod hefyd mai peth prin ydyw i bobl sy'n gweithio mewn sefydliadau celfyddydol elusennol lansio mentrau cwbl newydd mewn ffordd sy'n galluogi buddsoddiad gan drydydd parti²⁶. Mae angen i adnoddau (amser ac arian) gael eu neilltuo gan sefydliadau i wneud y trawsnewid hwn, neu fel arall byddant yn methu â manteisio ar rai o'r cyfleoedd sydd ar gael.

5.88 O safbwynt cyllidwyr, y mae'n glir y dylai grant gwmpasu gweithgareddau penodol a chefnogi'r gweithgareddau hynny yn hytrach na chaniatáu gwarged i'r sefydliad, ac mae hyn yn ffordd gyffredin o weithredu ar draws mentrau tebyg (e.e. Prifysgolion). Er hyn, o safbwynt sefydliadau, nid yw incwm a enillir drwy grantiau yn helpu i ddatblygu gwarged.

5.89 Gall refeiwi cyfyngedig fod yn anhawster pan ddaw rhyw gyfran o'r incwm o ffynonellau penodol a bod y ffynonellau hynny'n benodol ynglŷn â pha wariant a ganiateir. Er bod incwm a enillir yn cynnig rhywfaint o ryddid, efallai nad yw hynny'n wir yn achos grantiau gan y sector cyhoeddus ac ymddiriedolaethau, ac felly mae hyn yn effeithio'n anghyfrannol ar y rhai sydd â'r potensial lleiaf i ennill incwm.

5.90 Nid yn unig bod rhwystrau go iawn ar sail cyfansoddiad sefydliadau'r Celfyddydau, ond gall fod rhwystrau seicolegol hefyd, gyda rhai'n dweud bod ymddiriedolwyr yn rhy geidwadol a chynlluniau busnes yn rhy ofalus:

“The arts and cultural sector on the whole tends to exhibit an excess of conservatism in its business modelling, which may be a factor in precluding investment. Whilst business modelling designed to attract commercial venture investment can occasionally err on the side of exuberance, it would be detrimental for arts and cultural organisations to move too far in the other direction, and underexplore or undersell an idea to their Board and/or funders, thus potentially narrowing their financing horizons.”

5.91 Y mae rhai rhwystrau strwythurol sylfaenol hefyd, fel anallu'r sector i dderbyn gostyngiad confensiynol yn y dreth ar sail ymchwil a datblygu, o ystyried rheolau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, sy'n eithrio'r celfyddydau:

27

Corporation Tax: Research and Development tax relief

“Your company or organisation can only claim for R&D Relief if an R&D project seeks to achieve an advance in overall knowledge or capability in a field of science or technology through the resolution of scientific or technological uncertainty²⁷... Science does not include work in the arts, humanities and social sciences (including economics)”

28

Gov.UK Innovation

5.92 Ond yn fwy cyffredinol, mae'r ethos hwn yn bodoli ar draws y llywodraeth, fel bod cynlluniau arloesol i ddarparu grantiau i ymchwil a datblygu yn dilyn yr un egwyddor sylfaenol o gefnogi gwyddoniaeth a thechnoleg, ond nid y Celfyddydau²⁸.

Y galw am gyllid i'r Celfyddydau

29

Mission Models
Money Capital Matters
dadansoddiad o set ddata
NPO Cyngor Celfyddydau
Lloeg

5.93 Daw'r brif dystiolaeth o'r galw am gyllid i'r celfyddydau yn Lloegr o ddadansoddiad pwrpasol o arolygon Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr²⁹. Mae hyn yn cyflwyno tystiolaeth ar sawl cwestiwn pwysig gan ystyried i ba raddau y mae sefydliadau celfyddydol mewn cyflwr ariannol da. Mae'n ystyried cyfalaf gweithio, cyfalaf datblygu a chyfalaf wrth gefn, a mynediad at fuddsoddiad allanol.

5.94 Roedd lefelau cyfalaf gweithio yn isel iawn. Roedd y tebygolrwydd o feddu ar lai na 12 wythnos o arian parod rhwng 40 y cant a 70 y cant.

5.95 O ran cyllid allanol, cafodd hyn ei fynegi fel canran o drosiant, a oedd yn llai na 5 y cant yn achos y rhan fwyaf o sefydliadau, ac ystyriwyd bod hyn yn isel.

5.96 Mesur amrwd o'r gallu i ariannu eich hun yw cymhareb arian anghyfyngedig wrth gefn i drosiant. Ar draws y ffurfiau celf, mae bron i 70 y cant o'r sefydliadau yn meddu ar lai na 12 wythnos o drosiant mewn arian wrth gefn. Barn MMM oedd y byddai hyn yn galw am lefelau o o leiaf 12 wythnos i ddod â sefydliad i ben a mwy nag 20 wythnos er mwyn ymdopi â newid a chynnig rhywfaint o le i fuddsoddi'n ddiogel gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, a llai nag 20 y cant oedd yn y sefyllfa ffodus hon.

5.97 Mae hyn oll yn amrywio ar draws y ffurfiau celf, yn ymwneud yn uniongyrchol â sut maent yn gweithredu. Mae cwmnïau cerddoriaeth a dawns yn aml yn cadw grŵp o weithwyr proffesiynol fel cost sefydlog, sy'n gyrru'r angen am lefelau uwch o gyfalaf gweithio. Mae angen i gwmnïau Theatr a Dawns ymrwymo cyfalaf datblygu sylweddol i ddatblygu cynrychiadau newydd cyn bod modd iddynt dderbyn incwm. Mae angen llai o bobl ar y Celfyddydau Gweledol, a llai o gyfalaf gweithio o bosib. Bydd gan ffurfiau celf sydd â nifer fach o allbynnau sylweddol yn ystod y flwyddyn lif incwm afreolaidd iawn, a bydd arnynt angen cyfalaf gweithio i'w cario drwy'r misoedd main.

Cyflenwad cyllid i fuddsoddi yn y Celfyddydau

- 5.98** Wrth ystyried cyflenwad cyllid, mae grantiau unwaith eto yn fan cychwyn rhesymegol. Ond y mae'n dal i fod yn wir mai at ddibenion referniw ydynt yn bennaf, nid ar gyfer buddsoddi, ond mae'r ymchwil yn galw am ail-edrych ar y sefyllfa, gan awgrymu y dylai cyllidwyr ystyried ai 'adeiladwyr' neu 'brynwyr' ydynt. Dylai pob cyllidwr felly fyfyrto ar helpu i adeiladu gwytnwch ariannol sefydliadau y maent eisiau eu cynorthwyo, ochr yn ochr â'r cyllid referniw. Gallai hyn gynnwys datblygu cyllidebau wedi'u neilltuo a chreu cynlluniau newydd at y diben hwn yn benodol.
- 5.99** Pwynt pellach yn ymwneud â grantiau yw'r ffaith eu bod yn aml yn cael eu talu mewn ôl-daliadau sy'n golygu bod y sefydliadau celfyddydol, mewn ffordd, yn helpu llif arian y cyllidwyr. Unwaith eto, nid yw hyn yn anarferol ym myd ariannu cyhoeddus, ond byddai rhywfaint o hyblygrwydd o gymorth mawr i sefydliadau'r celfyddydau.
- 5.100** Yn yr achosion prin hynny lle mae disgwyl datblygu a photensial masnachol, cafodd y grantiau eu trawsnewid yn gynnyrch eraill, fel cytundebau rhannu elw, benthyciadau neu ecwiti.
- 5.101** Yn yr economi ehangach, benthyciadau fyddai'r dull arferol o geisio cyllid allanol, ond maent yn cyflwyno rhai problemau i sector y celfyddydau, o ran y ffaith mai prin yw'r cyllidwyr sy'n gwneud y fath gynnig a phrin yw'r sefydliadau sy'n ceisio hynny. Cynllun benthycy arferol, yn rhannol, yw'r Arts Impact Fund, sy'n cynnig ad-dalu'r cyfalaf a llog o 4-7 y cant y flwyddyn. Mae i'r benthyciad nodweddion pwysig i'r rhai sy'n cael benthycy, gan gynnwys cyfradd llog sy'n is na phris y farchnad, a'r ffaith ei fod yn fenthyciad ansicredig gan olygu nad oes angen cynnig unrhyw asedau yn sicrwydd.
- 5.102** Gwelwn y gallai cyfnod ad-dalu'r benthyciad o bum mlynedd fod yn rhy fyr a bod yr isafswm o £150,000 yn rhy uchel i lawer o sefydliadau llai. Er hyn, gallai cyfnodau ad-dalu hwy a symiau benthycy is effeithio ar hyfywedd y gronfa.
- 5.103** Y mae hefyd i'r benthyciad rai o agweddau bond effaith gymdeithasol, yn y ffaith bod angen rhywfaint o dystiolaeth o effaith gymdeithasol glir, sydd yn rhannol yn cyfiawnhau'r gyfradd llog is.
- 5.104** Caiff cyllido torfol hefyd ei drafod fel opsiwn i'r sector, yn arbennig cyfateb cyllid torfol gydag arian cyhoeddus ac mae Nesta yn cynnig cynorthwyo cynlluniau o'r fath ar hyn o bryd. Er nad yw wedi'i brofi, mae Nesta yn rhagweld³⁰ bod effeithiau y tu hwnt i gyllido, gan awgrymu y gallai fod elfennau'n gorlifo, o ran cael mynediad at rwydweithiau, sgiliau a gwaith gwirfoddol gan y dorf ei hun.

30

www.Nesta.org.uk/blog/matched-crowdfunding-arts-and-heritage-sectors#sthash.veS3Shjz.dpuf

Llyfryddiaeth

Amgueddfa Cymru - National Museum Wales (AC-NMW). (2016).

Pioneer Area Programme Pilot Year Evaluation Final Report. Retrieved from <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Andrews, K. (2014).

Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threfnadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Codwyd o'r fan hon: <http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-en.pdf>

Annabel Jackson Associates. (2015). *STRATEGIC TOURING PROGRAMME: FINAL EVALUATION REPORT TO ARTS COUNCIL ENGLAND*. Codwyd o'r fan hon: http://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/ST_Evaluation_Report_final_small.pdf

ARC, S. A. C. (2016). *Pay What You Decide -A Toolkit*. Codwyd o'r fan hon: http://arconline.co.uk/sites/default/files/images/ARC Stockton - Pay What You Decide Toolkit 2016_0.pdf

Cyngor Celfyddydau Lloegr. (2013). *Appetite (Stoke-on-Trent): Engaging Communities in Arts Events*. Codwyd o'r fan hon: http://www.creativepeopleplaces.org.uk/sites/default/files/EcorysCaseStudyCPP_Appetite.pdf

Cyngor Celfyddydau Lloegr.(2015a). *Arts Council England Rural evidence and data review*. Codwyd o'r fan hon: http://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/Rural_evidence_and_data_review.pdf

Cyngor Celfyddydau Lloegr. (2015b). *Equality, Diversity & the Creative Case: A Data Report, 2012-2015*. Codwyd o'r fan hon: http://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/Equality_Diversity_and_the_Creative_Case_A_data_report_2012-2015.pdf

Arts Council of New Zealand and Toi Aotearoa. (2015). *New Zealanders and the arts: Attitudes, attendance and participation 2014*. Codwyd o'r fan hon: http://www.creativenz.govt.nz/assets/paperclip/publication_documents/documents/391/original/new_zealand_and_the_arts_research_publication_-_final.pdf?1437364227

Cyngor Celfyddydau Cymru.(2015a). *Mewnwelediad Cynulleidfa Cymru: Cynulleidfaoedd Teulu*.

Cyngor Celfyddydau Cymru. (2015b). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*.

Cyngor Celfyddydau Cymru. (2016).

Cynulleidfaoedd ar gyfer Hynt. Codwyd o'r fan hon: http://www.clearviewbusiness.com/files/3914/8214/4707/Audience_Insight_Wales_Hynt_Bulletin_-_Welsh.PDF

Tim Ymchwil Cyngor Celfyddydau Cymru. (2016). *Arolwg Omnibws Cymru 2015 Adroddiad ar y prif ganfyddiadau*. Codwyd o'r fan hon: <http://www.arts.wales/what-we-do/research/annual-surveys/wales-omnibus-survey>

Aumeyr, M. (2013). *Final Evaluation of Reach the Heights. Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru*.

Australia Council for the Arts. (2014). *Arts in Daily Life: Australian Participation in the Arts*. Codwyd o'r fan hon: <http://www.australiacouncil.gov.au/workspace/uploads/files/research/arts-in-daily-life-australian-5432524d0f2f0.pdf>

Bakhshi Neil Lee Juan Mateos-Garcia, H., Bakhshi Nesta Neil Lee, H., Mateos-Garcia Nesta, J., & Bakhshi, H. (2014). *Capital of culture? An econometric analysis of the relationship between arts and cultural clusters, wages and the creative economy in English cities*. Retrieved from www.Nesta.org.uk/wp14-06

Beaufort Research. (2016). *Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru 2015*. <https://doi.org/10.1111/j.1467-9639.1991.tb00167.x>

Buraimo, B., Jones, H., & Millward, P. (2011). *Participation and engagement in cultural activities Analysis of the Taking Part Survey*.

Consilium Research and Consultancy. (2016). *Creative People and Places (CPP) Thematic Research "WHAT IT DOES TO YOU" Excellence in CPP*.

Crossick, G., & Kaszynska, P. (2016). *Understanding the value of arts & culture | The AHRC Cultural Value Project. Culture, Sport and Wellbeing: An analysis of the Taking Part Survey. (2014)*.

Culture and Poverty Harnessing the power of the arts, culture and heritage to promote social justice in Wales. (2014).

Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threfnadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. (2014).

Daly, M. (2012). Combating Child Poverty through Measures Promoting the Socio-Cultural Participation of Clients of the Public Centres for Social Welfare - Synthesis Report. - *Host Country Paper - Peer Review 20-21 September 2012 Brussels*. Codwyd o'r fan hon: <http://ec.europa.eu/social/main.jsp?catId=89&langId=en&newsId=1427&furtherNews=yes>

DCMS. (2016). *Taking Part: the next five years*.

Estyn. (2012). Effective practice in tackling poverty and disadvantage in schools, (November). Codwyd o'r fan hon: [https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Arfer y cant20effeithiol y cant20wrth y cant20fynd y cant20i y cantC3 y cantA2 y cantE2 y cant82 y cantAC y cantE2 y cant84 y cantA2r y cant20afael y cant20 y cantC3 y cant83 y cantC2 y cantA2 y cant20thlodi y cant20ac y cant20anfantais y cant20mewn y cant20ysgolion y cant20- y cant20Tachwedd y cant202012.pdf](https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Arfer%20effeithiol%20wrth%20fynd%20i%20y%20C3%20y%20A2%20y%20E2%20y%2082%20y%20AC%20y%20E2%20y%2084%20y%20A2r%20y%20afael%20y%20C3%20y%2083%20y%20C2%20y%20A2%20y%20thlodi%20y%20ac%20y%20anfantais%20y%20mewn%20ysgolion%20y%20Tachwedd%202012.pdf)

Fujiwara, D. (2013). Museums and happiness: The value of participating in museums and the arts, 1-42.

Fujiwara, D., Kudrna, L., & Dolan, P. (2014). Quantifying and valuing the wellbeing impacts of culture and sport. Gwelwyd ym mis Awst, (Ebrill). Codwyd o'r fan hon: <http://scholar.google.com/scholar?hl=en&btnG=Search&q=intitle:Quantifying+and+Valuing+the+Wellbeing+Impacts+of+Culture+and+Sport#0> y cant5Cn<http://scholar.google.com/scholar?hl=en&btnG=Search&q=intitle:Quantifying+and+valuing+the+wellbeing+impacts+of+culture+an>

Fujiwara, D., & Mackerron, G. (2015). *Cultural activities, artforms and wellbeing*. <https://doi.org/ISBN:978-0-7287-1550-9>

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad). Trechu Tlodi drwy Ddiwylliant - Cynllun Cyflenwi.

Llywodraeth Cymru (2014a). Adroddiad y Farwnes Andrews Diwylliant a Thlodi - Ymateb Llywodraeth Cymru. Digital ISBN, 978(5).

Llywodraeth Cymru (2014b). Grant Amddifadedd Disgyblion, (Mai).

Llywodraeth Cymru (2016). Symud Cymru Ymlaen.

Trysorlys Ei Mawrhydi. (2003). The Green Book : Appraisal and Evaluation in Central Government. Evaluation, (Hydref 2002), 118. <https://doi.org/http://greenbook.treasury.gov.uk/index.htm>

Trysorlys Ei Mawrhydi. (2011). The Magenta Book: Guidance for evaluation, (Ebrill), 141.

Ipsos MORI, Wavehill Consulting. (2015). Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses, 1-124. Codwyd o'r fan hon: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150226-communities-first-process-evaluation-cy.pdf>

Lees, L., & Melhuish, C. (2015). *Arts-led regeneration in the UK: The rhetoric and the evidence on urban social inclusion. European Urban and Regional Studies* (Vol. 22). <https://doi.org/10.1177/0969776412467474>

Matthews, P., Xu, D., Matusiak, M., a Prior, G. (2016). *Taking Part Findings from the longitudinal survey waves 1 to 3*.

MTM London. (2010). *Digital audiences: Engagement with arts and culture online*. Codwyd o'r fan hon http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160204101926/http://www.artscouncil.org.uk/media/uploads/doc/Digital_audiences_final.pdf

Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2011). The accessibility of arts and cultural activities in Wales. Codwyd o'r fan hon: <http://www.assembly.wales/Laid Documents/CR-LD8392 - Communities and Culture Committee Report - The Accessibility of Arts and Cultural Activities in Wal-03022011-209211/cr-ld8392-e-English.pdf>

Llyfryddiaeth

Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2013). *Report by the Task and Finish Group on Participation in the Arts*. Retrieved from [http://senedd.assembly.wales/documents/s13684/Participation in the Arts in Wales - Report - January 2013.pdf](http://senedd.assembly.wales/documents/s13684/Participation%20in%20the%20Arts%20in%20Wales%20-%20Report%20-%20January%202013.pdf)

Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2017). Cyflwyniad i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Celfyddydau a Busnes Cymru.

National Endowment for the Arts. (2015). *When Going Gets Tough: Barriers and Motivations Affecting Arts Attendance*. Codwyd o'r fan hon: <https://www.arts.gov/sites/default/files/when-going-gets-tough-revised2.pdf>

Nesta. (2016). *Arts Impact Fund: insights from the first year 1*.

Nesta, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a Chyngor Celfyddydau Lloegr. (2015). *Digital Culture 2015: How arts and cultural organisations in England use technology*. Codwyd o'r fan hon: <http://is.jamu.cz/el/5453/leto2016/DDML410/um/2172830/Digital-Culture-2015-Final.pdf?lang=en>

Cynulliad Gogledd Iwerddon. (2016). *Inclusion in the Arts of Working Class Communities*.

O'Riada, G. (2015). *The State of Play: Investment Review 2015: an interim statement from the Arts Council of Wales*. *Revista Tradumàtica* (Vol. Núm 5: "La"). Codwyd o'r fan hon: <http://www.fti.uab.es/tradumatica/revista/num5/articles/01/art.htm>

Richens, F. (dim dyddiad). *Pulse report – part 3: Diversity in audiences – what needs to change?* Codwyd o'r fan hon: <http://www.artsprofessional.co.uk/pulse/survey-report/pulse-report-part-3-diversity-audiences-what-needs-change>

Robinson, M. (2016). *Faster, but slower, slower, but faster. Creative People and Places Learning 2016*. Codwyd o'r fan hon: www.creativepeopleplaces.org.uk/map

Sam Culture Ltd. (2012). *A night less ordinary: the free ticket scheme for under 26's (2009-2011) Evaluation*. I'w weld fan hyn <http://culturehive.co.uk/wp-content/uploads/2013/04/A-Night-Less-Ordinary-evaluation.pdf>

Sharrock, L., Palmer, H., Murphy, C., a Trinder, J. (n.d.). *Rural versus urban: Audience Finder data | ArtsProfessional in partnership with The Audience Agency*. Retrieved January 4, 2017, Darllenwyd Ionawr 4, 2017, fan hyn <http://www.artsprofessional.co.uk/magazine/article/rural-versus-urban>

Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. (2012).

Taylor, P., Davies, L., Wells, P., Gilbertson, J., a Tayleur, W. (2015). *A review of the social impacts of culture and sport*, Project Report. Department for Culture, Media and Sport. Codwyd o'r fan hon: <http://shura.shu.ac.uk/9596/>

Taylor, P., Davies, L., Wells, P., Gilbertson, J., Tayleur, W., Christy, E., ... Dumas, V. (2015). *A review of the Social Impacts of Culture and Sport The Social Impacts of Engagement with Culture and Sport The Social Impacts of Engagement with Culture and Sport 3*.

TNS Opinion & Social ar gais y Comisiwn Ewropeaidd. (2013). *CULTURAL ACCESS AND PARTICIPATION REPORT Special Eurobarometer 399 / Wave EB79.2 – TNS Opinion & Social Cultural access and participation*. Codwyd o'r fan hon: http://ec.europa.eu/public_opinion/index_en.htm

Vermeersch, L., & Vandenbroucke, A. (2014). *Is social, cultural and recreational participation a luxury for people living in poverty? An analysis of policy intentions and measures*. *Journal of Social Intervention*, 23(1), 53–71. Codwyd o'r fan hon: <http://www.journalsi.org>

Llywodraeth Cymru. (2013). *Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol - canllawiau i ymarferwyr*.

Atodiad: Methodoleg Yr Astudiaeth

A.1 Ym mis Tachwedd 2016, comisiynwyd ERS gan Nesta i gynnal adolygiad o effeithiau cymdeithasol ac economaidd arloesi yn y celfyddydau yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Y nod yw cynnig trosolwg hygyrch a deallus o dystiolaeth yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ar dueddiadau yn amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau, effeithiau cyfranogi ar drechu tlodi ac anfantais, a chynhyrchiant economaidd y sector. Y diben yw cynorthwyo sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn uniongyrchol, gan roi cyd-destun i'r gwaith ymchwil a datblygu a wneir gan y rhai sy'n cael eu cyllido gan Nesta / Cyngor Celfyddydau Cymru, ac yn y pen draw cyfarwyddo gwaith cynllunio strategol parhaus.

A.2 Mae'r ymchwil yn ymateb i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

Beth yw'r tueddiadau tymor hir a chanolig yn amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau?	Mynediad i'r celfyddydau ar draws y sbectrwm incwm Lefelau cyfranogi gweithredol yn y celfyddydau gan wahanol grwpiau cymdeithasol
Pa dystiolaeth sydd o effeithiau tymor hir a chanolig gweithgarwch y celfyddydau ar drechu tlodi ac anfantais?	Cyrhaeddiad addysgol Iechyd meddwl a chorfforol Cyflogadwyedd
Beth yw'r tueddiadau tymor hir a chanolig yng nghynhyrchiant economaidd sector y celfyddydau?	Allbwn cyffredinol y sector a'i gydrannau Lefelau sgiliau ym marchnad lafur y celfyddydau Incwm a enillir yn erbyn incwm grant sefydliadau celfyddydol Lefelau buddsoddi a chyllid ar sail risg

A.3 Rydym wedi llunio dull gweithredu manylach ar gyfer ein Ymchwil, sy'n seiliedig ar y Cwestiynau Ymchwil gwreiddiol a ddarparwyd gan y cleient a'r hyn sy'n ymarferol mewn gwirionedd yn yr amser sydd ar gael. Dangosir ein Fframwaith Ymchwil yn Nhabl A.1 ar y dudalen nesaf. Nid diben yr astudiaeth hon yw cynnig adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth.

A.4 Nod cyffredinol i'r Fframwaith hwn yw bod yr astudiaeth yn hygyrch i sefydliadau'r Celfyddydau a fydd yn ymwneud â'r math hwn o waith. Cydnabyddir bod yr astudiaeth hon yn rhan o broses ehangach tuag at wneud defnydd gwell o dystiolaeth ymchwil i gefnogi arloesedd yn y celfyddydau.

A.5 Mae'r Gronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru yn cynnig Rhaglen grant fesul cam i sefydliadau weithio gyda thechnolegau digidol i wella cyrhaeddiad y gynulleidfa a datblygu eu model busnes. Gwyddom o'n dealltwriaeth o gronfeydd eraill yng Nghymru a neilltuwyd i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol mai peth prin yw'r cyfte hwn i arbrofi a gall fod yn fuddiol iawn i'r sefydliadau a'r datblygwyr technoleg fel ei gilydd.

Atodiad: Methodoleg Yr Astudiaeth

Tabl A.1 Fframwaith Ymchwil

Cwestiwn	Is-gwestiwn	Dull Gweithredu	Sylfaen Dystiolaeth Allweddol
Beth yw'r tueddiadau tymor hir a chanolig yn amrywiaeth cynulleidfaoedd y celfyddydau?	Mynediad i'r celfyddydau ar draws y sbectrwm incwm	Archwilio ble mae cynulleidfaoedd yn ffisegol mewn perthynas â chelf, sut y'u cyrhaeddir, mynd â chelf atynt hwy (e.e. celf ar daith: a yw 'celf dda' yn mynd i 'leoedd tlawd?'), eu synnwyr o fod â hawl i gelf ('Dydi e ddim i bobl fel fi'), cyfathrebu cynnig y celfyddydau, mynediad electronig. Adolygiad ar sail llenyddiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> — Adroddiad Diwylliant a Thlodi'r Farwnes Kay Andrews a'r gwerthusiad diweddar o beilot rhaglen Cyfuno. — The Warwick Commission — A review of the social impacts of culture and sport, Sheffield Hallam University — Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru — Arolwg Omnibws — Arolwg buddsoddi awurdau dau lleol — Mewnwelediad Cynulleidfa - prosiect rhannau data ar draws 12 lleoliad celfyddydol yng Nghymru — Y celfyddydau ac addysg: Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. — Y celfyddydau ac adfywio: Creu Cymunedau Cyfoes (wedi'i arwain gan artistiaid, mae gwerthusiad cyffredinol ar y gweill ar hyn o bryd. — Y celfyddydau ac iechyd: no wyd ei fod yn faes blaenoriaeth yn y llythyr cylch gwaith diweddaraf. — Arts Impact Fund: insights from the first year — Cultural Policy in the time of the Creative Industries — Capital of Culture? — Prosiect presennol Arloesi dur gyda Llywodraeth Cymru — Peilot cyllido torfol presennol i sefydliadau'r celfyddydau a threfnadaeth (yn seiliedig yn ei dro ar fenter ehangach a edrych ar gyllid i brosiectau/sefydliadau cymdeithasol).
	Lefelau cyfranogi gweithredol yn y celfyddydau gan wahanol grwpiau cymdeithasol	DCMS ac eraill yn dadansoddi data arolwg â model atchwel probid ar gyfer cyfranogi gan fynegi tebygoliaeth cyfranogi. Y canlyniadau'n dangos bod dosbarth cymdeithasol, incwm ac addysg oll yn effeithio ar ddefnydd. Er hyn, mae rhai mesurau o anfantais fel diweithdra hirdymor yn cynyddu cyfranogiad oherwydd mwy o amser hamdden. Yn symlach, byddai mynychder (y cant) hefyd yn cael ei gipio. Seiliedig ar lenyddiaeth.	
Pa dystiolaeth sydd o effeithiau tymor hir a chanolig gweithgarwch y celfyddydau ar drechu tlodi ac anfantais?	Cyrhaeddiad addysgol	Archwilio Llenyddiaeth gan gynnwys cyfraniad dadansoddiad atchwel. Bydd hyn yn cynnwys gwaith economegwyr fel Fujiwara (2014 a 2015) gan ddefnyddio dadansoddiad econometrig o les ar gyfer ffurfiau celf penodol, lle mae arwyddocâd a chyfernodau yn pennu cadernid a maint yr effeithiau. Mewn sawl astudiaeth, gwelwyd canlyniadau cadarnhaol, ond ychydig yn well yn unig, ar gyfer addysg. Gwelwyd effeithiau gwan yn achos iechyd a chyflogaeth. Mae'r rhain yn fethodolegau cymhleth ac mae priodoli yn anodd.	
	Iechyd meddwl a chorfforol		
	Cyflogadwyedd		
Beth yw'r tueddiadau tymor hir a chanolig yng nghynhyrchiad economaidd sector y celfyddydau?	Allbwn cyffredinol y sector a'i gydrannau	Mae ABS yn darparu cyfres amser o drosiant a gwerth ychwanegol gros, FTE. Byddai adnoddau Cyngor Celfyddydau Lloegr ac eraill yn cyfoethogi hyn gydag effeithiau uniongyrchol a lluosydd (anuniongyrchol ac ysgogedig) a chyfraniad i'r economi ymwelwyr ac effeithiau gorlifo eraill.	
	Lefelau sgiliau ym marchnad lafur y celfyddydau	Byddai'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Llafurlu yn darparu llinell sylfaen gydag amcanestyniadau ychwanegol. Byddai sylwadau a dehongliad yn ategu hyn.	
	Incwm a enillir yn erbyn incwm grant sefydliadau celfyddydol	Mae hyn yn tueddu i amrywio'n sylweddol rhwng ffurfiau celf, gan gynnwys gwahaniaethau elw/dim-elw. Bydd dadelfennu'r data yn hanfodol.	
	Lefelau buddsoddi a chyllid ar sail risg	Gallai ffynonellau data ar gyllid confensiynol gynnwys Financial Analysis Made Easy (FAME), ond gallai hyn gynnwys cyllid cymdeithasol.	

A.6

Mae ein meini prawf troswaol ar gyfer cynnwys / peidio â chynnwys wedi'u cyflwyno yn Nhabl A.2. Yn y chwiliad cychwynnol, mae sawl maen prawf ar gyfer peidio â chynnwys, e.e. cyhoeddiadau heb eu hysgrifennu yn Saesneg a blaenoriaeth i gyhoeddiad mwy diweddar (y bedair blynedd diwethaf). Yn olaf, ystyriwn ansawdd y llenyddiaeth, a aseswn drwy ein cynllun asesu ansawdd yn Nhabl A.3.

Tabl A.2 Meini Prawf Cynnwys a Pheidio â Chynnwys

Maen Prawf	Cynnwys	Peidio â Chynnwys
Cwmpas daearyddol	Ymchwil yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys astudiaethau cenedlaethol a rhanbarthol), ymchwil ryngwladol	Dim
Sectorau	Busnesau sy'n bodloni meini prawf Cyngor Celfyddydau Cymru i ymgeiswyr. At ddibenion ystadegol wrth weithio â data ONS, dosbarthiadau SIC 90 y Celfyddydau Perfformio, Cymorth i'r Celfyddydau Perfformio, Creu artistig, Gweithredu cyfleusterau'r Celfyddydau a SIC 91.02 Gweithgareddau amgueddfeydd.	Sectorau eraill
Dyddiad	Wedi'u cyhoeddi yn y pedair blynedd diwethaf, yn edrych ymlaen 5 mlynedd (yn y lle cyntaf)	Llenyddiaeth cyn 2011
Iaith	Saesneg	Unrhyw iaith arall.
Math o lenyddiaeth a ffynhonnell y data	Llenyddiaeth ar draws amrywiaeth o ddulliau ymchwil, ond rhaid eu bod yn dystiolaeth empirig: papurau a adolygwyd gan gymheiriaid, adroddiadau ymchwil, papurau cynhadledd, adroddiadau ac erthyglau proffesiynol; llenyddiaeth lwyd; setiau data'r llywodraeth ac anllywodraethol. Llenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a data'r llywodraeth i gael eu blaenoriaethu dros lenyddiaeth lwyd a data anllywodraethol.	Adolygiadau o lyfrau a barn drafodol.
Ansawdd y llenyddiaeth: 1 (isel) i 7 (uchel)	4-7 fyddai'n well (hynny yw, methodoleg fanwl wedi'i chynnwys), ond gallai gael ei ehangu yn dibynnu ar y canlyniadau.	1-3

A.7 Mae Tabl A.3 yn dangos ein cynllun ar gyfer asesu ansawdd y cyhoeddiadau, ac mae'n ganllaw defnyddiol i bwysu a mesur cywirdeb y canfyddiadau. Mae cynhwysiant yn cydnabod methodoleg gadarnach gyda chanlyniadau y gellid eu hailadrodd.

Tabl A.3 Sgôr Asesu Ansawdd

	Score	Category
Gwaith ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid gan ddefnyddio dulliau arbrolol, meta-ddadansoddi (haparbrofion rheolydd, lled-arbrofol). Setiau data wedi'u cyhoeddi gan y llywodraeth.	7	Uchel
Gwaith ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid gan ddefnyddio dulliau anarbrofol a phapurau adolygu (e.e. gwaith ymchwil Meintiol ac ansodol fel astudiaethau o garfannau, astudiaethau arsylwi, astudiaethau achos ac ati, ond yn methu â phennu achos ac effaith yn llawn). Setiau data wedi'u casglu gan gyrff anlywodraethol ond gan ddefnyddio dulliau ymarfer gorau'r Llywodraeth.	6	Uchel
Gwaith ymchwil heb ei adolygu gan gymheiriaid gan ddefnyddio dulliau arbrolol (e.e. defnyddio grwpiau rheolydd). Setiau data wedi'u casglu gan sefydliadau anlywodraethol gan ddefnyddio dulliau cadarn, wedi'u dilysu.	5	Canolig
Gwaith ymchwil heb ei adolygu gan gymheiriaid gan ddefnyddio dulliau anarbrofol neu adolygiadau ac iddo ddyluniad ymchwil clir y gellir ei amddiffyn (e.e. gwaith ymchwil meintiol ac ansodol fel arolygon. Grwpiau ffocws / astudiaethau achos ond yn methu â phennu achos ac effaith yn llawn). Setiau data wedi'u casglu gan ddefnyddio dulliau wedi'u hesbonio'n dda ac y gellir eu hailadrodd.	4	Canolig
Gwaith ymchwil heb ei adolygu gan gymheiriaid ac iddo ddyluniad ymchwil clir y gellir ei amddiffyn ond gan adlewyrchu tystiolaeth anecdotaidd neu farn yn unig	3	Isel
Gwaith ymchwil cynradd heb ei adolygu gan gymheiriaid ond heb ddyluniad ymchwil clir y gellir ei amddiffyn	2	Isel
Dim gwaith ymchwil cynradd na methodoleg fanwl (e.e. blogiau, darnau barn)	1	Isel

